sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Adroddiad Blynyddol Ofcom ar **y BBC**

2019/20




**Cefnogi darlledu yn y DU**

Cyhoeddwyd 25 Tachwedd 2020

# Cynnwys

Trosolwg .... 2
Effaith barhaus Covid-19 .... 8
Edrych i'r dyfodol .... 13
Asesu perfformiad .... 18
Diben Cyhoeddus 1 .... 27
Diben Cyhoeddus 2 .... 42
Diben Cyhoeddus 3 .... 52
Diben Cyhoeddus 4 .... 67
Effaith y BBC ar gystadleuaeth .... 92
Safonau cynnwys y BBC .... 98
Trosolwg o'n dyletswyddau .... 105



# Trosolwg

Dyma ein trydydd adroddiad blynyddol ar y BBC[1], sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Mae gan y BBC gylch gwaith eang yn ei Siarter Frenhinol (y Siarter) i hysbysu, i addysgu ac i ddiddanu'r cyhoedd, ac i gefnogi'r economi greadigol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am lywodraethu cyffredinol, ac am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus a nodwyd yn y Siarter. Mae'n pennu cyfeiriad strategol cyffredinol a chylch gwaith creadigol y BBC, yn asesu ei berfformiad ac yn dal rheolaeth y BBC yn atebol.

Pennir rôl Ofcom gan y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith (y Cytundeb). Rydym yn dal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd drwy ddarparu prosesau rheoleiddio teg, cadarn ac annibynnol. Ein rôl yw asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, cynnal safonau cynnwys a diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol. Nid yw penderfyniadau ynghylch amserlennu rhaglenni unigol a materion golygyddol o fewn ein cylch gwaith.

**Mae'r adroddiad hwn yn datgelu bod y BBC yn parhau i gyflawni ei gylch gwaith yn gyffredinol.** Ar hyd y flwyddyn tan ddiwedd Mawrth 2020, darparodd swm mawr iawn o gynnwys newyddion a materion cyfoes, ac amrywiaeth eang o gynnwys dysgu ac addysgol, yn ogystal â chynnwys creadigol ac unigryw o ansawdd uchel ar ei wasanaethau prif ffrwd ac arbenigol. Mae bodlonrwydd cynulleidfaoedd yn parhau i fod yn gymharol uchel yn gyffredinol. Mae'n cymharu'n dda â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a gorsafoedd radio masnachol, gyda saith ym mhob deg o'i gynulleidfa yn fodlon â chynnwys y BBC ar y radio ac ar-lein, a dwy ran o dair yn fodlon â gwasanaethau teledu'r BBC.[2]

**Ymatebodd y BBC yn effeithiol ac yn gyflym i Covid-19.** Yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud[3] cynigiodd lawer iawn o gynnwys addysgol i lenwi'r bwlch pan gaewyd ysgolion, a chynyddodd ei ddarpariaeth newyddion. Gwasanaethau'r BBC oedd y ffynonellau mwyaf poblogaidd o newyddion a gwybodaeth am Covid-19, ymhell ar y blaen i eraill, a'r rhain oedd yn cael eu hystyried yn bwysicaf yn gyson.[4] Roedd cynulleidfaoedd mawr yn gwrando ar wasanaethau newyddion y BBC: Gwyliodd 18.8 miliwn o bobl y Prif Weinidog yn cyhoeddi ar BBC One bod y cyfyngiadau symud yn cael eu llacio.[5] O ystyried safle breintiedig y BBC o ran cyllid, a faint o

[1] Mae Siarter y BBC yn mynnu ein bod ni'n cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi sut rydym wedi cyflawni ein prif swyddogaethau o dan Erthygl 46 o'r Siarter ac mae hynny'n asesu cydymffurfiad y BBC â'i rwymedigaethau rheoleiddio.
[2] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.
[3] Dechreuodd y Llywodraeth weithredu'r mesurau cyfyngiadau symud cyntaf, a gynlluniwyd i leihau lledaeniad y coronafeirws, ganol mis Mawrth 2020 ac roedd yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan. Cyfeirir at gyfyngiadau symud mis Tachwedd ledled Lloegr fel yr 'ail gyfyngiadau symud' yn yr adroddiad hwn.
[4] Traciwr newyddion a gwybodaeth am Covid-19: defnydd ac agweddau, Ofcom
[5] BARB

insiwleiddio rhag rhagor o siociau yn y farchnad y mae hyn yn ei ddarparu, rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC i barhau i gefnogi economi greadigol y Deyrnas Unedig yn ystod yr adferiad. Rydym hefyd yn annog y BBC i ystyried sut gall ymgorffori partneriaethau a phrofiadau cadarnhaol diweddar yn ei ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

**Mae'r angen i'r BBC ymateb i arferion cynulleidfaoedd a marchnadoedd sy'n newid yn dod yn bwysicach.** Mae Covid-19 wedi cyflymu'r newidiadau yng nghyfanswm y lefelau gwylio ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw (SVoD) i danysgrifwyr: mae tua 12 miliwn o bobl wedi cael mynediad at danysgrifiad SVoD newydd yn ystod y cyfyngiadau symud.[6] Roedd tua 3 miliwn o bobl wedi defnyddio SVoD am y tro cyntaf. Gwelwyd cynnydd yn nifer y gwylwyr hŷn a oedd yn gwylio - roedd bron i draean (32%) o bobl 55-64 oed yn defnyddio gwasanaethau SVoD yn ystod y cyfyngiadau symud cynnar, i fyny o 25% cyn y cyfyngiadau symud, tra bod 15% o bobl dros 64 oed yn eu defnyddio (i fyny o 12%).[7] O ystyried y dewis cynyddol i ddefnyddwyr, mae angen rhoi gwerth mawr ar yr amser mae cynulleidfaoedd yn ei dreulio gyda'r BBC. Mae cynulleidfaoedd y BBC yn gyffredinol yn gostwng yn raddol; cyrhaeddodd 87% o oedolion yn 2020 o'i gymharu â 92% dair blynedd yn ôl. Os nad yw cynulleidfaoedd yn credu bod y BBC yn rhan greiddiol o'u harferion gwylio, efallai na fyddant yn gweld gwerth yn ffi'r drwydded, sydd, yn ei dro, yn peryglu gallu'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus yn y dyfodol. Mae angen i'r BBC hefyd ehangu ei gyrhaeddiad ac apelio at rychwant ehangach o bobl, yn enwedig cynulleidfaoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a'r rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

**Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd y BBC, Tim Davie, wedi dechrau nodi ei flaenoriaethau**. Rydym yn croesawu'r gonestrwydd mae wedi ei ddangos hyd yma wrth ganfod lle mae angen i'r BBC newid a'r blaenoriaethau y mae wedi dweud y bydd yn canolbwyntio arnynt.

**Fodd bynnag, rydym yn annog y BBC yn gryf i nodi ei gynlluniau yn fanylach yn awr ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau hyn.** Y llynedd, dywedasom ei bod yn anodd i ni farnu faint o gynnydd roedd y BBC yn ei wneud, os nad oes cynllun clir a thryloyw. Dyma ein barn o hyd, ac rydym yn awr yn disgwyl gweld rhagor o fanylion yng Nghynllun Blynyddol nesaf y BBC.

**Rydym yn disgwyl y bydd strategaeth y BBC yn y dyfodol yn cynnwys newidiadau i wasanaethau**, o ystyried y pwysau ariannol parhaus ar gyllidebau'r BBC yn ogystal â'r ffocws parhaus ar ddatblygu gwasanaethau ar-lein. Nid yw newid o fod yn ddarlledwr ar sianeli teledu a radio yn bennaf i fod yn un sy'n canolbwyntio ar ddarparu ei wasanaethau ar-alw digidol yn broses hawdd na chyflym. Mae angen buddsoddi ynddo, a newid sylfaenol ar draws y sefydliad, o ran technoleg, dosbarthu a chynnwys. Rydym yn deall bod angen i'r BBC arloesi ac y bydd yn rhaid iddo dreialu syniadau, a'i bod yn bosibl na fydd y rhain yn gweithio bob amser. A bydd angen iddo ddarparu allbwn a gwasanaethau'n wahanol er mwyn diwallu anghenion newidiol y gynulleidfa.

**Wrth i'r BBC esblygu ei wasanaethau, mae angen iddo wella'r ffordd mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch ei gynlluniau.** Mae hyn yn bwysig oherwydd pwysigrwydd rôl y BBC ym mywydau pobl.

[6] Arolwg Ymddygiad Cyfryngau Covid-19 TRP Ofcom. Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng 4 a 5 Gorffennaf 2020. Oedolion 16 oed a hŷn ar-lein. Mae'r amcangyfrif o 12 miliwn o oedolion ar-lein a gafodd fynediad at wasanaeth SVoD newydd yn ystod y cyfyngiadau symud yn golygu bod tua 6 miliwn o gartrefi wedi cael tanysgrifiad newydd.

[7] TouchPoints 2020, cyn ac yn ystod y cyfyngiadau symud

Mae bron i naw o bob deg oedolyn yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio'r BBC bob wythnos[8], a gall newidiadau i'w wasanaethau gael effaith fawr ar gynulleidfaoedd. Wrth iddo wneud newidiadau, mae angen i'r BBC egluro'n glir beth fydd yn wahanol a sut bydd anghenion gwylwyr a gwrandawyr yn parhau i gael eu diwallu.

**Mae angen i'r BBC hefyd fod yn fwy rhagweithiol wrth ymgysylltu ag eraill yn y diwydiant ynghylch ei gynlluniau.** Rydym yn cydnabod bod y BBC yn gynyddol yn wynebu cystadleuaeth gan gwmnïau byd-eang, gyda chwmnïau fel Netflix, Disney a Spotify yn ymestyn eu gwariant a'u cyrhaeddiad. Fodd bynnag, fel sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, sy'n darparu cynnwys ar draws y sectorau teledu, radio ac ar-lein, gallai ei weithredoedd gael effaith negyddol ar gystadleuaeth, os mai effaith newid yw peryglu lleihau dewisiadau i ddefnyddwyr. Cyfrifoldeb y BBC yw deall effaith bosibl ei gynlluniau a bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch y rhain ymlaen llaw ac mewn digon o fanylder i ddarparwyr masnachol asesu ac egluro'r sgil effeithiau tebygol ar eu busnesau ac ar gynulleidfaoedd. Rydym ni wedi clywed unwaith eto eleni gan nifer o randdeiliaid nad ydynt wedi bod yn ymwybodol o newidiadau mae'r BBC wedi eu cynllunio.

**Mae rhanddeiliaid y BBC hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch tryloywder buddsoddi, strategaeth a pherfformiad y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau,** ac maent o'r farn nad oes digon o fanylion am y materion hyn yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC. Rydym yn annog y BBC i fod yn fwy eang yn ei adroddiadau yma, ac yn benodol wrth fynegi ei strategaeth ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn y dyfodol. Mae hyn yn bwysig i gynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig, ond hefyd i economïau creadigol lleol.

**Wrth i'r BBC ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau, mae rôl hollbwysig i Fwrdd y BBC, yn ogystal â'r Weithrediaeth.** Y Bwrdd yw'r corff sy'n bennaf gyfrifol am lywodraethiad cyffredinol y BBC a sut mae'n adrodd i'r cyhoedd, am bennu safonau, sicrhau bod gan y BBC strategaeth glir, ac am ddal y weithrediaeth i gyfrif am berfformiad tuag at ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus fel y nodir yn y Siarter.

Yn yr adrannau isod rydym yn edrych ar effaith Covid-19 ac yn egluro beth rydym yn ei ddisgwyl gan y BBC yn y dyfodol. Mae gweddill yr adroddiad yn asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus[9], a sut mae Ofcom wedi cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â chystadleuaeth a safonau cynnwys. Mae Adroddiad Perfformiad rhyngweithiol yn cyd-fynd â'r adroddiad, sy'n cyflwyno data helaeth am bob un o'r Dibenion Cyhoeddus a pha mor dda maent wedi cael eu cyflawni, ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau'r BBC. Yn ogystal, mae atodiad ar wahân sy'n nodi ein hasesiad o gydymffurfiad y BBC â'r gofynion penodol a nodir yng Nghytundeb y BBC.

[8] TouchPoints

[9] Rhaid i ni hefyd gyhoeddi adroddiad ar berfformiad y BBC yn unol â'n mesurau perfformiad. Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi cynhyrchu adroddiad ar wahân ar hyn; eleni rydym wedi ymgorffori hwnnw yn yr adroddiad hwn ac wedi darparu Adroddiad Perfformiad rhyngweithiol cysylltiedig.

## Yr hyn a welsom eleni

Mae'r rhan fwyaf o oedolion **yn dal i wylio cynnwys y BBC bob wythnos, er ei bod yn her barhaus i wasanaethu holl gynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig.**

Fel y nodwyd gennym y llynedd, mae'r BBC yn dal i gael trafferth cyrraedd a chadw cynulleidfaoedd iau, er ein bod yn cydnabod ei fod yn cymryd camau i ymateb i'r her hon. Am y tro cyntaf, mae lefelau bodlonrwydd ymysg cynulleidfaoedd sydd fel arfer yn defnyddio'r BBC fwyaf, ac sydd wedi bod yn fwyaf bodlon ag ef, yn dechrau dangos arwyddion o wegian. Mae rhai grwpiau hefyd sy'n parhau i fod yn llai bodlon â'r BBC – yn enwedig pobl yn yr Alban, pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a phobl anabl.

Rydym yn parhau i fod yn bryderus ynghylch dull y BBC o ganfod cynulleidfaoedd llai bodlon. Ar gyfer y dyfodol, mae angen cynllun clir arno i wasanaethu'r cynulleidfaoedd hyn yn well. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi cydnabod nad yw'r BBC yn darparu ar gyfer pob cynulleidfa yn gyfartal, gyda rhai pobl yn cael gwerth eithriadol o ffi'r drwydded, tra bo eraill yn cael eu gwasanaethu'n wael.

Bydd angen i'r BBC ganolbwyntio ar ddarparu cynnwys perthnasol, unigryw o ansawdd uchel sy'n apelio at yr amrywiaeth ehangaf posibl o gynulleidfaoedd. Mae'r BBC wedi dweud ei fod eisiau canolbwyntio ar gynnwys unigryw sy'n cael effaith fawr, yn rhannol drwy wneud llai. Fodd bynnag, ni ddylai golli golwg ar bwysigrwydd cynnal ymrwymiad i genres sydd mewn perygl, lle mae gwariant ac oriau newydd wedi gostwng yn sylweddol ers 2010.[10] Mae'r amrywiaeth eang hon o gynnwys yn llai tebygol o gael ei ddarparu mewn mannau eraill ac felly mae'n gwneud cyfraniad pwysig at natur unigryw'r BBC.

### Mae'r BBC wedi lansio amrediad eang o gynlluniau i gynyddu ei amrywiaeth, ond mae ei gynnydd o ran gwella cynrychiolaeth a phortreadu holl gymunedau'r Deyrnas Unedig yn dal yn aneglur

Mae'r Deyrnas Unedig yn cynnwys amrywiaeth eang o bobl wedi eu diffinio gan nifer o nodweddion, gan gynnwys lle maent yn byw, eu hethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oed, statws economaidd-gymdeithasol ac a oes ganddynt anabledd ai peidio. Mae gan gynulleidfaoedd ddisgwyliadau uchel o ran sut dylai'r BBC adlewyrchu eu bywydau eu hunain. Mae'r BBC wedi gwneud llawer o waith i wella ei amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, felly mae'n gallu deall ac adlewyrchu amrywiaeth ehangach o bobl yn well, gan ei helpu i daro tant â phob cynulleidfa ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cydnabod pwysigrwydd allweddol y mater hwn. Mae ef a June Sarpong (a benodwyd yn Gyfarwyddwr Amrywiaeth Greadigol ym mis Hydref 2019) wedi sôn am yr angen am fwy o amrywiaeth, gan gynnwys amrywiaeth economaidd-gymdeithasol a rhanbarthol, os yw'r BBC am wasanaethu ei holl gynulleidfa'n effeithiol. Mae'r BBC wedi cyrraedd ei darged ar gyfer 2020 o ran cynrychiolaeth ar y sgrin. Mae hefyd wedi cynyddu amrywiaeth a thryloywder y data cyflogaeth mae'n ei gyhoeddi ac mae'n gwneud rhywfaint o

[10] Y genres 'mewn perygl' yw'r rhai sy'n cyfrannu'n benodol at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, sydd ddim yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fel y nodir yn Atodlen 2 y Cytundeb, mae'r rhain yn cynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, yn ogystal â rhaglenni comedi a rhaglenni plant.

gynnydd o ran ei dargedau gweithlu, ond mae cyflymder y newid yn araf. Mae mwy i'w wneud i sicrhau amrywiaeth ar bob lefel yn y sefydliad.

Er ein bod ni'n croesawu'r ymrwymiad mae'r BBC wedi ei ddangos, a'r newidiadau y mae wedi eu gwneud yn barod, nid oes modd mesur effaith y rhain yn glir eto. Yn ychwanegol at y cynlluniau newydd o ran amrywiaeth a gyhoeddwyd, rydym eisiau gweld y BBC yn nodi cynllun clir sy'n egluro sut mae'n cyflawni ei rwymedigaethau i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pobl y Deyrnas Unedig, sut bydd yn mesur llwyddiant ei waith yn y maes hwn, a beth mae'n ei wneud i ddal ei gyflenwyr cynnwys i gyfrif.

### Mae'r rhan fwyaf o gynulleidfaoedd o'r farn bod newyddion y BBC yn ddibynadwy ac yn gywir, ond mae cadw ymddiriedaeth o ran didueddrwydd yn her gymhleth

Y BBC yw'r ffynhonnell newyddion fwyaf poblogaidd yn y Deyrnas Unedig ac mae ganddo ran bwysig i'w chwarae o ran rhoi gwybodaeth i'r genedl. Yn ein Harolwg ar Gael Gafael ar Newyddion, cytunodd saith o bob deg sy'n gwylio newyddion teledu'r BBC yn rheolaidd ei fod yn gywir ac yn ddibynadwy. Mae hyn yn unol ag ITV, Channel 4 a sianel Sky News.

Mewn tirwedd wleidyddol a diwylliannol sydd wedi ei pholareiddio fwyfwy, mae sicrhau didueddrwydd dyladwy mewn newyddion a materion cyfoes yn dal yn hanfodol ac mae'n faes mae llawer yn teimlo'n gryf yn ei gylch. Yn ystod y flwyddyn, ni wnaethom ganfod bod y BBC wedi torri gofynion didueddrwydd dyladwy na chywirdeb dyladwy y Cod Darlledu. Fodd bynnag, mae ein Traciwr Perfformiad y BBC yn dangos mai dim ond 54% o oedolion sy'n credu bod newyddion y BBC yn ddiduedd. Rydym yn gwybod bod canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd yn cael eu siapio gan amrywiaeth o ffactorau, nad ydynt i gyd yn uniongyrchol gysylltiedig â chynnwys newyddion y BBC. Canfu ein hymchwil y llynedd fod pobl a oedd yn arddel safbwyntiau gwleidyddol cryf yn meddwl bod y BBC yn rhy asgell chwith neu dde, gan ddibynnu ar eu safiad gwleidyddol personol. Awgrymodd dadansoddiad o gyfryngau cymdeithasol mai'r rhai a oedd yn arddel y safbwyntiau gwleidyddol cryfaf oedd y mwyaf tebygol o wneud sylwadau beirniadol am y BBC.

Fodd bynnag, mae perygl y gallai'r berthynas â chynulleidfaoedd yn y dyfodol gael eu peryglu os bydd pryderon cynulleidfaoedd ynghylch didueddrwydd yn parhau i dyfu. Y llynedd, roeddem wedi dweud y dylai'r BBC deimlo'n hyderus i fod yn fwy mentrus o ran didueddrwydd dyladwy gan fod ein hymchwil wedi dangos bod cynulleidfaoedd yn parchu safon newyddiaduraeth y BBC ac yn disgwyl i'w ohebwyr ymchwilio, dadansoddi ac egluro digwyddiadau. Rydym yn dal o'r farn hon ac yn croesawu ymrwymiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd i'r maes hwn.

### Mae'r BBC wedi cydymffurfio â'i Drwydded Weithredu

Roedd tri amod nad oedd y BBC yn eu bodloni, ond rydym yn fodlon bod y rheswm dros hyn yn uniongyrchol gysylltiedig ag amgylchiadau eithriadol Covid-19. Gan hynny, rydym wedi penderfynu peidio â chymryd camau gorfodi yn erbyn y BBC mewn perthynas â'i ofynion perfformiad.

## Mae’r BBC wedi bodloni’r safonau yn y Cod Darlledu

Cawsom ychydig dros 3,000 o gwynion am safonau cynnwys y BBC yn 2019/20. Cafodd y rhan fwyaf o’r cwynion hyn (dros 2,700) eu cyfeirio’n ôl at y BBC gan nad oeddent wedi cwblhau proses gwynion y BBC (a elwir yn ‘BBC yn Gyntaf’). Cafodd tua 230 o gwynion am safonau darlledu[11] eu hystyried yn ofalus gan Ofcom; nid oedd yr un ohonynt wedi golygu ei fod wedi torri’r Cod Darlledu.[12] Rydym yn croesawu’r camau mae’r BBC wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn hon i wella tryloywder i gynulleidfaoedd o ran ei broses cwynion golygyddol. Fodd bynnag, rydym eisiau sicrhau bod y system BBC yn Gyntaf yn parhau i ennyn hyder cynulleidfaoedd yn ystod cyfnodau etholiadau.



**Killing Eve** (delwedd trwy garedigrwydd y BBC)

[11] Yn ogystal â 50 o gwynion tegwch a phreifatrwydd a thua 50 o gwynion am ddeunydd ar-lein y BBC – gweler yr adran ar safonau cynnwys y BBC am ragor o wybodaeth

[12] Yn ystod 2019/20, fe wnaethom gofnodi un achos o dorri’r Cod Darlledu, a drafodwyd yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19. Roedd hwn yn ymwneud â rhifyn o *Sunday Politics* a ddarlledwyd ym mis Ebrill 2017 ar BBC One. Roedd y penderfyniad a gyhoeddwyd gan Ofcom yn cofnodi bod Rheol 2.2 wedi cael ei thorri, sy’n mynnu na chaiff rhaglenni ffeithiol na phortreadau o faterion ffeithiol gamarwain mewn ffordd sylweddol.




# Effaith barhaus Covid-19

## Mae’r diwydiant cyfryngau wedi dangos ystwythder drwy barhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd

Mae Covid-19 wedi arwain at darfu sylweddol ar y sector darlledu, gan fynnu bod pob darlledwr yn ymateb yn gyflym i anghenion cynulleidfaoedd sy’n newid.[13] Ym mis Ebrill, wrth i bobl gael eu gorfodi i dreulio mwy o amser gartref, roeddent yn gwylio llawer mwy o gynnwys clyweledol, hyd at 6 awr a 25 munud y dydd, awr a hanner yn fwy na’r ffigur cyfartalog yn 2019. Roedd y twf mwyaf mewn gwasanaethau SVoD, gyda’r lefelau gwylio ym mis Ebrill 37 munud yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer 2019.[14]

Cynyddodd y rhan fwyaf o’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu cyfran unigol o’r gwylio rhwng mis Chwefror a mis Mawrth, gyda BBC One a sianeli eraill y BBC yn cael yr hwb mwyaf o ganlyniad i bobl yn gwylio mwy o newyddion. Gwasanaethau’r BBC oedd y ffynhonnell fwyaf poblogaidd o newyddion a gwybodaeth am Covid-19, gydag wyth o bob deg (82%) o bobl yn dweud eu bod yn eu defnyddio at y diben hwn yn ystod wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud[15], ymhell ar y blaen i ddarlledwyr eraill, cyfryngau cymdeithasol a ffynonellau eraill. Teledu’r BBC oedd y ffynhonnell bwysicaf ar y pryd, a yna newyddion y BBC ar-lein. Cafodd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu cyfran gwylio fisol gyfun uchaf mewn mwy na chwe blynedd ym mis Mawrth 2020, pan wnaethant gipio bron i 60% o’r holl wylio teledu sy’n cael ei ddarlledu. Fodd bynnag, wrth edrych ar y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Medi, nid oedd gwahaniaeth yn y gyfran o’r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus o’i gymharu â’r un cyfnod yn 2019, sy’n dangos nad oedd hyn yn newid yn y duedd hirdymor sy’n dirywio.[16]

Cafodd y cyfyngiadau symud effaith ar wrando ar y radio ar unwaith, gyda gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy’n gwrando yn y car ac yn y gweithle, sydd fel arfer yn cynrychioli tua 40% o’r holl wrando.[17] Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dangos bod tua thraean o oedolion yn gwrando ar y radio i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y pandemig ar ddechrau’r cyfyngiadau symud, ac mae

[13] Mae’r rhan fwyaf o effaith Covid-19 y tu allan i’n cyfnod adrodd a bydd adroddiad manwl ar hyn yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC ar gyfer 2020/21
[14] Mae Ofcom yn amcangyfrif cyfanswm yr holl wylio sain/fideo. Wedi ei fodelu o ddata BARB, Comscore a TouchPoints.
[15] Mae’r cyfyngiadau symud yn cyfeirio at y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf yn y Deyrnas Unedig yng ngwanwyn 2020 oni nodir yn wahanol. Rydym yn cyfeirio at gyfyngiadau symud mis Tachwedd ledled Lloegr fel yr ‘ail gyfyngiadau symud’ yn yr adroddiad hwn.
[16] BARB
[17] RAJAR, pwysoliad 12 mis i Chwater 1 2020

hefyd yn dangos bod gwrandawyr wedi parhau i droi at y radio am gwmnïaeth a cherddoriaeth.[18] Trodd tua un o bob pump o oedolion at radio'r BBC ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, a *Coronavirus Newscast* y BBC oedd y podlediad mwyaf poblogaidd ar y pryd.[19]

Mae gorsafoedd radio wedi parhau i ddarparu ffynhonnell werthfawr o adloniant, gwybodaeth a chwmnïaeth yn ystod y pandemig. Ar gyfer radio masnachol yn benodol, mae hyn er gwaethaf y gostyngiad mawr mewn refeniw hysbysebu. Mae gorsafoedd radio cymunedol hefyd wedi parhau i chwarae rhan bwysig o ran darparu newyddion, gwybodaeth a chefnogaeth i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu, gydag ymdrechion penodol yn canolbwyntio ar weithio gyda chynghorau lleol, elusennau ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y rhan fwyaf o orsafoedd radio cymunedol yn dibynnu ar wirfoddolwyr.

Mae Covid-19 wedi dangos pa mor dda mae darlledwyr, gan gynnwys y BBC, yn gallu arloesi ac addasu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd wrth iddynt barhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys i gynulleidfaoedd er gwaethaf heriau'r pandemig. Yn benodol, chwaraeodd y BBC rôl arbennig yn y sector gan ei fod yn cefnogi rhieni yn y Deyrnas Unedig i addysgu eu plant gartref, pan oedd ysgolion ar gau, drwy ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys addysgol i bob oed ysgol ar draws pob llwyfan ac wedi ei deilwra i bob un o wledydd y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, roedd *Bitesize Daily* ar gael ledled y Deyrnas Unedig drwy'r botwm coch ac ar BBC iPlayer, ac roedd *Bitesize Daily Lessons* yn darparu gweithgareddau ychwanegol ar wefan y BBC.

Cafodd llawer o gynyrchiadau eu hatal yn ystod y cyfyngiadau symud er mwyn diogelu'r cast a'r criw nes bod modd rhoi protocolau ffilmio newydd ar waith. Er bod y rhan fwyaf o gynyrchiadau wedi ailddechrau erbyn hyn, mae mesurau cadw pellter cymdeithasol yn golygu y gall rhaglenni gymryd mwy o amser a chostio mwy i'w gwneud. Roedd bylchau yn yr amserlen hefyd oherwydd canslo neu ohirio digwyddiadau diwylliannol byw fel Glastonbury a digwyddiadau chwaraeon byw fel Wimbledon. Fel darlledwyr eraill, dangosodd y BBC ei fod yn gallu gwneud penderfyniadau comisiynu cyflym a gwneud cynnwys mewn ffyrdd newydd ac arloesol, er enghraifft, drwy newid fformatau (e.e. Roedd panelwyr *Have I Got News For You* yn cyfrannu o'u cartrefi), drwy gyflwyno'r gwasanaeth celfyddydau a diwylliant *Culture in Quarantine*, a thrwy ddarparu comedïau newydd, fel *Comedians Home Alone* a *Staged*.

Mae gorsafoedd radio hefyd wedi gorfod addasu ac arloesi, gyda llawer o sioeau'n cael eu cyflwyno'n fyw o gartrefi cyflwynwyr yn hytrach nag o stiwdio. Yn yr un modd â'i gynyrchiadau teledu, roedd radio'r BBC hefyd wedi addasu ei raglenni gyda nodweddion fel y *Great British Singalong*. Ar gyfer hwnnw, ymunodd gorsafoedd cerddoriaeth y BBC ledled y Deyrnas Unedig mewn cyd-ddarllediad amlffordd bob dydd Iau am nifer o wythnosau, gyda phob un yn darlledu cân ar wahân i'r cyhoedd ei chanu a neilltuo'r nodwedd i grŵp gwahanol o bobl bob wythnos. Ymunodd radio lleol a gwledydd y BBC â grwpiau gwirfoddoli lleol i helpu i roi gwybod i bobl am y cymorth oedd ar gael yn eu hardaloedd.

Bydd y pandemig yn parhau i gael effaith ar amserlenni arfaethedig. Mae darlledwyr yn parhau i addasu a diwallu anghenion cynulleidfaoedd - er enghraifft, drwy wneud cynyrchiadau sy'n ddiogel o ran Covid (e.e. Dychweliad *Eastenders*, ond gyda phenodau byrrach, *Strictly Come Dancing* ar BBC

[18] Arolwg Ymddygiad Cyfryngau Covid-19 TRP Ofcom
[19] Ymchwil Populus, Mawrth 2020.

One a *The Great British Bake Off* ar Channel 4), cynnig mwy o sylw byw i newyddion, a llenwi rhai bylchau yn yr amserlenni gydag ailddarllediadau. Mae ansicrwydd parhaus ynghylch mathau eraill o gynnwys, fel dramâu wedi eu sgriptio. Pan symudodd Lloegr i ail gyfnod o gyfyngiadau symud ar 5 Tachwedd, cyhoeddodd y Llywodraeth eithriad ar gyfer pob agwedd ar y broses cynhyrchu ffilmiau a theledu, sydd hefyd yn berthnasol i'r gwledydd datganoledig.

Mae darlledwyr ar draws y sector wedi gweithio gyda'i gilydd a chyda'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig ar ganllawiau cynhyrchu newydd. Mae'r pandemig hefyd wedi arwain at gryfhau nifer o fentrau sydd â'r nod o gefnogi'r sector creadigol. Er enghraifft, dyblodd y BBC ei fuddsoddiad yn y Gronfa Cwmnïau Bach Annibynnol a dywedodd y bydd yn canolbwyntio mwy ar weithio gyda chynhyrchwyr llai, a'r rhai yn y gwledydd a'r rhanbarthau neu'r rhai sydd ag amrywiaeth yn nodwedd o'u harweinyddiaeth.

Lansiodd ITV gronfa ddatblygu wedi ei hanelu at y sector cynhyrchu annibynnol i gyflymu'r broses o chwilio am syniadau a chynnwys newydd. Roedd Sky ac eraill, gan gynnwys y BBC a Netflix, wedi cyfrannu at Gronfa Cymorth Brys Covid-19 ar gyfer Ffilm a Theledu, a neilltuodd Channel 4 gyllid datblygu ar gyfer 2020 gydag o leiaf 50% wedi ei flaenoriaethu ar gyfer cwmnïau cynhyrchu bach, cynhyrchwyr o'r gwledydd a'r rhanbarthau, a chynhyrchwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Cyflwynodd y Gronfa Cynnwys Sain rownd gyllido arbennig ar gyfer cynnwys a fyddai o gymorth i gynulleidfaoedd radio yn ystod yr argyfwng.

## Gall y BBC adeiladu ar ei ymateb i Covid-19 yn ei weithgareddau yn y dyfodol a chymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o gefnogi adferiad yr economi greadigol

Wrth edrych i'r dyfodol, mae cyfleoedd i'r BBC adeiladu ar gryfder ei ymateb i Covid-19. Mae enghreifftiau'n cynnwys y ffordd effeithiol roedd yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau gwahanol yn y Deyrnas Unedig ar draws y sectorau diwylliannol, addysg a chwaraeon[20], a chyda'r Llywodraeth, i helpu i lenwi'r bwlch pan gaewyd ysgolion. Dangosodd ymateb y BBC ei gryfder o ran darparu cynnwys addysg i'r Deyrnas Unedig a phwysigrwydd ei ddyletswydd i feithrin partneriaethau â sefydliadau addysgol a diwylliannol o dan y Siarter. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys *Culture in Quarantine* BBC Arts, a gafodd ei greu gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Lloegr ac eraill, a chynllun codi arian *The Big Night In*, a gafodd ei greu ar y cyd â Phlant mewn Angen y BBC a Comic Relief.

Yn ystod yr argyfwng, adeiladodd y BBC ar rai o'i gysylltiadau presennol yn y sector. Er enghraifft, cytunodd i rannu rhywfaint o'i gynnwys radio lleol gan gynnwys ei fwletinau newyddion gyda phartneriaid gorsafoedd radio'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol i helpu i gefnogi poblogaethau lleol a radio cymunedol.

[20] Er enghraifft, yr Uwch Gynghrair, Grŵp yr Amgueddfa Wyddoniaeth, y Royal Shakespeare Company a Puffin Books




**The Big Night In** (llun drwy garedigrwydd y BBC)

Gan gydnabod y potensial i'w newidiadau tymor byr effeithio ar chwaraewyr radio masnachol, aeth y BBC ati i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r sector ynghylch ei gynlluniau ar gyfer darlledu cynnwys chwaraeon o'r archif ar BBC Radio 5 Live sports extra cyn iddo fwrw ymlaen â hynny. Rydym yn annog y BBC i adeiladu ar yr arfer da hwn wrth iddo esblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae ymgysylltu cynnar fel hyn yn caniatáu iddo ystyried lle gellid teimlo effeithiau negyddol.

Yn ogystal â'r camau bras a amlinellwyd uchod i gefnogi'r sector cynhyrchu, roedd amrywiaeth o weithgareddau penodol i'r BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn ystod yr argyfwng. Er enghraifft, cynhaliodd BBC Northern Ireland gylch comisiynu cyflym ym mis Mawrth i gefnogi'r sector lleol. Dywedodd BBC Scotland y byddai'n cyllido'r gwaith o ddatblygu syniadau ar gyfer cynhyrchu yn y dyfodol ac ail-drwyddedu cynnwys o'r archif gan gynhyrchwyr yn yr Alban. Lansiodd BBC Cymru becyn o fesurau i gefnogi sector creadigol Cymru ddechrau mis Ebrill, gan gynnwys galwad am raglenni darlledu radio cyflym a chyllid ar gyfer prosiectau datblygu teledu i'w darlledu y flwyddyn nesaf. Fel rhan o'n gwaith ar *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* rydym hefyd wedi clywed adborth cadarnhaol gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y gwledydd a'r rhanbarthau ynghylch sut roedd y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud yn y Deyrnas Unedig yn sicrhau tegwch o ran mynediad at gomisiynwyr rhwydwaith yn Llundain.[21] Gweithredwyd gwahanol fathau o brosesau comisiynu, ac roedd y rhan fwyaf o ymgysylltu yn digwydd ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

Er y bydd ffactorau macro-economaidd ehangach a chynnydd mewn costau cynhyrchu sy'n gysylltiedig ag argyfwng Covid-19 yn effeithio ar y sector cynhyrchu cyfan, mae pryderon y byddai cwmnïau cynhyrchu llai, sydd wedi eu lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau'n benodol, yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r her y mae'r argyfwng yn ei chyflwyno os bydd ffocws comisiynu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dychwelyd i Lundain yn bennaf wrth i'r sector ddod ato ei hun.

[21] Dangosir rhaglenni rhwydwaith gan sianeli PSB ledled y Deyrnas Unedig, ond rhaglenni sydd ddim ond yn cael ei ddangos mewn ardaloedd penodol yng ngwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig yw rhaglenni heb fod yn rhai rhwydwaith

O ystyried sefyllfa gyllido unigryw'r BBC, mae mewn sefyllfa dda i chwarae rôl flaenllaw i gefnogi adferiad y sector o effeithiau Covid-19 dros y misoedd nesaf. Rydym yn croesawu sylwadau Cadeirydd y BBC a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n nodi bod cefnogi adferiad y diwydiannau creadigol ledled y Deyrnas Unedig yn flaenoriaeth bwysig i'r BBC dros y misoedd nesaf.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut gall y BBC gydweithio â phartneriaid i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd, cefnogi'r economi greadigol gan gynnwys partneriaid lleol, ac arloesi yn y ffordd mae'n gwneud rhaglenni. Mae'r BBC wedi dangos ei fod yn gallu ymateb yn gyflym i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd, ac rydym yn annog y BBC i ystyried sut gall ymgorffori'r profiad cadarnhaol hwn yn ei ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

## Effaith Covid-19 ar gydymffurfiad y BBC â'i Drwydded Weithredu

Rydym ni o'r farn ei bod hi'n bwysig rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar y BBC i ddelio â'r pandemig fel rydym ni'n ei wneud â darlledwyr eraill. At ei gilydd, mae gwasanaethau'r BBC wedi bod yn gadarn iawn o ran heriau Covid-19, ond mae effeithiau parhaus yr argyfwng yn debygol o olygu gostyngiadau mewn allbwn drwy gydol 2020/21. Mae hefyd yn bwysig bod y BBC yn parhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Felly byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC ynghylch sut mae'r pandemig wedi effeithio ar ei allu i gydymffurfio ag amodau ei Drwydded Weithredu ar gyfer cyfnod 2020/21. Os nad yw'r BBC yn gallu bodloni unrhyw amod oherwydd Covid-19, byddwn yn gofyn iddo roi rhesymau manwl am hynny a nodi beth mae wedi ei wneud yn lle hynny.



# Edrych i’r dyfodol

## Gallai tueddiadau cynulleidfaoedd a phwysau ariannol olygu y bydd angen i’r BBC wneud newidiadau i’w wasanaethau

Er bod y BBC wedi cofnodi cynulleidfaoedd mawr yn ystod y cyfyngiadau symud, gan gynnwys gwell cyrhaeddiad i bobl ifanc, mae’n annhebygol bod hyn yn dangos bod y duedd am i lawr yn cael ei gwrthdroi yn y tymor hir. Yn wir, mae ffigurau gwylio sianeli teledu sy’n cael eu darlledu gan y BBC wedi gostwng ers hynny, ac roedd wedi dychwelyd i lefelau cyn y cyfyngiadau symud erbyn mis Mehefin. Ers hynny, mae lefelau gwylio wedi codi eto oherwydd mwy o gyfyngiadau symud ar draws y Deyrnas Unedig a’r ail gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol yn ystod yr hydref. Mae Covid-19 wedi cyflymu’r duedd bod cynulleidfaoedd yn treulio mwy o’u hamser gwylio gyda gwasanaethau ar-lein a ffrydio. Yn 2019/20, mae nifer y bobl sy’n ymgysylltu â’r BBC wedi parhau i ddisgyn ar draws bron holl wasanaethau’r BBC, ac yn gyflymach ymysg pobl ifanc.

Nid ydym yn disgwyl i’r tueddiadau hyn newid; bydd angen i’r BBC aros yn berthnasol i gynulleidfaoedd drwy ddarparu digon o’r cynnwys maent ei eisiau, ac mewn ffyrdd maent am eu defnyddio, fel bod niferoedd mawr yn parhau i ddefnyddio’r BBC yn rheolaidd.

Ar ben hynny, mae pwysau ar gyllidebau’r BBC yn golygu y bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch lle gellir blaenoriaethu cyllid, ac felly lle gallai fod angen newid neu leihau gwasanaethau. Yn ôl Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC, yn 2019/20 cododd y BBC £3.52 biliwn o refeniw o ffi’r drwydded. Roedd hyn yn ostyngiad o bron i 5% ers y flwyddyn flaenorol oherwydd gostyngiad graddol yng nghyllid y Llywodraeth ar gyfer trwyddedau i bobl dros 75 oed a gostyngiad yn nifer y trwyddedau y telir amdanynt.[22] Mae’r BBC wedi sefydlu cynlluniau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd cylchol o £800 miliwn (mae £618 miliwn o’r arbedion hynny wedi cael eu cyflawni) ac mae wedi cyhoeddi gwerth £125iliwn yn ychwanegol o arbedion Covid-19. Mae’r BBC hefyd yn cynhyrchu tua £1.4 biliwn o incwm ffi’r drwydded, yn bennaf o’i weithgareddau masnachol yn BBC Studios. O ystyried yr heriau o ran cynhyrchu a marchnad hysbysebu anodd oherwydd Covid-19, bydd y refeniw hwn dan bwysau, sy’n debygol o olygu llai y bydd llai o fudd ar gael ar gyfer gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC ar gyfer ailfuddsoddi mewn cynnwys.[23]

Mae’r Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd wedi nodi ei flaenoriaethau: ymrwymiad o’r newydd i fod yn ddiduedd; canolbwyntio ar gynnwys unigryw sy’n cael effaith fawr; tynnu mwy o'r ddarpariaeth ar-

[22] Dywedwyd yn Natganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu’r BBC fod gostyngiad o 256,000 yn y nifer sy’n manteisio ar ffi’r drwydded eleni (37,000 oedd y gostyngiad y llynedd)

[23] Roedd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019/20 y BBC yn dangos bod gwasanaethau cyhoeddus y BBC wedi cael difidend llawer is (£3 miliwn, i lawr o £73 miliwn) er mwyn cadw arian yn y gangen fasnachol yn benodol i ddelio ag effeithiau Covid-19

lein; ac adeiladu incwm masnachol. Mae wedi cydnabod bod rhai cynulleidfaoedd yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, a bod cynyddu amrywiaeth y BBC yn *'gwbl hanfodol'*, gan gyfaddef ei fod wedi gwneud cynnydd araf o ran cynyddu amrywiaeth uwch arweinwyr y BBC.

## Rydym eisiau i'r BBC ddatblygu cynllun ac egluro'n gyhoeddus sut bydd yn cyflawni ei flaenoriaethau ac yn adrodd ar ei gynnydd

Y llynedd, dywedasom ei bod yn anodd i ni farnu cynnydd y BBC heb gynllun clir a thryloyw o'i flaenoriaethau a sut byddant yn cael eu cyflawni. Rydym yn dal o'r farn hon. Rydym yn cael ein calonogi gan y tryloywder a ddangoswyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol o ran nodi ei flaenoriaethau cychwynnol a lle mae'n credu bod angen i'r BBC newid. Rydym ni nawr yn meddwl bod angen i'r BBC esbonio'n fanylach sut bydd yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn, ac yn y cyd-destun hwnnw sut bydd yn cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Cynllun Blynyddol nesaf y BBC yw ei gyfle i nodi hyn, gan gynnwys: pa newidiadau gwasanaeth mae'n bwriadu eu gwneud er mwyn cyflawni'r strategaeth a sicrhau bod anghenion cynulleidfaoedd yn cael eu diwallu; pa dargedau neu amcanion y bydd yn eu dwyn i gyfrif; a sut bydd yn mesur ac yn adrodd ar effaith ei wasanaethau ar gynulleidfaoedd a'i gynnydd o ran targedau.

Bydd Cynllun Blynyddol y BBC hefyd yn gyfle i'r BBC egluro sut bydd ei wasanaethau gwahanol (e.e. BBC iPlayer a BBC Sounds, sianeli teledu a gorsafoedd radio) yn cydweithio i gyflawni'r strategaeth a'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus.

Mae penderfyniadau ynghylch rhaglenni penodol a sut mae'r BBC yn gwario ei gyllid yn briodol yn nwylo Bwrdd a rheolwyr y BBC. Fodd bynnag, fel y gwnaethom egluro yn y Trosolwg, mae angen i gynulleidfaoedd ddeall beth sy'n newid a sut bydd eu hanghenion yn parhau i gael eu diwallu, o ystyried y rôl bwysig mae'r BBC yn ei chwarae ym mywydau llawer o bobl. Er enghraifft, nid ydym o'r farn bod y BBC wedi egluro'n ddigonol i gynulleidfaoedd ei benderfyniadau ynghylch y newidiadau mae wedi eu cyhoeddi'n ddiweddar am newyddion a materion cyfoes ar gyfer rhanbarthau Lloegr. Yn yr achos hwn, rydym wedi gofyn i'r BBC i'r BBC egluro'n gliriach i gynulleidfaoedd beth fydd effaith ei newidiadau a sut bydd yn sicrhau bod y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan nad yw'r newid yn gofyn am addasiad i'r Drwydded Weithredu nac asesiad cystadleuaeth, ac felly nad yw'n destun proses reoleiddio gyhoeddus.

Mae'r Cynllun Blynyddol hefyd yn caniatáu i'r BBC gasglu tystiolaeth gan randdeiliaid ynghylch a allai ei gynlluniau effeithio ar gystadleuaeth. Os nad yw'r Cynllun Blynyddol yn cynnwys digon o fanylion am gynlluniau'r BBC, ni fydd rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau ystyrlon ar eu heffaith bosibl ac felly ni fydd y BBC mewn sefyllfa i gyflawni ei ddyletswydd i ystyried effeithiau ei weithgareddau ar gystadleuaeth. Rydym ni'n dal i glywed gan nifer o randdeiliaid nad ydynt wedi cael gwybod am newidiadau mae'r BBC wedi eu cynllunio, a allai effeithio arnynt, tan yn hwyr yn y broses o'u datblygu, a'u bod nhw weithiau yn gorfod dibynnu ar wybodaeth mewn areithiau neu ddatganiadau i'r wasg. Gan mai dim ond unwaith y flwyddyn mae'r BBC yn cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol, bydd angen iddo ddod o hyd i ffyrdd eraill o ymgysylltu â'r diwydiant pan mae newidiadau'n cael eu cynnig yn ystod y flwyddyn nad oeddent wedi eu cynnwys yn y Cynllun. Rydym wedi codi'r mater hwn yn ein hadroddiadau blynyddol blaenorol ac rydym o'r farn bod gan y BBC fwy i'w wneud o hyd yn y maes hwn.

Mae rhanddeiliaid y BBC hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch lefel y tryloywder o ran buddsoddi, strategaeth a pherfformiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Maent wedi dweud wrthym eu bod yn poeni am lefel y manylder yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC ar ei berfformiad a'i strategaeth ym mhob gwlad. Rydym yn annog y BBC i fod yn dryloyw wrth adrodd ar ei weithgareddau a'i fuddsoddiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac yn benodol wrth lunio ei strategaeth ar eu cyfer yn y dyfodol, er budd y sector creadigol lleol a'r cynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu.

## Bydd mesur perfformiad BBC iPlayer a BBC Sounds yn dod yn fwyfwy pwysig

Wrth i wasanaethau'r BBC esblygu o ddarlledu teledu a radio yn bennaf i ganolbwyntio mwy ar wasanaethau ar-alw fel BBC iPlayer a BBC Sounds, bydd mwy o rôl i'r gwasanaethau hyn gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus i bob cynulleidfa. Gan hynny, mae'n hanfodol bod y BBC yn gallu mesur eu cyfraniad ac adrodd ar hynny'n dryloyw. Bydd hyn hefyd yn helpu'r BBC i ddangos sut mae'n cyflawni ei flaenoriaeth i gael mwy o werth am arian o'i arlwy ar-lein. Yn ystod y cyfnod pontio hwn, bydd angen i'r BBC hefyd egluro sut mae ei wasanaethau darlledu ac ar-alw yn gweithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn golygu y bydd angen rhoi disgrifiad mwy cyfannol a chynhwysfawr o sut mae'r BBC yn cyflawni pob Diben Cyhoeddus. Rydym yn croesawu rhagor o drafod ac ymgysylltu â'r BBC ynghylch hyn, gan gydnabod y gallai olygu buddsoddiad gan y BBC a methodolegau ymchwil neu offer dadansoddi newydd.

Mae gennym bryderon nad yw'r BBC ar hyn o bryd yn adrodd yn dryloyw ar ba mor dda mae BBC Sounds yn cyflawni i gynulleidfaoedd. Roedd Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC yn cyfeirio at nifer y cyfrifon wedi mewngofnodi (3.6 miliwn), gan nodi bod hyn yn uwch na'r targed ar gyfer pob cynulleidfa a'i fod wedi cyrraedd ei darged ar gyfer cynulleidfaoedd iau. Fodd bynnag, gan nad oedd yn nodi beth oedd y targedau, mae'n anodd asesu pa mor dda mae BBC Sounds yn cyflawni o'i gymharu â'r hyn roedd y BBC wedi ei gynllunio. Nodwn fod y BBC yn cynnwys targed o 3.5 – 4 miliwn o gyfrifon wedi mewngofnodi yn wythnosol yng Nghynllun Blynyddol 2020/21 y BBC. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch adroddiadau cyhoeddus parhaus y BBC ar berfformiad BBC Sounds. Mae'r BBC wedi rhyddhau diweddariad chwarterol ar ei wefan ac, er bod rhai mesurau cyson, nid yw'r diffiniadau'n glir, fel beth mae 'chwarae' yn ei olygu a dim ond rhai podlediadau neu orsafoedd radio sy'n cael eu hamlygu bob chwarter.

Wrth edrych tua'r dyfodol, ac am y rhesymau a nodir uchod, bydd angen i ddull y BBC o fesur perfformiad BBC Sounds wella: dylai dull mwy systematig o fesur ei berfformiad fod ar waith. Mae'n bwysig bod y BBC yn esbonio sut mae pobl yn defnyddio BBC Sounds (e.e. byw o'i gymharu ag ar-alw, gwybodaeth am genre) a, lle bo'n bosibl, mwy o fanylion am ddemograffeg defnyddwyr. Er mwyn ein helpu ni i ystyried BBC Sounds ein hunain, rydym yn comisiynu arolwg i ddeall sut mae BBC Sounds yn ffitio yn y dirwedd sain ehangach, gan gynnwys ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd, defnydd ac agweddau. Byddwn yn defnyddio hyn fel rhan o'n hasesiad perfformiad o BBC Sounds yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Credwn y dylai'r BBC fod yn fwy tryloyw ynghylch yr hyn mae eisoes yn ei fesur ar BBC iPlayer, a bod yn gliriach wrth adrodd ar ei berfformiad. Wrth i'r BBC roi mwy o bwyslais ar gyfraniad BBC iPlayer at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, bydd hyn yn dod yn gynyddol bwysig. Er enghraifft, mae adroddiadau cyfyngedig yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC ar ba mor dda mae BBC Three yn

cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd. Eleni, adroddodd y BBC ar gyfartaledd ar y munudau wythnosol a oedd yn cael eu gwylio ymysg pobl 16-34 oed yn hytrach na ffigur cyrhaeddiad wythnosol, sy'n fesur mwy ystyrlon o berfformiad, oherwydd byddai'n dangos faint o bobl ifanc oedd yn gwylio cynnwys BBC Three.

## Ein meysydd ffocws sydd ar y gweill

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym ni'n gweld ein cam nesaf o waith fel un sy'n canolbwyntio ar sut mae'r BBC yn cyflawni i bob cynulleidfa, gan newid i ganolbwyntio mwy ar ei wasanaethau ar-lein, fel y trafodir uchod. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn disgwyl gweithio gyda'r BBC i ddatblygu fframwaith perfformiad cadarn a chynhwysfawr. Ymhen amser, po fwyaf mae'r BBC yn dangos ei fod yn gosod targedau ac amcanion cadarn ar ei gyfer ei hun, a mesur effaith ei berfformiad, y lleiaf yw'r angen i ni fel y rheoleiddiwr bennu gofynion rhagnodol yn Nhrwydded Weithredu'r BBC. Bydd Bwrdd y BBC yn chwarae rhan allweddol yn hyn. O dan unrhyw fodel, byddwn yn cadw'r gallu i ymyrryd lle mae gennym bryderon. Rydym yn awr yn dechrau ar y gwaith hwn ar Drwydded Weithredu'r Dyfodol fel yr amlinellir isod.

Yn ogystal, rydym yn disgwyl y bydd angen i'r BBC (yn yr un modd â darlledwyr eraill) wneud newidiadau i'w wasanaethau, yng ngoleuni amodau'r farchnad sy'n newid yn gyflym. Mae'r BBC yn wynebu cystadleuaeth gynyddol gan gystadleuwyr byd-eang, ond gallai newidiadau i'w wasanaethau effeithio ar gystadleuwyr lleol hefyd. Rydym ni o'r farn y gallai'r BBC reoli hyn drwy wella ei dryloywder a rhoi rhagor o eglurder ynghylch sut byddai'r newidiadau arfaethedig yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau cyffredinol. Byddai hyn yn caniatáu i randdeiliaid dynnu sylw at bryderon cyn i'r BBC wneud newidiadau mewn gwirionedd.

Byddwn yn parhau i fonitro newidiadau o'r fath a byddwn yn camu i mewn os bydd angen. Byddwn yn dilyn y gweithdrefnau rydym wedi eu cyhoeddi os bydd y BBC yn gofyn am newid y Drwydded Weithredu neu'n cynnig newid sylweddol i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus neu fasnachol.

Bydd ein meysydd gwaith eraill yn canolbwyntio ar y canlynol:

### BBC Sounds

O ystyried y newidiadau graddol mae'r BBC wedi eu gwneud i BBC Sounds ers ei lansio yn 2018, rydym o'r farn mai dyma'r amser priodol i bwyso a mesur ei sefyllfa yn y farchnad. Ym mis Hydref, fe wnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth i'n helpu ni i asesu a oes materion y mae angen rhoi sylw iddynt, drwy gamau rheoleiddio neu ddulliau eraill.

### Adolygiad o BBC Studios

Mae gweithgareddau masnachol y BBC yn cynhyrchu elw, y gellir ei ail-fuddsoddi yn rhaglenni a gwasanaethau'r BBC ac sy'n ategu incwm o ffi'r drwydded. Bydd yn bwysig i'r gweithgareddau hyn addasu i'r amgylchedd sy'n newid ac ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi. Rydym yn cefnogi uchelgeisiau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i gynyddu refeniw masnachol, cyn belled â bod hyn yn cael ei wneud yn deg.

O ystyried y newidiadau a'r datblygiadau sylweddol yn y farchnad yn BBC Studios dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi lansio adolygiad o'r rhyngweithio rhwng BBC Studios (sy'n ennill

y rhan fwyaf o refeniw masnachol y BBC) a gweithgareddau gwasanaethau cyhoeddus y BBC. Rydym ni'n credu ei bod hi'n bwysig i ni ddeall yn well sut mae wedi rhoi ein rheolau ar waith i reoleiddio'r ffin â rhan o'r BBC sy'n cael ei chyllido gan ffi'r drwydded. Rydym yn disgwyl y byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau o'r adolygiad hwn yng ngwanwyn 2021. Trafodir hyn ymhellach yn ein hadran ar yr effaith ar gystadleuaeth.

## Adolygiad cyfnodol

Mae'n ofynnol i ni gynnal o leiaf ddau adolygiad cyfnodol yn ystod cyfnod y siarter, ac mae'n rhaid cyhoeddi'r cyntaf mewn da bryd i lywio'r adolygiad canol tymor y Llywodraeth. Nodir yn y Siarter na ddylid cynnal yr adolygiad canol tymor hwn cyn 2022 a bod yn rhaid iddo gael ei gwblhau erbyn 2024[24]. Felly, ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu cwblhau ein hadolygiad cyfnodol erbyn diwedd 2021. Rhaid i ni asesu yn ein hadolygiad cyfnodol i ba raddau mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo pob un o'r Dibenion Cyhoeddus, a bydd yr adolygiad yn adeiladu ar y dadansoddiad a'r dystiolaeth a gyflwynir yn ein hadroddiadau blynyddol ar berfformiad y BBC, yn ogystal ag ar ganfyddiadau ein hadolygiadau thematig, fel yr adolygiad ar gynrychiolaeth a phortreadu. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried ein dull gweithredu ar gyfer yr adolygiad, ond rydym yn disgwyl iddo ystyried themâu a materion allweddol ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn y dyfodol, gan gynnwys, er enghraifft, sut mae'r BBC yn dangos ei fod yn darparu gwasanaethau mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi.

## Trwydded Weithredu yn y Dyfodol

Mewn byd lle mae cynulleidfaoedd yn symud fwyfwy at gynnwys ar-lein, ac mae'r BBC yn parhau i ddatblygu ei ddarpariaeth yn y maes hwn, mae angen i'n gwaith rheoleiddio esblygu hefyd. Ar hyn o bryd, mae'r Drwydded Weithredu a'r gofynion perfformiad yn canolbwyntio ar wasanaethau teledu a radio darlledu unigol y BBC. Yn y flwyddyn a ddaw, byddwn yn gwneud gwaith i lywio sut mae esblygu'r Drwydded fel ei bod yn adlewyrchu darpariaeth ddigidol yn awr ac yn y dyfodol yn well, gan ystyried hefyd a fyddai'n fuddiol i gynulleidfaoedd pe bai'r BBC yn cael mwy o hyblygrwydd i ddewis ymhle a sut mae'n cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus. Wrth iddo geisio cyrraedd pob cynulleidfa, byddwn yn ceisio cefnogi'r BBC i roi cynnig ar wahanol bethau, ac mae'n bosibl na fydd rhai ohonynt yn llwyddo. Byddwn hefyd yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion ein Cynllun *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* a beth mae hyn yn ei olygu i'r ffordd mae'r BBC yn darparu ar gyfer ei wrandawyr a'i wylwyr. Byddai unrhyw newid i'r Drwydded Weithredu y gallem ei gynnig o ganlyniad yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

[24] Erthygl 57(3) o Siarter y BBC



# Asesu perfformiad

## Cyflwyniad

Yn ogystal ag amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi yn Nhrwydded Weithredu'r BBC (gweler yr adran ar Trosolwg o'n dyletswyddau), rydym yn defnyddio mesurau perfformiad i roi darlun ehangach o ba mor dda mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, y tu hwnt i'r amodau rheoleiddio hyn.

Gan ddefnyddio'r fframwaith mesur a gyhoeddwyd gennym yn 2017[25], rydym yn asesu perfformiad y BBC drwy ystyried:

- **Argaeledd**: natur, math, swm ac amrywiaeth y cynnwys sydd ar gael ar draws allbwn y BBC, yn ogystal â'r gwariant ar y cynnwys hwn.
- **Defnydd**: i ba raddau mae cynulleidfaoedd yn gwylio, yn gwrando neu'n darllen cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan y BBC.
- **Effaith**: beth yw barn cynulleidfaoedd am wasanaethau ac allbwn y BBC.
- **Ffactorau cyd-destunol**: ffactorau ychwanegol fel deinameg ehangach y farchnad.

Eleni, mae gennym hefyd Adroddiad Perfformiad rhyngweithiol, sy'n darparu data helaeth ar gyfer pob un o'r rhain, ar gyfer pob llwyfan ac ar draws pob un o'r Dibenion Cyhoeddus. Gellir tywys y darllenydd gam wrth gam drwy bob un o'r mesurau neu ddewis y Pwrpas neu'r llwyfan sydd o ddiddordeb penodol. Mae'r adroddiad rhyngweithiol hefyd yn cynnwys manylion y ffynonellau y cyfeiriwn atynt yn yr asesiad.



**RuPaul's Drag Race UK** (llun drwy garedigrwydd y BBC)

[25] Mae hyn yn cynnwys ein hegwyddorion mesur craidd sef hyblygrwydd, cymesuredd, ymarferoldeb, tryloywder, cadernid a chymharedd

## Dibenion Cyhoeddus y BBC

Mae'r Siarter yn nodi Dibenion Cyhoeddus y BBC:

Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.

Diben Cyhoeddus 2: Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed.

Diben Cyhoeddus 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, mwyaf unigryw ac o'r ansawdd gorau.

Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig.

Mae adran ar wahân yn yr adroddiad hwn ar gyfer ein hasesiad o sut mae'r BBC yn cyflawni pob Diben Cyhoeddus.

*Nodyn: Mae pumed Diben Cyhoeddus y BBC, sef adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd y tu hwnt i rôl reoleiddiol Ofcom. Mater i'r BBC yw pennu'r drwydded ar gyfer y BBC World Service (Cymal 34 o'r Cytundeb).*

# Perfformiad cyffredinol y BBC

### Mae cyrhaeddiad y BBC yn dal yn uchel, ond mae'n gostwng wrth i gynulleidfaoedd gael eu denu gan ddarparwyr ar-lein


Mae'r twf parhaus mewn mynediad at ddyfeisiau sydd wedi eu cysylltu a'r defnydd ohonynt wedi galluogi cynulleidfaoedd i gael ddewis o blith amrywiaeth ehangach o gynnwys, gan fwy o ddarparwyr, lle bynnag a phryd bynnag y mynnant. Mae hyn yn newyddion da i gynulleidfaoedd sydd â mynediad at gyfoeth o gynnwys o ansawdd uchel gan amrywiaeth o gyflenwyr. Mae gwasanaethau SVoD, gan gynnwys Netflix, yn ogystal â llwyfannau rhannu fideos (e.e. YouTube) a gwasanaethau ffrydio sain (e.e. Spotify), yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd oddi wrth y BBC, yn ogystal ag oddi wrth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Ar yr un pryd, er bod gwasanaethau radio a sain y BBC yn dal i golli gwrandawyr, mae gwasanaethau radio masnachol cenedlaethol ac ar-lein arbenigol yn gweld twf.

Er gwaethaf hyn, mae cyrhaeddiad cyffredinol y BBC yn dal yn uchel iawn, gyda bron i naw oedolyn o bob deg yn defnyddio ei gynnwys bob wythnos. Mae uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys lefelau gwylio uchel i gemau Cwpan pêl-droed y Byd y Menywod, y gynulleidfa fwyaf erioed ar gyfer rhaglen Glastonbury (prif set Kylie Minogue), a rhifyn arbennig *Gavin and Stacey* ar gyfer y Nadolig, sef y sioe wedi ei sgriptio a ddenodd y nifer mwyaf o wylwyr ers degawd.

Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'r BBC wedi parhau i ddisgyn ar draws bron holl wasanaethau'r BBC, ac yn gyflymach ymysg pobl ifanc. Er enghraifft, mae cynulleidfa gyffredinol BBC One wedi gostwng 5.4 pwynt canran er 2017, ac mae ei chyrhaeddiad i bobl ifanc 16-24 oed wedi gostwng 9.4 pwynt canran yn yr un cyfnod. Gostyngodd yr amser dyddiol cyfartalog a dreulir gyda'r BBC ddeng munud arall yn 2019 o'i gymharu â 2018, ac 19 munud o'i gymharu â 2017 – gostyngiad o

12% dros y tair blynedd diwethaf. Yn achos cynulleidfaoedd iau, mae'r amser a dreulir gyda'r BBC ar gyfartaledd bob wythnos bellach yn llai nag awr y dydd (i lawr 22% er 2017).

**Ffigur 1: Amcangyfrif o gyfanswm munudau'r BBC bob dydd: cymharu 2017 a 2019**




*Ffynhonnell: Modelu Ofcom gan BARB, data BBC iPlayer, RAJAR, Comscore. Noder, mae'r ffigur ar gyfer 2017 wedi cael ei ddiweddaru o'i gymharu â'r data a gyhoeddwyd y llynedd gan ein bod wedi dileu gwylio rhaglenni'r BBC ar SVoD.*[26]

## Mae darparu digon o gynnwys perthnasol i bawb, fel ei fod yn parhau i fod yn rhan greiddiol o wylio a gwrando cynulleidfaoedd, yn her allweddol i'r BBC

Nid ydym yn disgwyl i'r tueddiadau hyn newid, ond bydd angen i'r BBC aros yn berthnasol i gynulleidfaoedd drwy ddarparu digon o'r cynnwys maent ei eisiau, ac mewn ffyrdd maent am eu defnyddio, fel bod niferoedd mawr yn parhau i ymgysylltu â'r BBC yn rheolaidd. Her y BBC yw parhau i ddarparu gwerth i gynulleidfaoedd sydd ar hyn o bryd yn cael gwasanaeth da ac yn fodlon, tra ar yr un pryd yn cadw ei gysylltiadau â'r rhai sy'n ei ddefnyddio'n llai aml ac apelio mwy i'r rhai sydd â chanfyddiadau llai ffafriol. Bydd hyn yn ei helpu i gadw ei apêl yn wyneb rhagor o ddewis.

Er bod y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig yn gwerthfawrogi'r BBC, mae grwpiau sy'n gyson yn cael eu gwasanaethu'n llai boddhaol, gyda chyrhaeddiad cyffredinol is ac argraffiadau cyffredinol is o'r BBC. Mae Ffigur 2 yn dangos hyn ac mae hefyd yn dangos sut mae argraffiadau o'r BBC a chyrhaeddiad wedi newid ar gyfer rhai grwpiau dros y tair blynedd diwethaf (mae'r saethau'n dangos symudiad y grŵp hwnnw rhwng 2017/18 a 2019/20). Mae ein hymchwil hefyd yn dangos y canlynol:

- Mae'r saethau sy'n symud o'r dde i'r chwith yn dangos bod cyrhaeddiad y BBC yn gostwng ac yn gyflymach i rai, gan gynnwys cynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig, y rhai dan 35 oed, cynulleidfaoedd yn yr Alban a'r rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is.[27] Er ein bod


[26] Yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, adroddodd y BBC gyfartaledd wythnosol o 7 awr 30 munud ar gyfer pobl 16-34 oed, cyfwerth â 64 munud bob dydd – gwahaniaeth o 6 munud o'i gymharu â'r ffigur rydym wedi'i gyhoedd (58 munud). Mae hyn o ganlyniad i rai gwahaniaethau mewn ffynonellau data.

[27] Penderfynir ar grŵp economaidd-gymdeithasol yn sgil nifer o ffactorau gan gynnwys incwm a galwedigaeth. Yn gyffredinol, mae'r grŵp uchaf, sef A a B, yn fwy tebygol o fod yn gefnog, mae'r grwpiau C1 ac C2 yn y canol, ac mae'r grwpiau isaf, sef D ac E, yn llai tebygol o fod yn gefnog.

ni wedi gweld rhai gwelliannau mewn argraffiadau o'r BBC ymysg rhai cynulleidfaoedd (a ddangosir gan y saethau'n symud am i fyny), mae gan y grwpiau a ddangosir yng nghornel chwith isaf y siart ganfyddiadau is yn gyson ac mae'r BBC yn cyrraedd llai ohonynt o'i gymharu â'r cyfartaledd.

- Rydym ni'n gwybod bod cynulleidfaoedd iau yn tueddu i chwilio am raglenni penodol sy'n apelio atynt, ac yna'n aml yn gwerthfawrogi'n fawr yr hyn maent yn troi ato. Canfu ymchwil ansoddol gan Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr Ofcom fod cynulleidfaoedd iau, mewn perthynas â BBC iPlayer, yn tueddu i'w ddefnyddio pan fyddant yn gwybod beth maent eisiau ei wylio, yn hytrach nag fel cyrchfan i bori am gynnwys newydd. Fodd bynnag, mae symudiad y grwpiau hyn ar y siart yn dangos ei bod yn anodd i'r BBC ddenu a chadw cynulleidfaoedd iau er gwaethaf eu canfyddiadau cymharol uchel.
- Mae pobl hŷn (55 oed a hŷn) a'r rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch wedi defnyddio mwy o gynnwys y BBC yn draddodiadol ac wedi bod yn fwy bodlon na chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad yn gostwng ymysg y grwpiau ffyddlon hyn ac mae cynulleidfaoedd hŷn yn benodol yn dechrau dangos arwyddion o ostyngiad mewn bodlonrwydd. Serch hynny, maent yn dal i gael eu gwasanaethu'n well na grwpiau eraill, fel sy'n cael ei ddangos gan eu safle yng nghornel uchaf dde'r siart.

**Ffigur 2: Argraff gyffredinol o gyrhaeddiad wythnosol y BBC o'i gymharu â chyrhaeddiad wythnosol cyffredinol, yn ôl grwpiau penodol o gynulleidfaoedd: cymharu 2017/18 a 2019/20**




*Ffynhonnell: TouchPoints (amcangyfrif o ddefnydd wythnosol o'r BBC); Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC (argraff gyffredinol) Noder: Mae'r prif linellau ar y siart yn dangos cyfartaleddau'r boblogaeth ar gyfer yr argraff gyffredinol (64% yn rhoi sgôr o 7 neu ragor allan o 10 i'r BBC) a chyrhaeddiad wythnosol cyffredinol (87%). Dangosir data 2019/20 mewn dotiau gwyrdd a 2017/18 mewn llwyd gyda saethau'n dangos cyfeiriad y daith. Mae data Tracio Perfformiad yn seiliedig ar oedolion 16 oed a hŷn yn y Deyrnas Unedig ac mae TouchPoints yn seiliedig ar oedolion 15 oed a hŷn ym Mhrydain Fawr.*

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd wedi cydnabod nad yw'r BBC yn darparu ar gyfer pob cynulleidfa yn gyfartal, gyda rhai pobl yn cael gwerth eithriadol o ffi'r drwydded, tra bo eraill yn cael eu gwasanaethu'n wael. Rydym yn croesawu'r llinyn cyffredin sy'n mynd drwy ei gyhoeddiadau cychwynnol ynghylch sicrhau bod y BBC yn dal yn berthnasol i bawb er mwyn ei helpu i gyrraedd pob cynulleidfa.


## Ymwneud y BBC â phobl ifanc

Y llynedd, fe ddywedon ni roedd risg i gynaliadwyedd y BBC yn y dyfodol pe na bai'n gwneud mwy i ddenu cynulleidfaoedd ifanc at ei gynnwys a'i wasanaethau. Er bod y duedd o ostyngiad yn y defnydd ymysg cynulleidfaoedd iau yn parhau, mae'r BBC yn cymryd camau cadarnhaol i gwrdd â'r her hon. Fodd bynnag, gall gymryd peth amser i'r BBC ddeall pa mor effeithiol fu ei weithredoedd. Mae cyrraedd pobl iau yn rhan bwysig o her y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd yr adran hon yn edrych ar rai o'r materion a'r mentrau sy'n torri ar draws y Dibenion Cyhoeddus. Bydd penodau unigol ar Ddibenion Cyhoeddus hefyd yn cynnwys canfyddiadau sy'n berthnasol ac yn benodol i'r demograffig hwn.

### Ymysg pobl ifanc, mae cyrhaeddiad ac amser a dreulir gyda'r BBC yn parhau i ostwng

Fel y nodir uchod, mae'r amser a dreulir gyda'r BBC gan bobl 16-34 oed bellach yn llai nag awr y dydd, i lawr 22% er 2017. Mae cyfran y bobl ifanc mae'r BBC yn eu cyrraedd, ar draws ei lwyfannau, hefyd wedi gostwng dros y cyfnod hwnnw, o 86% i 79% bob wythnos.[28] Roedd cyrhaeddiad sianeli teledu'r BBC a ddarlledir yn 2019 yn dal i ostwng ar draws pob grŵp oedran, ond mae wedi gostwng fwyaf ymysg pobl ifanc 16-19 oed, fel sy'n cael ei ddangos yn y siart isod. Mae'r gostyngiad mwyaf yn yr amser a dreulir yn gwylio'r sianeli darlledu ymysg pobl ifanc 16-19 oed hefyd.

**Ffigur 3: % cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog yn ôl oedran, holl sianeli darlledu'r BBC ar y set deledu**




*Ffynhonnell: BARB. Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol.*

Fel sy'n cael ei amlinellu uchod, mae cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael yn awr ar amrywiaeth ehangach o gynnwys o ansawdd uchel, sy'n anochel yn denu cynulleidfaoedd i ffwrdd o'r BBC – mae

[28] TouchPoints

hyn yn cael ei weld fwyfwy ar draws pob grŵp oedran. Mae gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau, gyda hanner yr holl amser a dreulir yn gwylio'r gwasanaethau hyn yn digwydd ymysg pobl ifanc 15-34 oed.[29]

Mae gwasanaethau radio masnachol cenedlaethol wedi cynyddu eu gwrandawyr rhwng 15 a 24 oed 10% dros y tair blynedd diwethaf, ac mae gwasanaethau radio rhwydwaith y BBC wedi colli 12% o'u gwrandawyr 15-24 oed. Mae llai na chwarter yr amser mae pobl ifanc 15-24 oed yn ei dreulio yn gwrando ar radio ar-lein yn digwydd gyda'r BBC, o'i gymharu â 43% ar gyfer gorsafoedd masnachol cenedlaethol.[30] Mae gwasanaethau ffrydio sain fel Spotify yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd iau, gyda 60% o'r amser yn cael ei dreulio'n gwrando ar wasanaethau ffrydio cerddoriaeth ar-lein wedi ei briodoli i bobl ifanc 15-34 oed.[31]

### Y llynedd, fe wnaethom herio'r BBC i nodi ei strategaeth i ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau a darparu ar eu cyfer

Yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2020/21, mae'r BBC wedi nodi'r camau y bydd yn eu cymryd dros y ddwy flynedd nesaf gyda'r nod o ymgysylltu mwy â phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu gwariant ar gomisiynu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd iau, ehangu BBC iPlayer, buddsoddi yn BBC Sounds ac olrhain perfformiad cyffredinol ymysg y rhai dan 35 oed. Dywedodd hefyd ei fod yn edrych ar y dewisiadau sydd ar gael i BBC Three wrth ddatblygu ei broffil ar-lein, gan ddyblu ei gyllideb ac ehangu'r amrywiaeth o gynnwys mae'n ei gomisiynu.[32]

Yn ei Gynllun Blynyddol mae hefyd yn nodi bod BBC Sounds wrth galon ei strategaeth sain. Cafodd ei lansio fel rhan o ymrwymiad y BBC i ailddyfeisio'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd, ond nid yw wedi dangos ei effaith ar wrando ymysg pobl ifanc eto. Yn ôl data'r BBC, o'r cyfrifon sydd wedi darparu eu manylion oedran i'r BBC, mae 29% o dan 35 oed (er bod y BBC wedi nodi bod BBC Sounds wedi cyrraedd ei darged ar gyfer cynulleidfaoedd iau, nid yw wedi cyhoeddi'r targedau hynny). Mae ein Traciwr Perfformiad y BBC yn dangos bod 7% o bobl ifanc 16-34 oed yn dweud eu bod nhw'n gwrando ar BBC Sounds. Mewn cyferbyniad, mae Spotify yn cyrraedd dros hanner y bobl ifanc 15-34 oed, gan dynnu sylw pellach at yr her mae'r BBC yn ei hwynebu yn y farchnad hon.[33] Mae'r BBC wedi datgan y bydd yn rhoi radio byw wrth galon BBC Sounds, a bydd yn parhau i esblygu ei bortffolio radio, gan ddysgu gwersi o'r modd mae wedi gweithredu yn ystod argyfwng Covid-19 a deall pa gynnwys ar-lein sy'n boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd ifanc. Mae hefyd yn bwriadu esblygu profiad y defnyddiwr ar BBC Sounds i'w wneud yn haws ei ddefnyddio ac fwy perthnasol o safbwynt personol.

Ym mis Hydref 2020, lansiodd y BBC ei ffrwd cerddoriaeth Ddawns 24 awr Radio 1 ar BBC Sounds, sydd wedi ei dylunio i roi mwy o hyblygrwydd i gynulleidfaoedd ifanc wrando ar gynnwys y genre dawns.

[29] TouchPoints
[30] RAJAR
[31] TouchPoints
[32] Dywedodd hefyd y byddai'n edrych ar adfer BBC Three fel sianel deledu sy'n cael ei darlledu, ond nid yw'n glir a yw hyn yn dal yn flaenoriaeth i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd
[33] TouchPoints

Mae cynlluniau eraill yn cynnwys cynyddu amlygrwydd cynnwys BBC Three ar BBC iPlayer a defnyddio modelau amserlennu gwahanol ar BBC iPlayer, fel rhyddhau setiau bocs cyn, neu ochr yn ochr â darlledu'r deunydd ar ei sianeli teledu a gosod amserlenni ar gyfer penodau wythnosol, fel y digwyddodd yn achos *RuPaul's Drag Race UK*. Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn adolygu ei ddull o gyflwyno BBC iPlayer i bobl yn gyson; er enghraifft, drwy ddefnyddio YouTube fel amgylchedd profi i'w helpu i ddeall pa gynnwys allai fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd penodol.

Prin yw'r data sydd gennym ar berfformiad BBC Three. Fel y nodwyd gennym yn yr adran ar Edrych i'r dyfodol, roedd y BBC, yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol eleni, yn adrodd ar funudau gwylio wythnosol cyfartalog pobl 16-34 oed ar BBC Three, yn hytrach na ffigur cyrhaeddiad wythnosol, a fyddai'n dangos faint o bobl ifanc mae'r gwasanaeth yn eu cyrraedd. Gwyddom o ymchwil trydydd parti fod 5% o bobl ifanc 15-34 oed wedi ei wylio bob wythnos yn chwarter cyntaf 2020, i lawr o 7% yn 2019.[34] Rydym ni hefyd yn gwybod o ddata a rannwyd gan y BBC bod fideos wedi cael eu gwylio 7.2 miliwn o weithiau yn y Deyrnas Unedig ar gyfartaledd ar sianel YouTube BBC Three bob mis yn 2019/20, gostyngiad o tua miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn annog y BBC i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol am berfformiad cynnwys BBC Three, gan gynnwys am BBC iPlayer.

Mae'r defnydd o BBC iPlayer wedi cynyddu ymysg pobl ifanc ac, o ystyried bod gwylio teledu ymysg y demograffig hwn yn gostwng, mae'n cyfrif am gyfran gynyddol o'u lefelau gwylio teledu yn y BBC.[35] Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad Netflix yn dal yn llawer uwch ymysg pobl ifanc, sy'n cael ei ddefnyddio gan 66% o bobl ifanc 15-24 oed bob wythnos, o'i gymharu â BBC iPlayer yn cyrraedd 28%.[36]

Mae'r BBC yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ddenu cynulleidfaoedd ato - er enghraifft, gyda deunydd y tu ôl i'r llenni o *Strictly Come Dancing* neu'r grŵp Facebook *Line of Duty*, a thrwy ddefnyddio mentrau fel podlediadau i gyd-fynd â rhaglenni, fel *Obssed With....* sydd wedi cynnwys rhaglenni fel *Noughts + Crosses*, *Killing Eve* a *Dracula*. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod her o hyd o ran cael pobl ifanc i mewn i amgylchedd y BBC.

Fel y nodir yn ein hasesiad o Diben Cyhoeddus 1, mae'r BBC wedi cymryd camau i fynd i'r afael ag ymgysylltiad is ymysg pobl ifanc 16-24 oed drwy ailgynllunio ei ap newyddion a chynyddu ei ffocws ar bersonoli.

Nodwn fod mentrau a strategaethau ar gyfer denu cynulleidfaoedd iau wedi cael eu cefnogi gan Bwyllgor Cenhedlaeth Nesaf y BBC, sy'n cynnwys 15 aelod iau o staff. Pwrpas y pwyllgor yw darparu cyngor a chynrychioli lleisiau pobl iau ar lefel weithredol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, roedd y Pwyllgor yn annog ailddyfeisio BBC iPlayer ac yn cefnogi'r ffocws ar gynulleidfaoedd iau ym maes newyddion a'r cyfryngau cymdeithasol.

[34] TouchPoints
[35] Modelu Ofcom o ddata BARB a BBC iPlayer
[36] TouchPoints

### Er bod pobl ifanc yn treulio llai o amser gyda'r BBC yn gyffredinol, maent yn dal i'w ganmol

Er gwaethaf y gostyngiad mewn cyrhaeddiad ac amser a dreulir, mae pobl ifanc yn dal i roi sgôr uchel i'r BBC yn gyffredinol.[37] Mae hyn yn cyfateb i'r hyn a wyddom o'n hymchwil ansoddol *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* ynghylch sut mae pobl ifanc yn defnyddio cynnwys gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, drwy chwilio am raglenni penodol sy'n apelio atynt, ac yna'n aml yn gwerthfawrogi'r hyn maent yn ei ddefnyddio.

Fodd bynnag, wrth edrych ar fodlonrwydd pobl ifanc â gwahanol wasanaethau'r BBC, mae arwyddion o ddirywiad mewn rhai meysydd. Mae lefelau bodlonrwydd â gwefan/apiau'r BBC[38] wedi gostwng yn sylweddol er 2017/18 ac maent bellach yn is na'r cyfartaledd. Bydd hyn yn rhywbeth i'w fonitro wrth i fuddsoddiadau fel BBC Sounds a'r strategaethau ar gyfer cynyddu ymgysylltiad pobl ifanc â darpariaeth newyddion y BBC gael ei sefydlu'n well. Mae lefelau bodlonrwydd pobl ifanc â radio'r BBC wedi gostwng ychydig (ond nid yn sylweddol) ers y llynedd ac maent yn dal yn is na'r cyfartaledd.[39]

### Mae rhai cynulleidfaoedd iau yn teimlo nad yw'r BBC yn canolbwyntio arnynt yn benodol

Fe wnaethom gyhoeddi ymchwil ym mis Gorffennaf a oedd yn edrych ar berthynas pobl â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar farn pobl ifanc. Roedd y canfyddiadau hyn yng nghyd-destun pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y BBC, ac maent yn cynnwys cyd-destun perthnasol ar gyfer yr heriau sy'n wynebu'r BBC wrth apelio at gynulleidfaoedd iau.

Er bod y BBC yn cael ei weld yn gyffredinol fel rhywbeth 'i bawb', mae rhai cynulleidfaoedd, yn enwedig y rhai sy'n iau neu mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, yn teimlo bod hyn yn golygu nad yw'n canolbwyntio cymaint arnynt yn benodol. Roedd cynulleidfaoedd iau, a ddisgrifiodd Netflix fel eu gwasanaeth 'o ddewis' wrth chwilio am rywbeth i'w wylio, gan hynny'n gyfarwydd â'i gynllun a'i ddull llywio, ac roeddent yn hoffi personoli ei wasanaeth tanysgrifio, a oedd yn rhoi'r teimlad ei fod wedi cael ei wneud yn benodol 'ar eu cyfer'. I'r gwrthwyneb, roeddent yn teimlo bod naws 'gyffredinol' BBC iPlayer yn annymunol ac yn ddryslyd i'w lywio, felly roeddent yn llai tebygol o bori am gynnwys newydd, ar wahân i ychydig o raglenni a oedd wedi creu cynnwrf cymdeithasol yn eu grŵp cyfoedion.

[37] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.
[38] Mae 'gwefannau/apiau' yn cynnwys BBC Sounds ond nid BBC iPlayer, sy'n cael ei gategoreiddio o dan 'wasanaethau teledu'.
[39] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.

## Mae cyrraedd pobl iau yn rhan bwysig o her y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y Deyrnas Unedig

Ar ôl blwyddyn yn unig, mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd strategaeth y BBC i gyrraedd rhagor o bobl iau yn talu yn y tymor hir. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd wedi cydnabod bod rhai cynulleidfaoedd yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol a bod cynulleidfaoedd ifanc yn rhan hanfodol o hynny. Fe wnaethom nodi yn y Trosolwg y bydd angen i'r BBC ganolbwyntio ar ddarparu cynnwys perthnasol, unigryw o ansawdd uchel sy'n apelio at yr amrywiaeth ehangaf posibl o gynulleidfaoedd. Yn y dyfodol, wrth i wasanaethau ar-alw chwarae rhan amlycach o ran sut mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, bydd yn dod yn fwyfwy pwysig bod y BBC yn gallu mesur ac adrodd yn gynhwysfawr ar berfformiad y gwasanaethau hyn.



**Teen Taxi** (llun drwy garedigrwydd y BBC)




# Diben Cyhoeddus 1

**Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas**

## Prif ganfyddiadau

- Mae mwy o bobl yn defnyddio'r BBC i gael newyddion nag unrhyw ffynhonnell arall ar draws teledu, radio neu ar-lein, er bod ei gyrhaeddiad cyffredinol yn gostwng.
- Fel y dywedom yn ein hadolygiad newyddion y llynedd, mae cynulleidfaoedd yn parchu safon newyddiaduraeth y BBC. Fodd bynnag, er bod newyddion y BBC yn dal yn ffynhonnell ddibynadwy a chywir i bobl fynd ati, mae'n dal i wynebu heriau ym marn cynulleidfaoedd am ddiduedddrwydd.
- Mae cyrhaeddiad a boddhad newyddion y BBC i ddemograffeg benodol wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gyfrannu at yr her mae'r BBC yn ei wynebu wrth geisio cyrraedd a gwasanaethu pob cynulleidfa.
- Mae cynulleidfaoedd iau yn dal yn llai tebygol nag oedolion eraill o ddefnyddio gwasanaethau newyddion y BBC. Mae'r BBC wedi bod yn cymryd camau i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc drwy ddatblygu ei arlwy newyddion ar-lein.
- Yn dilyn argymhellion ein hadolygiad o newyddion, mae'r BBC wedi sefydlu proses gydymffurfio newydd i sicrhau ei fod yn darparu dolenni allanol at gynnwys trydydd parti.
- Mae rhagor o fanylion am y data y tu ôl i'r asesiad hwn ar gael yn yr Adroddiad Perfformiad rhyngweithiol.

Mae digwyddiadau allweddol ar draws y flwyddyn, gan gynnwys Etholiad Cyffredinol, ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ac argyfwng Covid-19 wedi pwysleisio natur allweddol newyddion a gwybodaeth gywir a diduedd, er iechyd pobl y Deyrnas Unedig ac i'w sefydliadau democrataidd. Cafodd Covid-19 effaith sylweddol ar ddefnydd cynulleidfaoedd o newyddion y BBC yn ogystal â newyddion yn gyffredinol.

## Effaith Covid-19 ar gyflawni Diben Cyhoeddus 1 y BBC

Arweiniodd argyfwng Covid-19, ac yn enwedig y cynnydd yn y newyddion a wyliwyd ar y BBC, at sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cyfran wylio fisol gyfun uchaf ers mwy na chwe blynedd, a thynnodd sylw at rôl y BBC fel un o'r prif lefydd i fynd i gael gwybodaeth ddibynadwy am ddigwyddiadau newyddion sy'n torri.[40] Dangosodd ein hymchwil ar yr argyfwng Covid-19 yn ystod wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud fod 82% o bobl a oedd yn chwilio am newyddion am yr argyfwng wedi dweud eu bod yn defnyddio'r BBC fel ffynhonnell newyddion a gwybodaeth, sy'n uwch o lawer na'r 56% o bobl a oedd yn defnyddio darlledwyr nad oeddent yn gysylltiedig â'r BBC. Cyrhaeddodd y defnydd o wefan newyddion y BBC ei lefel uchaf yn y flwyddyn adrodd, gyda 37% o oedolion y Deyrnas Unedig yn ei defnyddio ar gyfartaledd bob wythnos ym mis Mawrth 2020.[41]


Drwy gydol y cyfnod hwn, roedd newyddion y BBC yn cynnal ei wasanaethau ac yn addasu rhywfaint o'i gynnwys ar draws llwyfannau gwahanol i ddelio ag effaith y cyfyngiadau symud ac i helpu i atal gwybodaeth gamarweiniol rhag lledaenu. Ym mis Mawrth, cyhoeddodd newidiadau a oedd yn cynnwys defnyddio *The One Show* fel rhaglen i ddefnyddwyr ar gyfer pob agwedd ar yr argyfwng. Ar BBC One yn ystod y dydd, defnyddiwyd *Health Check UK Live* i ymateb i bryderon gwylwyr a oedd yn hunanynysu neu mewn cwarantin, ac roedd gan *My World* bennod benodol ar Covid-19 a oedd wedi ei hanelu at gynulleidfaoedd iau.

Yn ogystal, ceisiodd y BBC fynd i'r afael â lledaenu gwybodaeth gamarweiniol ar-lein gyda chynnwys fel ymgyrch *'fact or fake'* BBC Bitesize a lansiodd BBC Academy wefan a oedd yn dwyn ynghyd holl waith y BBC ar wybodaeth gamarweiniol a llythrennedd yn y cyfryngau. Dim ond rhai enghreifftiau yw'r rhain o sut mae'r BBC wedi addasu yn ystod yr argyfwng ac wedi sicrhau ei fod yn parhau i ddatblygu ei enw da fel darparwr newyddion dibynadwy a chywir.

[40] BARB

[41] Ymchwil y BBC

## Diben 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas




Ym mis Hydref y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi adolygiad manwl o allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC, er mwyn dysgu am arferion newyddion pobl, yr hyn sy'n bwysig iddynt am y deunydd newyddion a materion cyfoes maent yn ei wylio, yn gwrando arno ac yn ei ddarllen, a'r rôl mae newyddion a materion cyfoes y BBC yn ei chwarae yn eu bywydau.

Ein prif ganfyddiadau ac argymhellion oedd:

- Rhaid i'r BBC adeiladu ar ei enw da fel ffynhonnell newyddion gywir i ddenu a gwasanaethu'r rhychwant ehangaf o gynulleidfaoedd.
- Dylai'r parch sydd gan gynulleidfaoedd at safon newyddiaduraeth y BBC roi'r hyder iddynt fod yn fwy beiddgar yn y ffordd mae'n sicrhau didueddrwydd dyladwy.
- Gydag adnoddau casglu newyddion lleol a rhanbarthol heb eu hail, dylai'r BBC allu cynrychioli'r wlad i gyd mewn ffordd ddilys.
- Mae angen i gynnwys ar-lein y BBC wneud mwy i fod yn fwy amlwg, a dylai'r BBC gyhoeddi'r camau mae'n eu cymryd i helpu pob cynulleidfa – yn enwedig pobl iau – i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.
- Mae angen i'r BBC edrych ar sut gall ddarparu rhagor o ddolenni at gynnwys trydydd parti allanol, i gefnogi'r diwydiant ehangach ac i fod o fudd i gynulleidfaoedd.

Yn ei Gynllun Blynyddol, ymatebodd y BBC i'n canfyddiadau yn uniongyrchol. Cawsom ein calonogi gan rai o'r camau a nodwyd ac rydym wedi cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r BBC ar y meysydd a amlinellwyd uchod. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y BBC yn y maes hwn.

### Mae mwy o bobl yn defnyddio'r BBC i gael newyddion nag unrhyw ffynhonnell arall ar draws teledu, radio neu ar-lein, er bod ei gyrhaeddiad cyffredinol yn gostwng

Y BBC yw'r darparwr newyddion sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf ar draws pob llwyfan o hyd. Dywed saith deg tri y cant o oedolion eu bod yn defnyddio un o ffynonellau newyddion y BBC, ac yna ITV (gan gynnwys ITV Cymru, UTV, STV a'u gwefannau) ar 43% a Facebook ar 34% yn ôl ein Harolwg ar

Gael Gafael ar Newyddion. Fel y digwyddodd y llynedd, mae saith o wasanaethau'r BBC yn ymddangos yn yr 20 prif ffynhonnell a ddefnyddir gan bobl ar gyfer newyddion. BBC One yw'r ffynhonnell sy'n cael ei defnyddio fwyaf o hyd, gyda 56% o oedolion y Deyrnas Unedig yn hawlio eu bod yn ei defnyddio ar gyfer newyddion.[42]




**The Coronavirus Newscast**

**Ffigur 4: 20 prif ffynhonnell newyddion ar draws llwyfannau: 2017/18-2019/20**

| Ffynhonnell | Llwyfan | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| BBC One | Sianel Deledu | 62% | 58% | 56% |
| ITV/ITV CYMRU/UTV/STV | Sianel Deledu | 41% | 40% | 41% |
| Facebook | Cyfryngau cymdeithasol | 33% | 35% | 34% |
| Sianel Sky News | Sianel Deledu | 24% | 23% | 25% |
| **Gwefan/ap y BBC** | **Gwefan/ap arall** | 23% | 25% | 23% |
| Sianel BBC News | Sianel Deledu | 26% | 23% | 21% |
| Channel 4 | Sianel Deledu | 18% | 17% | 18% |
| Daily Mail/Mail on Sunday | Papur newydd (print a digidol) | 18% | 18% | 17% |
| Twitter | Cyfryngau cymdeithasol | 14% | 16% | 17% |
| Google (peiriant chwilio) | Gwefan/ap arall | 17% | 19% | 15%▼ |
| Instagram | Cyfryngau cymdeithasol | 9% | 13% | 14% |
| WhatsApp | Cyfryngau cymdeithasol | 10% | 14% | 13% |
| BBC Radio 2 | Gorsaf radio | 12% | 12% | 12% |
| BBC Two | Sianel Deledu | 14% | 11% | 11% |
| Metro | Papur newydd (print a digidol) | 10% | 9% | 11%▲ |
| The Sun/Sun on Sunday | Papur newydd (print a digidol) | 11% | 11% | 10% |
| The Guardian/Observer | Papur newydd (print a digidol) | 11% | 11% | 10% |
| BBC Radio 1 | Gorsaf radio | 9% | 9% | 9% |
| Papurau newydd lleol | Papur newydd (print a digidol) | 11% | 10% | 9% |
| BBC Radio 4 | Gorsaf radio | 10% | 9% | 9% |

[42] Mae BARB yn dangos cyrhaeddiad o 53% ar gyfer newyddion ar BBC One. Mae ffigur yr Arolwg Cael Gafael ar Newyddion yn cynrychioli'r cyrhaeddiad sy'n cael ei hawlio, a gallai gynnwys gwylio ar ddyfeisiau symudol, ond dim ond mesur gwylio ar set deledu mae data BARB sy'n cael ei ddefnyddio yma.

*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020. Cwestiwn: D2a-8a. Gan feddwl yn benodol am < llwyfan>, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sail: Pob oedolyn 16+ = 4576. Profion arwyddocâd: Sgoriau 2019/20 wedi cael profion arwyddocâd o gymharu â 2018/19. Mae saethau coch yn dangos canlyniad sy'n sylweddol is na 2018/19 ar lefel hyder 95%; mae saethau gwyrdd yn dangos canlyniad sy'n sylweddol uwch na 2018/19.*

Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf mae BBC One wedi gweld y gostyngiad mwyaf mewn cyrhaeddiad honedig. Mae Twitter, Instagram a WhatsApp wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn cyrhaeddiad honedig dros y cyfnod hwnnw, er bod y cynnydd yn 2018/19 gan fwyaf.

Mae data gwylio teledu a ddarlledir gan BARB yn cadarnhau bod BBC One wedi gweld gostyngiad cyson am gyfnod llawer hwy gyda chyrhaeddiad wythnosol newyddion ar BBC One yn gostwng o 65% o'r holl oedolion yn 2010 i 53% yn 2019. Roedd cyrhaeddiad gwylio newyddion ar deledu sy'n cael ei ddarlledu hefyd wedi gostwng o 2010 i 2019 ar gyfer yr holl brif sianeli teledu eraill, ac eithrio BBC Two, a oedd wedi cynyddu ychydig. Yn ein Harolwg Cael Gafael ar Newyddion, roedd defnyddwyr rheolaidd teledu'r BBC ar gyfer newyddion yn dweud bod ei berfformiad yn gyson â'r llynedd, ac eithrio'r ffaith bod cyfran lai yn cytuno ei fod yn 'cynnig amrywiaeth o safbwyntiau'.

Yn 2019, cofnododd y BBC ei lefel uchaf o wariant ar newyddion a materion cyfoes er 2010, gan gyfuno gwariant rhwydwaith a rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau. At ei gilydd, gwelwyd cynnydd yn nifer yr oriau o raglenni newyddion ond gostyngiad yn nifer yr oriau o raglenni materion cyfoes er 2018. Mae'r gostyngiad hwn oherwydd gostyngiad mewn ailddarllediadau, yn bennaf ar sianel BBC News. Ar draws y BBC yn gyffredinol, roedd yr oriau gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig (tro cyntaf)[43] ar gyfer newyddion a materion cyfoes yn dal i gynyddu'n raddol eleni.

Bu cynnydd yn nifer yr oriau o newyddion ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, wedi ei sbarduno'n bennaf gan y cynnydd mewn oriau ar gyfer yr Alban – gweler yr asesiad o Ddiben Cyhoeddus 4. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei yrru gan sianel deledu newydd BBC Scotland ac rhaglenni fel ei rhaglen flaenllaw *The Nine*, sy'n ceisio darparu newyddion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol o safbwynt unigryw yn yr Alban. Gwelodd BBC ALBA, Lloegr a Gogledd Iwerddon gynnydd bychan mewn oriau hefyd, ond gostyngodd yr oriau ar gyfer Cymru ychydig eleni.[44]

O ran radio, BBC Radio 2, BBC Radio 1 a BBC Radio 4 yw'r gorsafoedd radio sy'n cael eu defnyddio fwyaf ar gyfer newyddion o hyd.[45] O'r rhain, rhaglen *Today* Radio 4 a'r *Jeremy Vine Show* ar Radio 2 sydd â'r cyrhaeddiad uchaf o unrhyw raglen newyddion/materion cyfoes ar radio'r BBC, yn ôl RAJAR. Ond mae cyrhaeddiad wythnosol cyffredinol rhaglenni newyddion rhwydwaith y BBC wedi gostwng yn raddol, o 36% o oedolion yn 2017/18 i 34% yn 2019/20, gan adlewyrchu'r gostyngiad cyffredinol yn achos radio'r BBC dros yr un cyfnod.

Mae ein Harolwg Cael Gafael ar Newyddion yn dangos bod gwrandawyr newyddion rheolaidd yn dal i ganmol radio'r BBC am sawl agwedd ar ddarpariaeth newyddion ar y radio, gan berfformio'n

[43] Mae rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn golygu rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer un o wasanaethau teledu'r BBC a heb gael eu dangos o'r blaen ar deledu yn y Deyrnas Unedig
[44] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC
[45] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020

arbennig o dda o ran ansawdd, cywirdeb ac o ran ‘fy helpu i ddeall beth sy’n digwydd yn y byd heddiw’. Fodd bynnag, eleni, mae cyfran lai o wrandawyr newyddion radio’r BBC yn cytuno ei fod yn eu helpu i ddeall y broses wleidyddol. Fel yr oedd y llynedd, mae gwrandawyr newyddion radio’r BBC yn fwy cadarnhaol am newyddion radio’r BBC na gwrandawyr newyddion radio masnachol ynghylch newyddion radio masnachol, ac eithrio gwrandawyr newyddion LBC. Maent yn dweud bod LBC yn perfformio’n well, o’i gymharu â’r sgoriau a roddwyd i radio’r BBC gan ei wrandawyr newyddion, o ran cynnig amrywiaeth o safbwyntiau, eu helpu i benderfynu a darparu dadansoddiad a chynnwys manwl.

Yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, tynnodd y BBC sylw at *Crossing Divides*, rhaglen a ddarlledwyd ar BBC Radio 5 live, yn ogystal â gwasanaethau eraill y BBC, sy’n ceisio creu ‘gwell dealltwriaeth o bob safbwynt a barn.’ Mewn digwyddiad byw, fel rhan o’r rhaglen *Crossing Divides*, llwyddodd y BBC i recriwtio dros 200 o gyfranogwyr i gael eu hyfforddi mewn technegau gwrando trylwyr; roedd hyn yn hanfodol o ran gwneud i’r cyfranogwyr hyn deimlo’n gyfforddus yn siarad â phobl sydd â safbwyntiau gwahanol iawn am bynciau fel Brexit a newid yn yr hinsawdd. Roedd hwn yn ddatblygiad arloesol gan y BBC ar adeg o ddadl gyhoeddus ar begynau gwahanol ac mae’n dangos bod y BBC yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â gwahanol syniadau a phynciau.




**BBC Sounds**

Mae BBC Sounds yn rhoi mynediad at orsafoedd radio’r BBC ar-lein yn ogystal â podlediadau a rhaglenni radio dal-i-fyny. Mae ein hymchwil yn dangos bod cyrhaeddiad BBC Sounds ar gyfer podlediadau newyddion yn dal yn fach: dim ond 1% o oedolion sy’n ei ddefnyddio ar gyfer podlediadau newyddion.[46] O fewn BBC Sounds, rhaglenni trafod a sgwrsio yw’r categori podlediadau mwyaf poblogaidd, yna adloniant ac yna newyddion a materion cyfoes. Yn ôl data’r BBC, ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn, yn enwedig yn ystod digwyddiadau gwleidyddol mawr fel cyfnod yr etholiad yn 2019, *Newscast* oedd yr ail bodlediad mwyaf poblogaidd ar BBC Sounds. Mae ymchwil Ofcom ymysg gwrandawyr podlediadau rheolaidd yn dangos mai *Coronavirus Newscast* oedd y podlediad mwyaf poblogaidd yn ystod wythnos olaf mis Mawrth 2020.[47]

Yn ôl data mewnol y BBC, defnyddiwyd gwefan ac ap newyddion y BBC gan 29% o oedolion y Deyrnas Unedig ar gyfartaledd bob wythnos yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Yn ein Harolwg Cael Gafael ar Newyddion, mae defnyddwyr rheolaidd gwefan neu ap y BBC ar gyfer newyddion yn rhoi


[46] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020
[47] Ymchwil Populus, Mawrth 2020.

sgôr mwy cadarnhaol i'w berfformiad eleni na'r llynedd o ran ei bwysigrwydd iddynt yn bersonol o ran darparu 'dadansoddi a chynnwys treiddgar'. O ran datganiadau agwedd eraill, mae gwefan neu ap y BBC yn perfformio yn unol â'r llynedd, gyda 74% o ddefnyddwyr rheolaidd o'r farn eu bod yn gywir ac yn ddibynadwy, tra bo 64% o'r farn eu bod yn ddiduedd.

### Saith o bob deg sy'n gwylio newyddion teledu'r BBC yn rheolaidd yn cytuno ei fod yn gywir ac yn ddibynadwy.

Yn gynharach eleni, fel rhan o'n hymchwil ar gyfer adolygiad Ofcom o'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus dan y teitl Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr roeddem wedi gofyn i gynulleidfaoedd roi sgôr i nodweddion pwysicaf y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Gofynasom iddynt wneud hyn mewn dwy ffordd wahanol. Yn gyntaf, fe wnaethom ofyn iddynt feddwl am yr hyn sy'n bwysig iddynt fel unigolyn, ac wedyn fe wnaethon ni ofyn iddynt feddwl beth yw'r nodweddion pwysicaf mae angen i system darlledu gwasanaeth cyhoeddus eu darparu i bawb yn y gymdeithas. Ar gyfer pob cwestiwn, dywedodd cynulleidfaoedd wrthym mai 'newyddion dibynadwy a chywir am y Deyrnas Unedig' oedd nodwedd bwysicaf system darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Roedd yr ymchwil hwn yn adleisio'r hyn a ddysgom yn ein hadolygiad newyddion y llynedd pan ofynnwyd i gynulleidfaoedd am y nodweddion pwysicaf mewn sefydliad newyddion.

**Ffigur 5: Gwerth personol a chymdeithasol – manteision posibl mwyaf gwerthfawr darlledu gwasanaeth cyhoeddus**




*Ffynhonnell: Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, gwaith ymchwil 2020. Q5a. Mae'r rhestr a ganlyn yn disgrifio'r amrywiaeth o fanteision mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi ei gynllunio'n fras i'w cyflawni. A allech chi adolygu'r rhestr o fanteision posibl yn llawn cyn dweud wrthyf pa dri sydd fwyaf gwerthfawr i chi'n bersonol yn eich barn chi? Sail: Pob ymatebydd (n=1851) C7a. Pa dair mantais ydych chi'n meddwl sydd fwyaf gwerthfawr i gymdeithas yn gyffredinol? Sail: Pob ymatebydd (n=1851)*

Yn ôl ein hymchwil, mae gwylwyr rheolaidd newyddion teledu'r BBC yn dal i'w weld fel ffynhonnell newyddion ddibynadwy a chywir, yn unol â neu uwchben sianeli teledu eraill. Roedd yr ymchwil yn gofyn i wylwyr rheolaidd pob sianel newyddion asesu perfformiad yn y meysydd hyn.

**Ffigur 6: Cymhariaeth rhwng teledu'r BBC a darlledwyr teledu eraill**

| | Teledu'r BBC | ITV* | Sky News | Channel 4 | Channel 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Maint y sylfaen | 2754 | 1894 | 1058 | 746 | 331 |
| Yn gywir | 72% | 71% | 76% | 70% | 65% |
| Yn ddibynadwy | 71% | 71% | 74% | 70% | 65% |

*Ffynhonnell: Arolwg 2020 ar Gael Gafael ar Newyddion. Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n defnyddio ffynhonnell newyddion o leiaf unwaith yr wythnos. % y defnyddwyr rheolaidd sy'n graddio pob ffynhonnell yn uchel (7-10). Cwestiwn: Ac i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y datganiadau a ganlyn yn berthnasol i <source> fel ffynhonnell newyddion? Atebwch gan ddefnyddio graddfa o 1 i 10. *Yn cynnwys ITV Cymru, UTV ac STV*

Rydym ni hefyd yn gwybod bod y BBC yn parhau i fod yn brif ffynhonnell i gynulleidfaoedd ar adegau arwyddocaol. Roedd hyn yn amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; roedd y BBC wedi denu cynulleidfaoedd mawr yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol, ar ddechrau cyfyngiadau symud Covid-19 ac ar gyfer eitemau newyddion fel cyfweliad Emily Maitlis gyda'r Tywysog Andrew.

Roedd un don o'n hymchwil ar ddefnydd oedolion o newyddion yn y Deyrnas Unedig yn cyd-daro â chyfnod yr etholiad ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2019, gan roi cipolwg ar gyrhaeddiad newyddion ac agweddau cynulleidfaoedd yn ystod ymgyrch etholiadol. At ei gilydd, roedd pobl yn defnyddio'r un ffynonellau newyddion ac roedd eu hagweddau at newyddion yn aros yr un fath fwy neu lai ag ar unrhyw adeg arall yn ystod y flwyddyn. Roedd cyrhaeddiad newyddion ar deledu'r BBC yn ystod yr etholiad hefyd yn debyg i weddill y flwyddyn adrodd, ac eithrio mis Mawrth 2020.[48]

Er bod y BBC wedi cynnal ei gyrhaeddiad yn ystod y cyfnod allweddol hwn, dangosodd ein hymchwil fod agweddau tuag at newyddion y BBC ymysg rhai cynulleidfaoedd, yn enwedig menywod, yn is yn y cyfnod hwn nag mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd menywod a oedd yn defnyddio teledu'r BBC yn rheolaidd ar gyfer newyddion yn llai tebygol o roi sgôr uchel i deledu'r BBC am fod yn 'fanwl gywir', yn 'ddibynadwy' neu'n 'ddiduedd' o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2018.

Mae hwn yn giplun o ran o'r flwyddyn ac ni allwn fod yn sicr o'r hyn sy'n achosi'r dirywiad hwn, ond mae'n bosibl fod canfyddiadau o arlwy etholiadol y BBC wedi bod yn ffactor a gyfrannodd at hyn. Rydym yn cydnabod bod y cyfnod cyn yr Etholiad Cyffredinol yn ddadleuol, a bod y BBC yn wynebu mwy o heriau yn ystod cyfnodau pan fydd mwy o ffocws ar wleidyddiaeth. Fel rydym ni'n ei drafod yn adran safonau o ran cynnwys yr adroddiad, rydym ni'n bwriadu ymgysylltu â'r BBC ynghylch sut mae'n delio â chwynion ac yn sicrhau bod y penderfyniadau mae'n eu gwneud am gynnwys sy'n gysylltiedig ag etholiadau yn ystod y cyfnodau hyn mor dryloyw â phosibl.

[48] BARB, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (3 munud a mwy) i'r genre newyddion cenedlaethol/rhyngwladol

## Mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr is i'r BBC ar ddidueddrwydd

Eleni, ni wnaethom ganfod bod y BBC wedi torri gofynion didueddrwydd dyladwy'r Cod Darlledu. Fodd bynnag, roedd didueddrwydd yn parhau i fod yn un o brif themâu'r cwynion a gawsom am y BBC yn ystod y flwyddyn.

Yn adolygiad newyddion y llynedd, gwelsom fod cynulleidfaoedd yn cydnabod bod y BBC yn wynebu mwy o graffu na sefydliadau eraill yn y cyfryngau, a bod ganddynt barch at safon newyddiaduraeth y BBC. Canfuom fod amrywiaeth o ffactorau yn siapio safbwyntiau pobl ynghylch didueddrwydd newyddion y BBC, gyda dim ond rhai ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'i gynnwys newyddion a materion cyfoes. Dywedodd rhai wrthym fod brand y BBC, ei fecanwaith cyllido a'r ffordd y mae'n cael ei bortreadu ar y cyfryngau yn ehangach wedi dylanwadu ar eu safbwyntiau.

Canfu ein hymchwil y llynedd hefyd fod pobl a oedd yn arddel safbwyntiau gwleidyddol cryf yn meddwl bod y BBC yn rhy asgell chwith neu dde, gan ddibynnu ar eu safiad gwleidyddol personol. Awgrymodd dadansoddiad o gyfryngau cymdeithasol mai'r rhai a oedd yn arddel y safbwyntiau gwleidyddol cryfaf oedd y mwyaf tebygol o wneud sylwadau beirniadol am y BBC.


Mae'r canfyddiadau hyn yn debygol o fod yn berthnasol eto eleni: unwaith eto, mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn ystyried didueddrwydd fel yr agwedd sy'n sgorio isaf o ran y ffordd mae'r BBC yn cyflawni'r diben hwn. Yn ôl ein Traciwr Perfformiad y BBC, dim ond 54% o oedolion y Deyrnas Unedig sy'n cytuno bod y BBC yn darparu newyddion diduedd.

Mewn ymchwil ar wahân, pan ofynnom i ddefnyddwyr rheolaidd darparwyr newyddion eraill sgorio perfformiad pob un ohonynt, roedd sianel Sky News, ITV a Channel 4 i gyd wedi sgorio'n uwch na theledu'r BBC am ddarparu newyddion diduedd dros y flwyddyn ddiwethaf.[49]

Ers 2017/18, bu gostyngiad yng nghyfran y defnyddwyr rheolaidd o deledu'r BBC ac ITV ar gyfer newyddion sydd o'r farn bod newyddion y darparwyr hyn yn ddiduedd. Mae'r gwrthwyneb yn wir am sianel Sky News a Channel 4; mae eu gwylwyr newyddion rheolaidd wedi rhoi sgoriau uwch o ran argraffiadau o ddidueddrwydd yn ystod y cyfnod hwn.

[49] Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC ar gyfer 2019/20 yn datgan bod cyfran uwch o oedolion, yn 2020, yn cytuno mai'r BBC oedd y ffynhonnell y byddent yn ei defnyddio ar gyfer newyddion diduedd a chywir, a newyddion maent yn ymddiried fwyaf ynddo, nag yn 2019. Rydym ni'n nodi bod gwaith maes y BBC wedi cael ei gynnal ddiwedd mis Mawrth 2020 ac rydym ni'n ofalus rhag dehongli 'ymchwydd Covid-19' posibl fel gwelliant go iawn. Mae ein Harolwg ar Gael Gafael ar Newyddion, sy'n cael ei gynnal mewn dwy don i sefydlogi symudiadau, yn dangos sefydlogrwydd yn y metrigau hyn o un flwyddyn i'r llall. Rydym ni hefyd yn nodi bod methodolegau a samplau'r arolwg mae'r BBC wedi eu cymharu ar gyfer 2019 a 2020 yn wahanol.

**Ffigur 7: Cymharu canfyddiadau gwylwyr o ddidueddrwydd darlledwyr teledu: 2017/18-2019/20**




*Ffynhonnell: Arolwg 2020 ar Gael Gafael ar Newyddion. Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n defnyddio ffynhonnell newyddion o leiaf unwaith yr wythnos. % o ddefnyddwyr rheolaidd sy'n rhoi sgôr uchel (7-10) i bob ffynhonnell o ran 'bod yn ddiduedd'. Cwestiwn: Ac i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y datganiadau a ganlyn yn berthnasol i <source> fel ffynhonnell newyddion? Atebwch gan ddefnyddio graddfa o 1 i 10. Profion arwyddocâd: Sgoriau 2019/20 sianeli wedi cael eu profi o ran arwyddocâd o'u cymharu â 2017/18. Mae saethau coch yn dangos canlyniad sy'n sylweddol is na 2017/18 ar lefel hyder 95%; mae saethau gwyrdd yn dangos canlyniad sy'n sylweddol uwch na 2017/18.*

Dywedom yn y Trosolwg bod perygl y gallai'r berthynas rhwng y BBC a'i gynulleidfaoedd yn y dyfodol gael eu peryglu os bydd pryderon cynulleidfaoedd ynghylch didueddrwydd yn parhau i dyfu. Y llynedd, yn ein hadolygiad o newyddion, roeddem wedi herio'r BBC i fod yn fwy beiddgar yn ei ddull o sicrhau didueddrwydd dyladwy. Mae'r BBC wedi dangos ei fod yn deall yr her hon; yn ei Gynllun Blynyddol, dywedodd ei fod wedi cyflwyno hyfforddiant didueddrwydd diwygiedig ar gyfer newyddiadurwyr a'i fod yn cynhyrchu canllawiau didueddrwydd ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n adrodd ar newyddion a materion cyfoes.

Fel y nodwyd eisoes, mae ymrwymiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd i edrych ar ffyrdd newydd o sicrhau didueddrwydd, a cheisio *'sbectrwm ehangach o safbwyntiau, gwthio allan y tu hwnt i derfynau gwleidyddol traddodiadol a dod o hyd i leisiau newydd o bob cwr o'r wlad'* yn galonogol, ac mae'n rhywbeth y byddwn yn parhau i'w fonitro fel un o'r heriau allweddol i'r BBC yn y flwyddyn i ddod.

Rydym hefyd yn croesawu'r canllawiau newydd ar gyfer newyddiadurwyr a rheolau newydd ynghylch sut mae'r BBC yn cynnal didueddrwydd ar gyfryngau cymdeithasol. Er nad yw defnyddio cyfryngau cymdeithasol gan newyddiadurwyr a chyflwynwyr y BBC yn rhan o'n cylch gwaith, rydym ni o'r farn bod hwn yn gam defnyddiol ac mae'n debygol o helpu i wella argraffiadau o ddidueddrwydd.

## Roedd cynulleidfaoedd yn yr Alban o'r farn bod darpariaeth newyddion y BBC yn is na gweddill y Deyrnas Unedig

Yn ein hadolygiad o newyddion, roeddem wedi dweud bod angen i'r BBC wneud mwy i gynrychioli amrywiaeth y Deyrnas Unedig er mwyn creu cynnwys dilys sy'n teimlo'n berthnasol ac yn ddifyr i bob cynulleidfa. Roedd nifer o bobl o'r farn bod newyddion y BBC yn rhoi safbwynt sydd gan fwyaf yn wyn, yn ddosbarth canol ac yn Llundeinig.

Mae tua thri chwarter yr oedolion yng Nghymru a Lloegr yn dweud eu bod yn defnyddio'r BBC fel ffynhonnell newyddion, sy'n gostwng i 68% o oedolion yn yr Alban a 62% o oedolion yng Ngogledd Iwerddon.[50] Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae tua chwech o bob deg oedolyn yn cytuno bod y BBC yn perfformio'n dda o ran cyflawni Diben Cyhoeddus 1, ond dim ond hanner yr oedolion yn yr Alban sy'n cytuno â hyn.[51]

Yn ogystal, dywedodd cynulleidfaoedd wrthym eleni mai BBC One, ochr yn ochr ag STV yn yr Alban ac UTV yng Ngogledd Iwerddon, yw'r ffynhonnell newyddion fwyaf poblogaidd a phwysicaf, ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig. Roedd tua thri chwarter yr oedolion sy'n defnyddio teledu'r BBC yn rheolaidd ar gyfer newyddion yn canmol y sianel am roi dealltwriaeth iddynt o'r hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ar yr un lefel â defnyddwyr rheolaidd ITV a Sky News ar gyfer y sianeli hynny, ac roedd 72% o ddefnyddwyr rheolaidd teledu'r BBC ar gyfer newyddion yn rhoi sgôr uchel iddo am ddarparu newyddion rhanbarthol a lleol da, gyda sgôr defnyddwyr rheolaidd ar gyfer ITV ar yr un lefel.[52]

## Rydym wedi gofyn i'r BBC egluro'r strategaeth y tu ôl i'r newidiadau i'w newyddion a materion cyfoes rhanbarthol yn Lloegr

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd BBC England gynlluniau i wneud newidiadau sylweddol i'w wasanaethau teledu a radio rhanbarthol a lleol, a'r ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes, er mwyn arbed £25 miliwn o gostau erbyn mis Mawrth 2022. Roedd y cynlluniau'n cynnwys dileu'r rhaglen materion cyfoes *Inside Out*, a'i disodli â rhaglen newydd a oedd yn lleihau'r 11 amrywiad rhanbarthol presennol yn Lloegr i chwech o rai llawer mwy (gyda hybiau cyhoeddi wedi'u lleoli yn Newcastle, Leeds, Norwich, Llundain, Birmingham a Bryste).

Er nad oedd y newidiadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar amodau'r Drwydded Weithredu mewn unrhyw ffordd, roeddem yn poeni y gallai graddfa'r newidiadau a nodwyd leihau gallu'r BBC i gyflawni Diben Cyhoeddus 1 a Diben Cyhoeddus 4, yn enwedig gan nad oedd y BBC wedi egluro'n glir beth fyddai'r effaith ar gynulleidfaoedd. Codwyd pryderon sylweddol gyda ni hefyd gan nifer o randdeiliaid. Gan hynny, fe wnaethom ysgrifennu at y BBC ym mis Awst 2020 gan ofyn iddo nodi'n fanylach ar ba sail y gwnaed y penderfyniadau hyn, gan gynnwys sut roedd y BBC wedi eu cyrraedd yng nghyd-destun toriadau ehangach i wasanaethau; sut bydd y BBC yn sicrhau ei fod yn cynnal darpariaeth newyddion a materion cyfoes lleol a rhanbarthol o ansawdd uchel yn unol â Diben Cyhoeddus 1 a Diben Cyhoeddus 4 gyda'r lefel hon o doriadau yn y gyllideb; sut bydd y BBC yn monitro effaith y newidiadau hyn a sut bydd yn bwydo'r strategaeth yn ôl i'w strategaeth barhaus.

[50] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion, 2020.
[51] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC
[52] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion, 2020.

Mewn ymateb i'n llythyr, mae'r BBC wedi nodi ychydig mwy o fanylion am ei strategaeth ar gyfer newyddion rhanbarthol a materion cyfoes yn Lloegr yng ngoleuni'r targedau cynilo y mae angen iddo eu cyrraedd ar draws pob adran. Mae wedi dweud wrthym fod angen iddo foderneiddio ei allbwn newyddion a materion cyfoes rhanbarthol yn Lloegr, er mwyn creu mwy o berthnasedd i gynulleidfaoedd sydd wedi bod yn symud i ffwrdd o allbwn materion cyfoes y BBC. Mae o'r farn nad yw *Inside Out* bellach yn cael yr un effaith â phan gafodd ei gomisiynu gyntaf, ac mae ei gynulleidfa wedi bod yn dirywio am y deng mlynedd diwethaf.

Mae'r BBC yn dal i ddatblygu ei frîff rhaglen newydd ar gyfer rhoi sylw i faterion cyfoes yn Lloegr, ond mae wedi nodi y bydd yn ceisio newid fformat ei ddarpariaeth gyfredol, a allai arwain at raglenni dogfen ac ymchwiliadau mwy manwl ac o ansawdd uwch. Yn benodol, mae'n bwriadu i'w ddarpariaeth materion cyfoes newydd i Loegr atseinio mwy gyda chynulleidfaoedd C2DE. Mae'r BBC o'r farn na fydd symud i ranbarthau mwy yn lleihau ei allu i adrodd straeon lleol, ac y bydd, wrth wneud hynny, yn gallu buddsoddi mwy mewn straeon a rhaglenni unigol a allai sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd ledled Lloegr.

Nid rôl Ofcom yw ymyrryd ym mhenderfyniadau'r BBC ynghylch arbedion yn y gyllideb, toriadau mewn swyddi na phenderfyniadau golygyddol. Fodd bynnag, mae ein dyletswyddau o dan y Siarter a'r Cytundeb, yn cynnwys sicrhau fod y BBC yn parhau i wasanaethu cynulleidfaoedd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig gyda newyddion lleol a rhanbarthol o ansawdd uchel. Yn ein hadolygiad newyddion, dywedodd cynulleidfaoedd wrthym eu bod yn dymuno gweld mwy o newyddion am eu cymunedau, a bod y newyddion yn cael eu hadrodd gan bobl sy'n deall yr ardal yn dda. Mae canlyniadau ein Harolwg Cael Gafael ar Newyddion eleni yn dangos lefelau uchel o fodlonrwydd â'r gwasanaethau presennol: Mae 82% o oedolion sy'n dilyn newyddion ar deledu rhanbarthol y BBC neu radio gwledydd neu radio lleol y BBC yn fodlon ag ansawdd y newyddion lleol maent yn eu darparu. Mae'r ffigurau bodlonrwydd hyn yr un fath â chystadleuwyr; mae 85% o'r rhai sy'n gwylio darllediadau rhanbarthol neu leol ar ITV ac 81% o'r rhai sy'n gwrando ar newyddion ar radio masnachol lleol yn fodlon â'u hansawdd.[53]

Rydym eisiau i'r BBC wneud mwy i egluro effaith newidiadau fel y rhain fel bod cynulleidfaoedd yn deall yn glir sut bydd eu hanghenion yn parhau i gael eu diwallu wrth i'r BBC esblygu ei wasanaethau. Byddwn yn monitro ymgysylltiad a bodlonrwydd cynulleidfaoedd â materion cyfoes rhanbarthol y BBC.

### Mae cyrhaeddiad newyddion y BBC i grwpiau economaidd-gymdeithasol is wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf

Mae cyrhaeddiad ffynonellau newyddion y BBC i gynulleidfaoedd yn y grŵp economaidd-gymdeithasol DE wedi gostwng yn sylweddol o 71% ddwy flynedd yn ôl i 63% eleni. Mewn cyferbyniad, mae cyrhaeddiad ffynonellau newyddion y BBC ymysg y grŵp AB wedi aros yn gyson, gyda 81% o oedolion AB yn honni eu bod yn defnyddio ffynonellau newyddion y BBC.[54] Am y tair blynedd diwethaf mae pobl yn y grŵp DE wedi rhoi sgoriau is na'r cyfartaledd yn gyson ar gyfer pob agwedd ar ddarpariaeth newyddion y BBC ac mae oedolion AB wedi rhoi sgoriau uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob agwedd.[55] Yn y Trosolwg fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod y BBC yn

[53] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion, 2020. Mae ITV yn cynnwys ITV Cymru, UTV ac STV.
[54] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion, 2020.
[55] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC

wynebu her wrth geisio gwasanaethu pob cynulleidfa. Fe wnaethom nodi nad yw cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn cael gwasanaeth cystal gan y BBC a bod angen cynllun arnynt yn y dyfodol i wasanaethu'r cynulleidfaoedd hyn yn well.

**Ffigur 8: Canfyddiadau o ddarpariaeth newyddion, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol**

| | Grŵp economaidd-gymdeithasol AB | | | Grŵp economaidd-gymdeithasol DE | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
| Maint y sylfaen | 1187 | 1090 | 1413 | 1142 | 1022 | 927 |
| Darpariaeth newyddion sy'n fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw | 74%▲ | 70% ▲ | 71%▲ | 61%▼ | 60%▼ | 57%▼ |
| Newyddion sy'n cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau | 66%▲ | 66%▲ | 63%▲ | 55%▼ | 55%▼ | 54%▼ |
| Newyddion diduedd | 64%▲ | 60%▲ | 60%▲ | 51%▼ | 52%▼ | 49%▼ |

*Ffynhonnell: Traciwr Perfformiad y BBC, gwaith maes: 9 Hydref 2017 i 13 Ebrill 2018; 16 Ebrill 2018 i 10 Ebrill 2019; 30 Ebrill 2019 i 3 Ebrill 2020 Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn, % o oedolion yn rhoi sgôr uchel i'r BBC (7-10). Cwestiwn: C6. Ar raddfa o 1 i 10, lle mae 1 yn golygu ddim yn dda o gwbl a 10 yn golygu eithriadol o dda, pa mor dda, os o gwbl, mae'r BBC yn ei gyfanrwydd yn darparu. Profion arwyddocâd: Sgoriau profion arwyddocâd o'u cymharu â chyfanswm sgôr y sampl ar gyfer y flwyddyn berthnasol. Mae saethau coch yn dangos canlyniad sy'n sylweddol is na chyfanswm y sampl ar lefel hyder 95%; mae saethau gwyrdd yn dangos canlyniad sy'n sylweddol uwch na chyfanswm y sampl.*

Yn gyffredinol, roedd mwy o oedolion yn anfodlon ar berfformiad newyddion y BBC eleni, i fyny i 17% o 14% y llynedd. Mae'r cynnydd hwn wedi cael ei sbarduno gan lefelau cynyddol o ganfyddiadau negyddol wrth i'r BBC ddarparu newyddion ar draws amrywiaeth o ddemograffeg, gan gynnwys menywod, pobl rhwng 55 a 64 oed, cynulleidfaoedd yn y grŵp economaidd-gymdeithasol C2 a'r rhai sy'n byw yn Lloegr.[56]

### Mae cynulleidfaoedd iau yn dal yn llai tebygol nag oedolion eraill o ddefnyddio gwasanaethau'r BBC

Mae canlyniadau ein Traciwr Perfformiad y BBC yn dangos bod saith o bob deg rhwng 16 a 24 oed yn dal i roi sgôr uchel i berfformiad y BBC ac yn cytuno bod darpariaeth newyddion y BBC yn eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd. Mae hyn yn gostwng i chwech ym mhob deg o ran cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau a bod yn ddiduedd. Er bod y rhain yn sgoriau gweddol uchel ar gyfer yr agweddau hyn ar berfformiad y BBC o ran newyddion a materion cyfoes, mae pobl ifanc yn dal yn llawer llai tebygol nag oedolion eraill o ddefnyddio teledu neu radio'r BBC ar gyfer newyddion. Yn 2019 cyrhaeddodd newyddion ar sianeli teledu'r BBC ddim ond 21% o bobl 16-24 oed yr wythnos ar gyfartaledd, ond cyrhaeddodd dros hanner yr holl oedolion 16 oed a hŷn, ac yn 2019/20 roedd rhaglenni newyddion rhwydwaith y BBC ar y radio yn cyrraedd dim ond 16% o bobl 15-24 oed bob wythnos ond traean o'r holl oedolion dros 15 oed.[57]

[56] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.
[57] Data teledu gan BARB, data radio gan RAJAR

I’r bobl ifanc hynny sy’n defnyddio teledu’r BBC yn rheolaidd i gael newyddion, maent yn llai tebygol o’i ganmol am ddarparu newyddion o’i gymharu â defnyddwyr rheolaidd eraill.[58] Maent o’r farn bod teledu’r BBC yn llai pwysig iddynt yn bersonol, ac maent yn llai tebygol nag oedolion eraill o’i weld fel rhywbeth cywir, o ansawdd uchel neu rywbeth sy’n cynnig amrywiaeth o safbwyntiau. Gwyddom hefyd o’n hadolygiad newyddion y llynedd fod pobl ifanc yn ystyried newyddion y BBC yn llai perthnasol iddynt gan nad oedd yn rhoi digon o sylw i’r materion oedd o ddiddordeb iddynt.

Mae gwefan ac ap y BBC yn cyrraedd yr un gyfran o bobl 16-24 oed ag oedolion eraill, ond mae ein Harolwg Cael Gafael ar Newyddion yn dangos bod defnyddwyr hŷn y wefan a’r ap yn eu defnyddio’n amlach na defnyddwyr 16-24 oed. Mae hyn yn adleisio ein canfyddiadau o adolygiad newyddion y llynedd bod y rhai mewn grwpiau oedran hŷn yn defnyddio mwy o newyddion y BBC ar-lein. Gwelsom fod y cynulleidfaoedd hyn eisoes yn cael gwasanaeth da gan deledu a radio’r BBC, yn wahanol i gynulleidfaoedd iau sy’n troi oddi wrth y llwyfannau hynny.

Mae cyfle i’r BBC wasanaethu’r grŵp anoddach ei gyrraedd hwn ar-lein yn well. Ar Facebook, Twitter, Instagram, YouTube a Snapchat, y BBC yw’r sefydliad newyddion sy’n cael ei ddilyn amlaf o hyd, ond ar hyn o bryd mae cynulleidfaoedd iau yn ymgysylltu llai nag oedolion eraill â’r hyn mae’r BBC yn ei gynnig yno.[59] Roedd y BBC yn cydnabod hyn yn ei Gynllun Blynyddol, gan nodi bod angen iddo foderneiddio arlwy ar-lein newyddion y BBC, gan gynnwys ei ap, yn rhannol drwy sicrhau bod ei newyddiaduraeth ar gael yn haws, yn ddifyr ac yn addas i gynulleidfaoedd iau, gan barhau i wasanaethu ei gynulleidfaoedd presennol.

Mae ffynonellau newyddion y BBC yn cael eu defnyddio gan 51% o blant 12-15 oed, ond maent yn defnyddio ffynonellau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion yn aml hefyd. Mae chwech o’r deg prif ffynhonnell newyddion ar gyfer y grŵp hwn yn ffynonellau cyfryngau cymdeithasol, gyda YouTube, Facebook ac Instagram yn cael eu defnyddio gan dri o bob deg plentyn 12-15 oed. Mae ffynonellau newyddion y BBC yn ddibynadwy iawn ym marn plant sy’n eu defnyddio ar gyfer newyddion, sef 84% ar gyfer BBC Radio 1 a *Newsbeat*, 85% ar gyfer BBC One a BBC Two a 93% ar gyfer gwefannau ac apiau’r BBC a CBBC. Mae hyn yn cymharu’n ffafriol â ffynonellau eraill mae plant yn eu defnyddio, yn enwedig ffynonellau cyfryngau cymdeithasol. Twitter yw’r unig ffynhonnell cyfryngau cymdeithasol sy’n cael ei defnyddio gan blant ar gyfer newyddion sydd â lefelau ymddiriedaeth dros 50% (mae 53% o blant yn ymddiried ynddi).[60]

Mae’r BBC eisoes wedi cymryd camau i gysylltu â chynulleidfaoedd iau yn y mannau lle maent, drwy symud mwy o’i gynnwys newyddion i blant ar-lein. Mae adran Diben Cyhoeddus 2 yn trafod hyn yn fanylach, gan nodi bod y defnydd o *Newsround* ar-lein wedi cynyddu ymysg ei gynulleidfa darged. Mae’r BBC yn bwriadu cymryd camau pellach i gynyddu ymgysylltiad â rhai rhwng 16 a 24 oed drwy ailgynllunio ei ap newyddion a chyflwyno personoleiddio i greu argymhellion wedi eu teilwra. Wrth wneud y newidiadau hyn, dylai’r BBC ystyried sut mae mynd i’r afael â’r pryderon ynghylch personoleiddio y mae wedi tynnu sylw atynt yn ei Gynllun Blynyddol yng nghyswllt cyd-gasglu newyddion; bod perygl y bydd effaith ‘siambr atsain’, lle dewisir newyddion ar sail safbwynt sy’n bodoli’n barod. Rydym yn deall nad oes gan y newidiadau hyn amserlen sefydlog felly byddwn yn parhau i’w monitro.

[58] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020
[59] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020
[60] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Plant 2020.

## Mae’r BBC wedi gweithredu ar ein hargymhelliad ar gysylltu â ffynonellau ar-lein y tu allan i’r BBC

Roedd ein hadolygiad newyddion y llynedd yn nodi bod darparu dolenni mewnol o fewn BBC Ar-lein yn darparu gwasanaeth pwysig i ddefnyddwyr ar-lein, gan gysylltu darllenwyr â chanllawiau esbonio defnyddiol ochr yn ochr â dadansoddiadau a sylwebaeth fanwl. Fodd bynnag, roeddem wedi dweud y gallai’r BBC ddarparu mwy o ddolenni at gynnwys trydydd parti allanol, a fyddai’n cyflawni diben pwysig arall o gefnogi’r diwydiant ehangach a darparu cyfoeth o wybodaeth i ddefnyddwyr, fel sy’n ofynnol yn ôl ei amod trwydded weithredu yn y maes hwn.

Ar ôl cyhoeddi ein hadolygiad o newyddion, fe wnaethom ymgysylltu â’r BBC ynghylch hyn. Esboniodd y BBC ei broses gydymffurfio newydd, a dywedodd ei bod hi bellach ar waith. Cadarnhaodd y byddai’n darparu rhagor o arweiniad i’w newyddiadurwyr i sicrhau y byddai dolenni a phriodoliad yn parhau i gael eu darparu ar draws ei gynnwys newyddion ar-lein. Yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, cadarnhaodd y BBC unwaith eto ei fod yn parhau i ddarparu dolenni at straeon allanol a ddarparwyd gan ddarparwyr newyddion lleol a rhanbarthol, ac roedd yn cynnwys hyn yn ei dudalennau pwnc newydd.



# Diben Cyhoeddus 2

**Mae gan y BBC ddyletswydd i helpu pawb yn y Deyrnas Unedig i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd a fydd yn hwylus iddynt, yn ddifyr, yn ysbrydoli ac yn heriol. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu cynnwys dysgu anffurfiol i oedolion a phlant, yn ogystal â dysgu ffurfiol i blant a phobl ifanc yn eu harddegau.**

---

## Prif ganfyddiadau:

- Mae cynulleidfaoedd yn rhoi'r sgôr uchaf i'r Diben Cyhoeddus hwn, gydag ychydig yn llai na dwy ran o dair (63%) o oedolion yn cytuno fod y BBC yn dda am ddarparu cynnwys dysgu. Mae llawer hefyd yn credu bod cynnwys y BBC yn y maes hwn, yn enwedig ei arlwy addysgol ffurfiol (BBC Bitesize a BBC Teach), yn unigryw.
- Mae cyfanswm darpariaeth rhaglenni dysgu anffurfiol y BBC ar gyfer oedolion ar y teledu wedi cynyddu, er bod nifer y rhaglenni newydd sydd ar gael yn gostwng. Er 2010, bu gostyngiad o 25% mewn oriau a ddarlledir am y tro cyntaf ac mae'r gwariant wedi gostwng i'w lefel isaf yn ystod y cyfnod. Mae'r amrywiaeth hwn o gynnwys yn hanfodol i'r ffordd mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac nid yw'n cael ei ddarparu gan unrhyw ddarlledwr arall yn y Deyrnas Unedig ar yr un lefel.
- Mae'r BBC wedi cymryd camau i ymateb i'r her o ddal gafael mewn cynulleidfaoedd drwy fuddsoddi yn ei gynnwys ar-lein; mae arwyddion cadarnhaol ei fod yn ymgysylltu â phlant ar-lein - er enghraifft, ar BBC iPlayer.
- Mae defnyddwyr BBC Bitesize yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn yn ei gylch, gyda 90% yn cytuno ei fod yn cynnig rhywbeth nad yw darparwyr eraill yn ei wneud.
- Mae rhagor o fanylion am y data y tu ôl i'r asesiad hwn ar gael yn yr Adroddiad Perfformiad rhyngweithiol.

Mae'r BBC yn darparu cynnwys dysgu anffurfiol i oedolion ar draws pob llwyfan, ac i blant yn bennaf ei sianeli teledu penodol i blant (CBBC, sydd wedi ei anelu at blant 6-12 oed, a CBeebies, sydd wedi ei anelu at blant 0-6 oed), er bod mwy a mwy o gynnwys ar BBC iPlayer, gwefan y BBC ac apiau a gemau penodol. Darperir addysg ffurfiol i blant a phobl yn eu harddegau drwy BBC Bitesize yn bennaf, a darperir adnoddau ar gyfer athrawon drwy BBC Teach. Wrth gyflawni Diben Cyhoeddus 2, mae'r Siarter yn nodi y dylai'r BBC hefyd annog pobl i archwilio pynciau newydd drwy bartneriaethau â sefydliadau addysgol, chwaraeon a diwylliannol.

Mae argyfwng Covid-19 wedi taflu goleuni ar rôl hollbwysig y BBC fel darparwr cynnwys dysgu i oedolion a phlant yn y Deyrnas Unedig. Mae ymateb y BBC i'r argyfwng wedi ei nodi yn y blwch isod.

## Effaith Covid-19 ar gyflawni Diben Cyhoeddus 2 y BBC

Mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud a chau ysgolion ym mis Mawrth eleni, cynyddodd y BBC faint o gynnwys dysgu oedd ar gael yn sylweddol, a darparodd y cynnwys hwnnw mewn ffyrdd a oedd yn galluogi cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig i gael gafael arno.

**Cynnwys dysgu ffurfiol i blant**

Yn ystod argyfwng Covid-19 cynyddodd y BBC ei ddarpariaeth o gynnwys addysgol arbenigol. Cafodd y cynnwys dysgu ychwanegol a ddarparwyd ei deilwra i bob un o'r gwledydd ac roedd ar gael ar draws holl lwyfannau'r BBC i sicrhau nad oedd plant sydd â mynediad cyfyngedig (neu heb fynediad o gwbl) at y rhyngrwyd ar eu colled. Roedd deunydd newydd yn cynnwys *Bitesize Dyddiol*, rhaglen wedi ei hanelu at blant 5-14 oed ac a oedd ar gael drwy'r botwm coch ac ar BBC iPlayer, *Gwersi Dyddiol Bitesize*, a oedd yn darparu adnoddau ychwanegol ar wefan y BBC, a dau bodlediad dyddiol ar BBC Sounds wedi eu hanelu at ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd.

Cafodd y newidiadau hyn dderbyniad da gan gynulleidfaoedd. Roedd cyrhaeddiad BBC Bitesize wedi mwy na dyblu yn ystod yr argyfwng, gan godi o 1.9 miliwn o borwyr wythnosol ar gyfartaledd yn ystod y tymor ar draws Ebrill/Mai 2019 i 4.5 miliwn yn yr un cyfnod yn 2020.[61] Roedd nifer wythnosol yr ymweliadau pori â safle BBC Teach yn ystod yr argyfwng wedi cyrraedd 763,000 yn ystod mis Ebrill 2020, i fyny o 190,000 ym mis Ionawr/Chwefror eleni.[62]

Mae ymateb y BBC yn dangos pa mor dda y gall ddarparu cynnwys dysgu ac yn tanlinellu pwysigrwydd ei ymrwymiad yn y maes hwn. Mae hefyd yn dangos gallu'r BBC i ymateb yn gyflym i newidiadau yn y galw gan gynulleidfaoedd a gweithio gyda thrydydd partïon, gan gynnwys yr Uwch Gynghrair, Grŵp yr Amgueddfa Wyddoniaeth, y Royal Shakespeare Company a Puffin Books. Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu ystyried yr hyn mae wedi ei ddysgu yn ystod y cyfnodau hyn wrth feddwl am yr hyn y gall ei wneud i siapio BBC Bitesize yn y dyfodol.

[61] Data gweinydd mewnol y BBC. Nodyn: bydd porwr yn cael ei gyfri pryd bynnag y bydd rhywun yn mynd i mewn i'r safle.
[62] Data gweinydd mewnol y BBC. 190,000 o borwyr yn ystod pum wythnos gyntaf tymor 2020.

**Cynnwys dysgu anffurfiol i oedolion a phlant**

Darparodd y BBC amrywiaeth eang o gynnwys dysgu anffurfiol i oedolion a phlant ar ddechrau'r cyfyngiadau symud. Roedd hyn yn cynnwys rhaglenni a chynlluniau i ddarparu cyngor a chefnogaeth, fel *HealthCheck UK Live* ar BBC One ac ail-dargedu gwefan BBC Food ynghylch casgliadau o ryseitiau y gellid eu gwneud gyda chynhwysion sylfaenol, yn ogystal â *Culture in Quarantine*, gwasanaeth celf a diwylliant eang wedi ei greu gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Lloegr ac eraill. Er bod llawer o gynyrchiadau wedi cael eu gohirio oherwydd Covid-19, comisiynodd y BBC raglenni plant ychwanegol yn gyflym i adlewyrchu'r 'cyfnod eithriadol mae plant yn byw ynddo'. Roedd hefyd yn fodd o gynyddu cyfranogiad cynulleidfaoedd gyda rhai o'i elfennau presennol - er enghraifft, drwy '6 Bathodyn Haf' Blue Peter' a ddenodd 42,000 o geisiadau dros y chwe wythnos y cynhaliwyd y cynllun.

## Diben 2: Cefnogi dysgu ymysg pobl o bob oedran




### Mae'r BBC yn darparu llai o oriau o gynnwys dysgu anffurfiol ar gyfer oedolion sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar y teledu, ac yn gwario llai arno, er bod cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi'r cynnwys sydd ar gael

Mae'r BBC yn darparu cynnwys dysgu anffurfiol mewn amrywiaeth o genres, sy'n cynnwys rhai mathau o gynnwys ffeithiol arbenigol, fel y celfyddydau, cerddoriaeth, crefydd, gwyddoniaeth, natur, busnes a hanes. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhaglenni fel *Seven Worlds One Planet, Who Do You Think You Are?* a *The Planets* ar BBC TV a BBC iPlayer, ac *In Business, Front Row* a *The Kitchen Cabinet* ar radio'r BBC a BBC Sounds. Ystyrir bod y genres hyn hefyd yn gyffredinol ymysg y genres 'mewn perygl', sydd wedi eu nodi'n fanylach yn yr adran ar Ddiben Cyhoeddus 3.


Er 2010, mae oriau cynnwys dysgu anffurfiol gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig i oedolion ar y teledu sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi gostwng tua 25%, er bod cyfanswm yr oriau (h.y. ailddarllediadau a rhaglenni sy'n cael eu prynu) wedi cynyddu.[63] O ganlyniad, roedd 79% o allbwn

[63] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Fodd bynnag, mae cyfanswm yr oriau'n weddol sefydlog o'i gymharu â 2013. Roedd cynnydd mawr rhwng 2012 a 2013, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn cynnwys yn cael ei ailadrodd ar BBC Two a BBC Four.

dysgu anffurfiol y BBC yn ail-ddarllediadau yn 2019 (roedd 2% yn rhaglenni a brynwyd), i fyny o 71% yn 2010 (pan roedd 1% yn rhaglenni a brynwyd). Mae cyfanswm y gwariant ar raglenni dysgu anffurfiol wedi gostwng hefyd (er 2016) ac mae nawr ar ei isaf yn y cyfnod er 2010.[64]

Mae'r rhan fwyaf o genres dysgu anffurfiol wedi gweld gostyngiad mewn oriau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, er bod y cyfraddau'n amrywio. Er enghraifft, mae rhaglenni celfyddydau a cherddoriaeth glasurol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi gostwng 21% er 2018 a 44% er 2010. Roedd dirywiad eleni yn rhannol oherwydd cynnydd yn oriau'r flwyddyn flaenorol (2018) pan ddarlledwyd y gyfres hanes celf untro *Civilisations*, er bod llai o deitlau celf newydd wedi cael eu cyflwyno yn 2019, a llai o oriau o gyfresi sy'n dychwelyd fel *Imagine*... a *Mark Kermode's Secrets of Cinema*. Roedd rhaglenni hanes a ddarlledwyd am y tro cyntaf wedi gostwng 25% er 2018, a 45% er 2010. Er bod oriau rhaglenni natur a bywyd gwyllt newydd wedi cynyddu 12% eleni, roeddent yn is wrth ystyried y tymor hwy; gymaint â 22% er 2010.

**Ffigur 9: Oriau gwreiddiol o gynnwys teledu dysgu anffurfiol i oedolion sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC*

Er gwaethaf y dirywiad, mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel i ddarpariaeth cynnwys dysgu anffurfiol i oedolion y BBC ar y teledu. Mae tua thri chwarter gwylwyr rheolaidd neu achlysurol pob sianel yn canmol y BBC am ddarparu rhaglenni diddorol am hanes, gwyddoniaeth neu'r celfyddydau ar BBC One, BBC Two a BBC Four.[65] Roedd llai o wylwyr yn canmol ITV (51%) a Channel 4 (62%) dan yr un datganiad.[66]

Mae'r duedd gyffredinol o ran gwylio genres dysgu anffurfiol i oedolion ar deledu sy'n cael ei ddarlledu yn gostwng, ond mae'n dal i thir ychydig yn well na rhai genres eraill. Er enghraifft, genre 'diddordebau hamdden' BARB (sy'n cynnwys rhaglenni fel *Top Gear, The Repair Shop* ac *Antiques*

[64] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC
[65] Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2019 (69% sgôr rhwng 7 a 10 ar gyfer BBC One; 79% ar gyfer BBC Two a 74% ar gyfer BBC Four)
[66] Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2019. Mae ITV yn cynnwys STV/UTV/ITV Cymru.[67] BARB

*Roadshow*) oedd yr ail genre a wyliwyd fwyaf (ar ôl newyddion) wrth gyfri pob oedolyn yn 2019, ac mae'n perfformio'n arbennig o dda ymysg pobl dros 34 oed a chynulleidfaoedd C2DE. Ond yn gyffredinol, mae cynulleidfaoedd ABC1 yn fwy tebygol na'r rhai yng ngrwpiau C2DE o wylio genres dysgu anffurfiol, ac mae pob genre yn perfformio'n well ymysg cynulleidfaoedd Gwyn nag y maent yn achos cynulleidfaoedd o gefndir lleiafrif ethnig.[67]

Yn unol â'n canfyddiadau sy'n ymwneud â genres 'mewn perygl', sydd wedi eu nodi yn yr adran isod ar Ddiben Cyhoeddus 3, mae'r amrywiaeth hwn o gynnwys yn hanfodol i'r ffordd mae'r BBC yn cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, yn enwedig gan fod tystiolaeth bod genres dysgu anffurfiol penodol yn taro tant gyda gwahanol grwpiau o gynulleidfaoedd.

### Mae'r BBC yn parhau i ddarparu cynnwys dysgu anffurfiol ar-lein ac ar y radio, er ei fod bellach yn fwy tebygol o fod ar gael ar BBC iPlayer, BBC Sounds a newyddion y BBC nag ar rannau penodol o wefan y BBC

Mae gan bob un o'r gwasanaethau hyn gategorïau genres dysgu anffurfiol. Dywedom y llynedd er bod y tudalennau gwe pwrpasol ar gyfer pynciau dysgu anffurfiol ar y wefan yn llawn cynnwys, nid oedd yn hawdd dod o hyd iddynt. Er bod gan y BBC dudalennau gwe penodol o hyd ar gyfer pynciau fel cerddoriaeth a chelfyddydau ar bbc.co.uk, mae wedi dweud wrthym ei fod nawr yn darparu mwy o gynnwys dysgu anffurfiol drwy BBC iPlayer, BBC Sounds a newyddion y BBC er mwyn ceisio cynyddu effaith y gynulleidfa. Yn unol â hyn, mae'r BBC yn ceisio dod â'r holl gynnwys ar bwnc penodol at ei gilydd mewn un lle er mwyn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd mwy na dim ond y rhai sy'n gyfarwydd â genre penodol.

Mae'r BBC hefyd yn darparu amrywiaeth o gynnwys dysgu anffurfiol ar y radio, fel *Science Stories* ac *In Our Time*, a thrwy bodlediadau ar BBC Sounds. At ei gilydd, roedd 447 o benodau, sy'n cyfateb i 212 awr o gynnwys llafar newydd ffeithiol na ddarlledwyd yn flaenorol ar radio byw (gan gynnwys pynciau fel y celfyddydau, diwylliant a'r cyfryngau, bwyd a diod, hanes, gwyddoniaeth a natur a theithio), ar gael drwy gydol y cyfnod adrodd.[68] Roedd hyn yn fwy nag unrhyw genre arall. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl rhoi sylwadau ar berfformiad cynnwys dysgu anffurfiol ar BBC Sounds yn ehangach oherwydd nad yw'r BBC yn adrodd ar berfformiad yn ôl genre. Fel y soniwyd, yn adran Edrych i'r dyfodol yr adroddiad hwn, bydd system fwy cynhwysfawr o fesur perfformiad gwasanaethau ar-alw y BBC yn caniatáu iddo egluro'n well sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn a'u cyfraniad at y Dibenion Cyhoeddus.

### Mae'r BBC yn cael rhywfaint o lwyddiant yn dal gafael yn ei gynulleidfaoedd o ran ei gynnwys i blant ar BBC iPlayer, ond Netflix ac YouTube yw'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio fwyaf o hyd.


Mae sianeli teledu CBBC a CBeebies yn cael sgôr uchel gan y rhai sy'n eu gwylio[69], a nhw yw'r sianeli plant a ddarlledir ar y teledu a wylir amlaf o hyd yn achos eu cynulleidfaoedd targed. Mae ein dadansoddiad hefyd yn dangos bod amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd yn gwylio'r sianeli. Fodd bynnag, yn ôl BARB, mae'r nifer sy'n gwylio'r sianeli hyn wedi parhau i ostwng. Mae llai nag 20% o blant 6-12 oed yn gwylio sianel CBBC ar y teledu bob wythnos, ac mae'r amser a dreulir yn gwylio'r

[67] BARB
[68] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC
[69] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.[70] Kids Insights UK

sianel hefyd wedi parhau i ostwng, gan ostwng i 4 munud ar gyfartaledd bob dydd, i lawr o 11 munud yn 2010. Mae nifer y plant sy'n gwylio sianel CBeebies yn uwch, sef 37% o blant 4-6 oed, ond mae hefyd wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae’r gostyngiad yn nifer y plant sy’n gwylio teledu’r BBC yn unol â thueddiadau cyffredinol y byd teledu. Mae sianeli plant eraill yn gweld gostyngiad tebyg o ran cyrhaeddiad a’r amser sy’n cael ei dreulio’n gwylio, ac mae cyfanswm y teledu sy’n cael ei wylio gan blant o bob oed wedi parhau i ostwng dros y deng mlynedd diwethaf.


**Ffigur 10: Cyrhaeddiad wythnosol CBBC a Cbeebies ar gyfartaledd**




*Ffynhonnell: BARB. Meini prawf cyrhaeddiad: 3 munud a mwy yn olynol, yn oriau darlledu’r sianel. Mae'r saethau'n dangos gostyngiad yn y cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o'r flwyddyn flaenorol yn achos CBeebies a CBBC. Mae 0-3 oed yn defnyddio ‘Gwr/gwraig tŷ gyda phlentyn 0-3 oed’ BARB fel procsi ar gyfer y gynulleidfa hon.*

Mae plant yn dal i ddefnyddio cynnwys teledu a fideo, ond maent yn gwneud mwy a mwy o hynny ar-lein. Mae rhan fawr o hyn yn digwydd drwy wasanaethau fideo ar-alw. Er mai Netflix ac YouTube yw'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio fwyaf o bell ffordd, mae BBC iPlayer yn dal i gael ei ddefnyddio mwy na gwasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ac mae wedi tyfu yn 2019/20.[70]

**Ffigur 11: Darparwyr teledu y dewisodd plant 6-12 oed a 13-16 oed eu gwylio yn 2019/20**




*Ffynhonnell: Kids Insights UK, Ebrill 2019 – Mawrth 2020. Cwestiwn amlddewis: Pa rai o'r llwyfannau teledu hyn ydych chi'n eu defnyddio?*
*Sail: 6-12 oed: 4,900; a 13-16 oed: 2,800*

Canfu dadansoddiad y BBC o'i ddata ei hun fod y defnydd o gynnwys plant y BBC ar draws y teledu, BBC iPlayer ac ar-lein wedi aros yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall ar gyfer plant 0-6 oed, ond bu cynnydd yn achos plant 6-12 oed; gan godi o 52% yn 2018 i 58% yn 2019. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn y lefelau gwylio ar BBC iPlayer a BBC iPlayer Kids.[71]

O ystyried y newidiadau yn arferion plant o ran y cyfryngau, a'r amrywiaeth gynyddol o gynnwys ar-lein sy'n cael ei ddarparu gan ddarparwyr eraill, mae'n anochel y bydd plant yn treulio llai o amser yn gwylio teledu'r BBC a mwy o amser ar-lein. Gyda mwy o ddewis i gynulleidfaoedd, mae'n bwysig bod y BBC yn cynnig rhywbeth gwahanol i blant o bob oed er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn ddewis amlwg.

## Mewn ymateb i'r her hon, mae'r BBC wedi bod yn ehangu ei arlwy ar-lein ehangach ar gyfer plant

Dair blynedd yn ôl, cyhoeddodd y BBC fuddsoddiad gwerth £34 miliwn yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2017/18, a dywedodd y BBC wrthym ei fod wedi mynd tuag at gynnig ar-lein gwell, gan gynnwys datblygu pedwar ap CBeebies, dau ap CBBC newydd (*CBBC Buzz*, sydd wedi cau ers hynny gan nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n ddigon aml, ac ap *Own It*) a gemau fel *Nightfall*.

[70] Kids Insights UK
[71] Ymchwil y BBC [72] Data YouTube a ddarparwyd gan y BBC

Mae'r BBC yn darparu cynnwys i blant ar YouTube, er mai cynnwys hyrwyddo byr yn bennaf yw hwn, sydd â'r nod o arwain gwylwyr yn ôl at lwyfannau'r BBC, yn hytrach na rhaglenni llawn. Yn ogystal, mae gan y BBC ddetholiad o sianeli YouTube sydd wedi eu hanelu at blant, gan gynnwys sianeli ar gyfer CBBC a CBeebies, yn ogystal â sianeli penodol ar gyfer rhaglenni penodol, fel *Blue Peter* a *Newsround*. Mae sianel CBBC yn denu 1.5 miliwn o ymweliadau fideo bob mis ar gyfartaledd yn y Deyrnas Unedig, ac mae sianel CBeebies yn denu 15.7 miliwn o ymweliadau fideo bob mis ar gyfartaledd yn y Deyrnas Unedig.[72]

Mae'r BBC hefyd yn darparu rhywfaint o gynnwys sain i blant ar BBC Sounds a thrwy CBeebies Radio, sydd ar gael ar-lein. Yn 2019/20, roedd 52 pennod o bodlediadau wedi eu categoreiddio fel 'plant/dysgu' [73] ar gael ar BBC Sounds, sef 17.5 awr o gynnwys llafar newydd nad oedd wedi cael ei ddarlledu'n flaenorol ar radio byw.[74]

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y defnydd o gynnwys ar-lein y BBC ar gyfer plant, a lefelau bodlonrwydd o ran y ddarpariaeth, yn cynyddu. Ar gyfer ein Datganiad Plant y BBC, rhoddodd y BBC ddata i ni sy'n dangos bod y defnydd o Newsround ar-lein yn parhau i gynyddu – i fyny o 152,000 o ddefnyddwyr unigryw yn 2014 i ychydig dros filiwn ar draws 2019. Yn ogystal, apiau gemau CBBC a CBeebies yw'r dewis mwyaf poblogaidd o apiau gemau symudol ar gyfer plant 3-7 oed.[75] Mae'r BBC wedi dweud wrthym fod 38 o gemau wedi cael eu darparu ar gyfer plant yn 2019/20, ac roedd naw ohonynt yn gysylltiedig â BBC Bitesize.

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod defnyddwyr yn gadarnhaol am rai o wasanaethau ar-lein y BBC i blant ac o'r farn eu bod yn unigryw. Mae BBC iPlayer a BBC iPlayer Kids, yn ogystal â gwefannau ac apiau CBeebies, i gyd yn cael sgôr uchel gan y rhai sy'n eu defnyddio am gynnig rhywbeth nad yw darparwyr eraill yn ei gynnig.[76] Mae'n bwysig bod y BBC yn sicrhau bod ei gynnwys ar gael lle mae plant ei eisiau fel eu bod yn parhau i ymgysylltu ag ef.

### Rydym wedi gwneud newidiadau i'r Drwydded Weithredu er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC o ran sut mae'n darparu ei gynnwys i blant

Yn 2019, gofynnodd y BBC am ganiatâd i ddiwygio ei Drwydded Weithredu er mwyn darparu mwy o newyddion i blant a chynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar-lein. Fe wnaethom gyhoeddi datganiad ym mis Gorffennaf eleni, yn nodi ein penderfyniad terfynol i dderbyn cynigion y BBC, gyda mesurau diogelu penodol, i sicrhau bod y BBC yn cynnal ansawdd ei allbwn i blant ar draws ei lwyfannau. Daeth yr amrywiad i'r Drwydded i rym ar yr un diwrnod.

Yn gyffredinol, rydym ni o'r farn ei bod yn gwneud synnwyr i'r BBC ddarparu rhangor o'i gynnwys i blant ar-lein. O ystyried y newidiadau yn y ffordd y mae plant yn gwylio'r cyfryngau, gallai hyn helpu'r BBC i ymgysylltu'n well â'i gynulleidfaoedd iau, a fydd yn hanfodol i'w lwyddiant yn y

[72] Data YouTube a ddarparwyd gan y BBC
[73] Mae gan BBC Sounds dudalennau categori ar blant a dysgu. Mae plant yn cynnwys adloniant a chomedi (*Sarah and Duck*), drama (*The Tracy Beaker Podcast*), cerddoriaeth (*Tee and Mo*), gweithgareddau (*Poety Playtime*), ffeithiol (*Scotland's Animals*) a chwaraeon. Mae dysgu'n cwmpasu cynnwys sydd wedi ei anelu at blant cyn oed ysgol, cynradd, uwchradd ac oedolion.
[74] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC
[75] Kids Insights UK
[76] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC. [77] Data gweinydd mewnol y BBC. Rhwng mis Medi 2018 a mis Mawrth 2019 a mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020.

dyfodol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y tueddiadau a nodwyd gennym (ac yr ydym wedi eu nodi uchod), o blant yn symud oddi wrth wylio teledu sy'n cael ei ddarlledu at fwy o wylio ar-lein, wedi parhau yn ystod argyfwng Covid-19. Cynyddodd y defnydd o gynnwys CBBC a CBeebies ar BBC iPlayer yn sylweddol yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Dywedodd y BBC wrthym hefyd fod gwefan *Newsround* wedi cael dwy o'i wythnosau uchaf erioed yn ystod y cyfyngiadau symud, tra mae gwylio'r bwletinau ar y teledu wedi parhau i ostwng.

Wrth gytuno â'r cynigion, roeddem wedi dweud ein bod yn disgwyl i'r BBC sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i ddangos sut mae'n cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ar draws pob llwyfan. Roeddem o'r farn y byddai angen i'r BBC fonitro sut mae wedi diwallu anghenion plant yn llwyddiannus gyda'i allbwn newyddion a chynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, gan gynnwys sut mae'r cynulleidfaoedd targed wedi ymgysylltu â'i gynnwys darlledu, ar-alw a chynnwys ar-lein arall. Byddwn yn monitro effaith y newidiadau hyn yn agos, ac rydym wedi ychwanegu metrigau newydd i'r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer y BBC.

### Mae BBC Bitesize yn dal i gael derbyniad da gan gynulleidfaoedd, yn dilyn newidiadau diweddar

Cynhaliodd y BBC adolygiad eang o BBC Bitesize yn 2018/19 ac rydym wedi ceisio deall mwy am yr effaith mae hyn wedi ei chael ar gynulleidfaoedd. Yn adroddiad blynyddol y llynedd, fe wnaethom nodi fod gwella BBC Bitesize ar y dechrau wedi canolbwyntio ar ddatblygiadau technolegol, tra bod newidiadau diweddarach wedi canolbwyntio ar ehangu cynnwys dysgu, cynnwys ar ddewisiadau gyrfa a chefnogi myfyrwyr y tu allan i'r cwricwlwm. Fel rhan o hyn, yn 2019-20 lansiodd y BBC Bitesize Careers and Bitesize Support (sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth am les, iechyd meddwl, gwaith cartref/cyngor ar adolygu, a dewisiadau 'camau nesaf' ar ôl gorffen yn yr ysgol). Yn ogystal, ehangodd ei gynnwys yn y gwledydd drwy lansio casgliadau newydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.




**BBC Bitesize Daily** (llun drwy garedigrwydd y BBC)

Mae data'r BBC yn dangos bod cyrhaeddiad pori wythnosol cyfartalog BBC Bitesize wedi cynyddu ers y llynedd, o tua 1.7 miliwn i tua 2 filiwn.[77] Mae'r BBC wedi dweud wrthym mai ei nod yw cynnal cyrhaeddiad pori wythnosol cyfartalog o dros 2 filiwn. Hefyd, mae ein hymchwil eleni yn dangos bod defnyddwyr BBC Bitesize yn dal yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth: Mae 90% o ddefnyddwyr yn cytuno bod BBC Bitesize yn cynnig rhywbeth nad yw darparwyr eraill yn ei wneud.[78]

Mae BBC Teach hefyd yn perfformio'n dda. Mae data gan y BBC yn dangos bod y cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog porwyr wedi mwy na dyblu wrth gymharu mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020, o 63,000 i 168,000.[79] Mae nifer yr adegau y gwyliwyd BBC Teach ar YouTube wedi cynyddu hefyd. Yn ystod tymor yr hydref 2019, roedd 1.3 miliwn o ymweliadau â fideos YouTube gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig bob mis ar gyfartaledd ar sianel BBC Teach, o'i gymharu â 923,000 yn yr un cyfnod yn 2018.[80] Mae'r BBC wedi gweithio i godi ymwybyddiaeth o BBC Teach. Mae ymchwil y BBC yn dangos bod ymwybyddiaeth a defnydd athrawon o BBC Teach wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol.

### Mae'r BBC hefyd yn cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed drwy bartneriaethau

Mae gan y BBC ddyletswydd i gydweithio mewn partneriaeth â sefydliadau diwylliannol, chwaraeon ac addysgol i annog pobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd. Yn ogystal â hyn, mae'r BBC yn defnyddio partneriaethau i helpu i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, gan eu bod yn gallu ategu neges y BBC, cynnig arbenigedd mewn sawl maes, a chyrraedd cynulleidfaoedd ehangach yn aml.

Yn 2019-20, cyfrannodd y BBC at 374 o bartneriaethau ledled y Deyrnas Unedig ac mewn amrywiaeth o feysydd, fel dysgu, radio, ymchwil a datblygu, celf, rhaglenni plant a cherddoriaeth. Mae'r enghreifftiau a amlygwyd yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC yn cynnwys partneriaeth BBC Academy â'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol, a thymor Iechyd Meddwl y BBC, pan fu'r BBC yn gweithio gyda'r Sefydliad Iechyd Meddwl, Iechyd Cyhoeddus Lloegr a Mind i gydlynu adnoddau a negeseuon i'r cyhoedd.

Gall partneriaethau'r BBC fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol ac maent yn cynnwys cydweithio gyda sefydliadau ar amcanion penodol. Mae'r BBC wedi dweud wrthym fod natur y cysylltiadau hyn yn amrywio, ac nad oes ganddo ddull safonol o fesur eu heffaith. Fodd bynnag, mae perfformiad rhai partneriaethau ffurfiol, hirsefydlog, fel y Brifysgol Agored, a phartneriaeth BBC Cymru â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn cael eu hasesu gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol ac allbynnau targed penodol. Mae'r gwaith sy'n deillio o bartneriaethau'r BBC yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni Diben Cyhoeddus 2 y BBC, er y gallai rhagor o wybodaeth am ei effaith ddangos yn gliriach fyth sut mae'r partneriaethau hyn yn helpu'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

[77] Data gweinydd mewnol y BBC. Rhwng mis Medi 2018 a mis Mawrth 2019 a mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020.
[78] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.
[79] Data gweinydd mewnol y BBC
[80] Data YouTube a gyflenwyd gan y BBC



# Diben Cyhoeddus 3

**Mae darparu allbwn creadigol, unigryw o ansawdd uchel yn ganolog i Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC. Dylai'r BBC ddarparu allbwn o ansawdd uchel ar draws amrywiaeth o genres, gwasanaethau a llwyfannau. Rhaid iddo arloesi a chymryd risgiau i wahaniaethu ei hun oddi wrth eraill.**

## Prif ganfyddiadau:

- Rydym yn dal i ganfod bod allbwn y BBC yn unigryw yn gyffredinol, gan ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys ar draws genres cymysg a gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau sy'n apelio at grwpiau cynulleidfa penodol a'r rhai heb ddarparwr tebyg.
- Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ansawdd, creadigrwydd a hynodrwydd y BBC yn dal yn eithaf uchel, er bod rhai gwahaniaethau sylweddol o hyd rhwng grwpiau cynulleidfaoedd.
- Mae gwariant y BBC ar raglenni gwreiddiol wedi parhau i ostwng dros amser, ac mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o arloesi a chymryd risg yn y BBC yn dal yn gymharol isel o'i gymharu ag agweddau eraill ar ei berfformiad.
- Mae darpariaeth gyffredinol y BBC o raglenni mewn genres sydd mewn perygl wedi aros yn sefydlog, ond mae'r gwariant a'r oriau o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y genres hyn wedi gostwng yn sylweddol er 2010. Yn y cyd-destun hwn bydd angen i'r BBC egluro i gynulleidfaoedd sut mae'n cynnal ei ymrwymiad cyffredinol i'r genres hyn ac yn sicrhau ei amlygrwydd. Er enghraifft, drwy ddangos effaith argaeledd cynyddol y rhaglenni hyn ar BBC iPlayer.
- Gyda BBC Sounds a BBC iPlayer, mae'r BBC yn parhau i ddarparu rhagor o gynnwys ar-lein. Fel rydym yn amlinellu uchod, wrth i'r BBC roi rhagor o bwyslais ar y gwasanaethau hyn, mae'n hanfodol ei fod yn gallu mesur eu cyfraniad at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol ac adrodd yn eu cylch.
- Mae rhagor o fanylion am y data y tu ôl i'r asesiad hwn ar gael yn yr Adroddiad Perfformiad rhyngweithiol.

## Effaith Covid-19 ar gyflawni Diben Cyhoeddus 3 y BBC

Chwaraeodd y BBC ran bwysig yn yr ymdrech i ddiddanu'r genedl yn ystod argyfwng Covid-19. Adroddodd y BBC ei fod wedi ailgyfeirio ei holl adnoddau tuag at anghenion mwyaf dybryd y cynulleidfaoedd yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Yn ogystal â darparu newyddion a gwybodaeth ddibynadwy a chywir, a llawer iawn o gynnwys addysg, parhaodd i ddiddanu cynulleidfaoedd drwy wneud penderfyniadau comisiynu cyflym a darparu cynnwys mewn ffyrdd newydd ac arloesol. Er enghraifft, comisiynu ail-greu *Talking Heads*, a gafodd ei ffilmio yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud, a chadw rhaglenni fel *The One Show* a *The Graham Norton Show* ar yr awyr.


Yn ogystal, darparodd ddigwyddiadau fel *Radio 1's Big Weekend* o bell, ac yn lle Glastonbury eleni, dangosodd ddeunydd archif ar y teledu ac ar BBC iPlayer. Cafodd rhaglenni Glastonbury a ddangoswyd ar BBC Two a BBC Four eu gwylio gan dros 15 miliwn o bobl ar setiau teledu.[81]

Adroddodd y BBC fod y defnydd o BBC iPlayer 60% yn uwch na'r un cyfnod y llynedd yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Roedd dau deitl drama wedi helpu BBC iPlayer i dorri record mewn misoedd olynol ar gyfer ceisiadau am raglenni misol, gyda 564 miliwn ym mis Ebrill 2020 ac yna 570 miliwn ym mis Mai (72% yn fwy o geisiadau na mis Mai 2019): Roedd *Normal People* wedi cael 54 miliwn o geisiadau erbyn diwedd mis Mehefin, ac roedd trydydd tymor *Killing Eve* wedi cael 35 miliwn. Cynyddodd arferion gwylio teledu hefyd yn ystod y cyfnod hwn, er ei fod wedi dychwelyd i lefelau cyn y cyfyngiadau symud dros yr haf, pan gafodd nifer o gyfyngiadau eu codi.

Ond bydd effaith y pandemig, gan gynnwys atal cynyrchiadau yn ystod y cyfyngiadau symud, yn effeithio ar ddarpariaeth y BBC o gymysgedd o genres yn y tymor byr. Mae wedi effeithio'n arbennig ar gynyrchiadau wedi eu sgriptio, gan gynnwys dramâu parhaus fel *EastEnders*, yn ogystal â rhaglenni byw yn sgil canslo neu ohirio digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol.

Mae'r BBC yn chwarae rhan bwysig iawn yn sector cynhyrchu'r Deyrnas Unedig. Fel y nodwyd yn ein pennod ar Effaith Covid-19, bydd yn cymryd amser i'r sector ddod i delerau ag effaith yr argyfwng: mae'r BBC mewn sefyllfa gref i gefnogi'r adferiad hwn. Nodwn y camau mae'r BBC wedi eu cymryd yn barod i gefnogi'r economi greadigol.

[81] BARB. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud yn olynol.




## Rydym yn dal o'r farn bod allbwn y BBC yn unigryw yn gyffredinol

Wrth asesu natur unigryw'r BBC, rydym ni'n ystyried ei gymysgedd o genres ac allbwn, ansawdd yr allbwn hwn, faint o raglenni gwreiddiol sy'n cael eu cynhyrchu yn y Deyrnas Unedig, lefel y mentro, arloesi, herio ac uchelgais creadigol, ac amrywiaeth y cynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu.

Mae ein hasesiad cyffredinol yn ystyried y BBC yn gyffredinol: mae'n darparu cynnwys o ansawdd uchel ar draws amrywiaeth o genres ar ei wasanaethau prif ffrwd, ei wasanaethau arbenigol a'r rhai heb ddarparwr y mae modd ei gymharu'n uniongyrchol. Er bod amrywiaeth gynyddol eang o ddewis ar gyfer cynulleidfaoedd, yn gyffredinol, mae gan y BBC safle unigryw yn nhirwedd cyfryngau'r Deyrnas Unedig.

## Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ansawdd, creadigrwydd a hynodrwydd y BBC yn dal yn eithaf uchel, er bod gwahaniaethau sylweddol o hyd rhwng rhai grwpiau cynulleidfaoedd.

Mae'r rhan fwyaf (61%) o gynulleidfaoedd yn canmol y ffordd mae'r BBC yn cyflawni Diben Cyhoeddus 3. Yn ôl demograffeg, ar draws pob un o'r meysydd o natur unigryw rydym ni'n holi yn eu cylch[82], mae'r canfyddiadau'n dal yn is ymysg cynulleidfaoedd DE. Mae safbwyntiau cynulleidfaoedd hefyd yn is ymysg pobl ag anabledd, sy'n cael eu sbarduno gan ddirywiad sylweddol ymysg pobl anabl iau (o dan 65 oed). Gwelwyd rhywfaint o welliant ymysg cynulleidfaoedd 65 oed a hŷn, gan sicrhau bod canfyddiadau cynulleidfaoedd yn cyd-fynd yn well â'r cyfartaledd, ac mae safbwyntiau cynulleidfaoedd yn yr Alban wedi gwella.[83]

[82] Y rhain yw: darparu cymysgedd eang o gynnwys; darparu cynnwys teledu, radio ac ar-lein o ansawdd uchel; darparu rhaglenni a chynnwys wedi eu gwneud yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig; defnyddio actorion, awduron a lleoliadau yn y Deyrnas Unedig; cymryd risgiau a darparu cynnwys arloesol; darparu cynnwys sy'n apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd gwahanol ar draws y Deyrnas Unedig; a darparu rhaglenni a chynnwys unigryw.

[83] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC

Canfu ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o sgwrs *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* Ofcom fod y BBC yn adnabyddus am gynnwys o ansawdd uchel a'i fod yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag awdurdod (yn cael ei weld fel ffynhonnell newyddion ddibynadwy) a threftadaeth ddiwylliannol y Deyrnas Unedig, ond mae'n bosibl bod rhai yn meddwl amdano fel gwasanaeth sydd ychydig yn 'ddiogel' ac yn waith caled ymdrin ag ef – heb y cynnwys teuluol mwy doniol neu hwyliog mae brandiau eraill yn ei wneud yn dda.

Dangosodd y BBC rai enghreifftiau cryf o ansawdd a chreadigrwydd yn ystod 2019/20, gyda rhaglenni fel *His Dark Materials, Seven Worlds One Planet* a *The Capture*, a phodlediadau fel *Have You Heard George's Podcast?* a *Forest 404*.

### Mae gwariant y BBC ar raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig ar draws ei sianeli teledu wedi gostwng, er bod gwariant trydydd parti yn cynyddu

Mae gwariant y BBC ar raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig yn ddangosydd pwysig o'i ymrwymiad i ddarparu amrywiaeth o gynnwys newydd i gynulleidfaoedd, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at natur unigryw'r BBC.

Yn 2019, gostyngodd gwariant y BBC ar raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar deledu'r BBC 6%, o £1.3 biliwn yn 2018 i £1.2 biliwn – gan barhau â'r duedd ar i lawr (mewn termau real fel y'i haddaswyd ar gyfer chwyddiant). Fodd bynnag, mae gwariant y BBC ar gynyrchiadau yn cael ei ategu gan gyllid gan drydydd partïon, gan gynnwys cytundebau cydgynhyrchu, credydau treth a thaliadau ymlaen llaw gan ddosbarthwyr. Ar draws pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae cyllid trydydd parti wedi mwy na dyblu dros y pum mlynedd diwethaf, o £269 miliwn yn 2014 i £549 miliwn yn 2019, ac mae hyn wedi cyfrannu at y duedd gynyddol yng nghyfanswm y buddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, a oedd yn parhau ar tua £3 biliwn dros y cyfnod hwn. Yn achos y BBC, mae buddsoddiad trydydd parti wedi parhau i gynyddu fel cyfran o gyfanswm ei wariant ac mae'n parhau i gael ei wario'n bennaf ar gynnwys drama, er bod cynnwys i blant a rhaglenni ffeithiol hefyd wedi denu buddsoddiad trydydd parti yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[84]

Yn ein dau adroddiad blynyddol cyntaf, dywedom ei bod yn hollbwysig bod y BBC yn parhau i ddarparu rhaglenni dilys ac amrywiol gyda straeon y Deyrnas Unedig sy'n taro tant â holl gynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig. Mae ymateb y BBC i'r her hon (a nodir yn ei Gynllun Blynyddol) yn datgan mai ei strategaeth *'yn hanfodol yw cynhyrchu llai o oriau o raglenni unigryw ac arloesol o ansawdd uchel er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl o leihau gwariant'*. Mae hefyd yn tynnu sylw at y swmp mawr o gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei gynhyrchu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, o'i gymharu â'r mwyafrif helaeth o raglenni SVoD, sy'n gynyrchiadau wedi eu gwneud yn UDA sydd wedi eu dylunio i'w darlledu mewn nifer o wledydd. Ym mis Mawrth 2020, roedd tua 373 awr o gynnwys gwreiddiol wedi ei gynhyrchu yn y Deyrnas Unedig ar Netflix ac Amazon Prime, o'i gymharu â 12,402 awr o raglenni gwreiddiol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (heb gynnwys newyddion) yn ystod 2019. Roedd hyn yn cyfateb i tua 5.6% o oriau gwreiddiol Netflix

[84] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr

a 5.7% o oriau gwreiddiol Amazon Prime a gynhyrchwyd yn y Deyrnas Unedig, ym mis Mawrth 2020.[85]

Fodd bynnag, rydym yn nodi bod risgiau'n gysylltiedig â defnyddio cyllid trydydd parti, oherwydd mae'n bosibl nad yw'n gynaliadwy, ac mae'n bosibl nad oes gan y BBC reolaeth olygyddol lawn. Mae faint o raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu cynhyrchu gan ddarparwyr SVoD yn cynyddu, a allai leihau'r cymhelliant iddynt ymuno â threfniadau cyd-gynhyrchu gyda darlledwyr fel y BBC. Ym mis Mawrth 2020, a heb gyfri cyd-gynyrchiadau gyda'r BBC, roedd 81 o deitlau gwreiddiol Amazon Prime neu Netflix wedi eu cynhyrchu yn y Deyrnas Unedig, o'i gymharu â 13 ym mis Mawrth 2017.[86]

### Er gwaethaf y gostyngiad mewn gwariant, mae darpariaeth y BBC o raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig wedi aros yn weddol sefydlog dros y deng mlynedd diwethaf

Cafodd 21,971 awr o raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf eu dangos ar deledu'r BBC yn 2019. Roedd hyn 2% yn is na 2018, ond ychydig yn uwch na 2017 (21,885 awr). Ond fel cyfran o gyfanswm oriau teledu'r BBC, mae rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi aros yn weddol sefydlog, sy'n cyfrif am ychydig o dan hanner. Ac er bod maint y buddsoddiad uniongyrchol gan y BBC yn dal i ostwng, yn 2019 roedd rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cynrychioli 94% o holl wariant teledu'r BBC, i fyny o 92% yn 2010. Dros y degawd diwethaf, mae cyfran y gwariant ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi aros yn weddol gyson, sy'n dangos bod y BBC yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni newydd er gwaethaf y cyfyngiadau o ran adnoddau.


Gyda mwy a mwy o gystadleuaeth gan ddarparwyr byd-eang, un o fanteision unigryw darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r BBC yn benodol yw ei allu i ddarparu cynnwys i gynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n adlewyrchu eu bywydau. Mae allbwn gwreiddiol, unigryw, arloesol o ansawdd uchel gan y BBC sy'n cynrychioli'r Deyrnas Unedig gyfan ac sy'n apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd yn bwysig os yw'r BBC am ddenu a chadw'r cynulleidfaoedd hyn.

[85] Ampere Analysis, cyrchwyd ym mis Tachwedd 2020. Mae data yn cyfeirio at gynnyrch gwreiddiol Netflix ac Amazon, a'r Deyrnas Unedig yw'r brif wlad gynhyrchu. Sylwch fod hyn yn cyfateb i fwy o deitlau ar Netflix (73) nag Amazon Prime (19), gan fod Netflix yn cynhyrchu mwy o deitlau gwreiddiol.

[86] Ampere Analysis, cyrchwyd ym mis Tachwedd 2020

**Ffigur 12: Oriau gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar deledu'r BBC 2010-2019**

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oriau o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf (% o gyfanswm oriau gwasanaethau teledu'r BBC) | 45% | 44% | 45% | 46% | 47% | 46% | 48% | 47% | 48% | 47% |
| Gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf (% o gyfanswm gwariant gwasanaethau teledu'r BBC) | 92% | 92% | 93% | 92% | 93% | 93% | 94% | 94% | 94% | 94% |




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Nodyn: Mae oriau gwreiddiol ar-lein yn unig wedi eu cynnwys er 2016. Mae deunydd ar-lein sy'n cael ei ddarlledu'n ddiweddarach ar deledu'r BBC yn cael eu cyfrif fel oriau gwreiddiol o deledu'r BBC. Mae'r ffigurau'n cynnwys BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBBC, CBeebies, BBC News, BBC Parliament, a rhaglenni gwreiddiol ar-lein yn unig drwy BBC iPlayer neu BBC Three. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau, na BBC HD.*

## Mae'r BBC yn darparu rhywfaint o gynnwys ar-lein yn unig

Yn 2019, darparodd y BBC 219 awr o raglenni gwreiddiol ar-lein yn unig, gyda llawer o hynny'n rhaglenni chwaraeon (62%). Mae wedi bod yn defnyddio BBC iPlayer i ddarparu amrywiaeth ehangach o arlwy chwaraeon, gydag enghreifftiau diweddar yn cynnwys ras seiclo V-Women's Tour, Pencampwriaethau Cwpan Dringo Prydain, a sylw i e-chwaraeon. Roedd gweddill y cynnwys ar-lein yn unig yn 2019 yn cynnwys darpariaeth adloniant a cherddoriaeth gyfoes yn bennaf (20% o oriau, gydag enghreifftiau yn cynnwys *Teen Taxi* ac *I'm Not Driving That with Ali-A*) a rhaglenni i blant (10%). O'r cyfanswm, cafodd 16 (7%) o'r oriau hyn eu dangos ar BBC Three.[87] Fel y nodwyd yn ein hasesiad o Ddiben Cyhoeddus 2, rydym wedi diwygio Trwydded Weithredu'r BBC er mwyn iddo allu darparu rhagor o newyddion i blant a chynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar-lein, felly rydym ni'n disgwyl i swm cynnwys ar-lein yn unig i blant gynyddu.

[87] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC

Er 2016, mae cyfanswm nifer y rhaglenni gwreiddiol ar-lein yn unig wedi aros yn sefydlog ar oddeutu 1% o gyfanswm y rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar sianeli teledu'r BBC ac ar-lein. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys teitlau sy'n cael eu rhyddhau ar-lein cyn cael eu dangos ar deledu sy'n cael ei ddarlledu, dull mae'r BBC yn ei ddefnyddio fwyfwy. (Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn oriau teledu'r BBC a nodir uchod). Yn ystod 2019/20, roedd hyn yn cynnwys rhywfaint o gyfresi'n cael eu rhyddhau'n syth yn eu cyfanrwydd, fel *Noughts + Crosses* ym mis Mawrth 2020.[88] Rydym ni hefyd yn nodi bod y BBC wedi defnyddio strategaethau eraill yn diweddar o ran rhyddhau ar-lein yn gyntaf, fel rhyddhau penodau cyfres yn wythnosol (fel y gwnaethpwyd gyda chyfres tri *Killing Eve* ym mis Ebrill 2020).

Mae darparu ar-lein (boed hynny ar-lein yn unig, ar-lein am y tro cyntaf neu ddal i fyny) yn ffordd bwysig o ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd, ac rydym yn nodi uchod ddarpariaeth y BBC o amrywiaeth o chwaraeon ar BBC iPlayer, gan roi mynediad i gynulleidfaoedd at amrywiaeth ehangach o gynnwys. Rydym yn annog y BBC i barhau i ystyried ffyrdd o gyrraedd gwahanol grwpiau cynulleidfa mewn gwahanol ffyrdd. Yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, mae'r BBC yn datgan mai'r flaenoriaeth fydd gwella ac ehangu BBC iPlayer, gan gynnwys argaeledd cynnwys a nodweddion arbennig, datblygiadau cynnyrch, marchnata a dosbarthu. Mae hefyd yn datgan y bydd yn rhyddhau mwy o'i gyfresi fel setiau bocs gyda'i gilydd er mwyn i gynulleidfaoedd allu penderfynu sut maent eisiau gwylio. Fel rydym ni'n ei nodi'n gynharach yn yr adroddiad hwn, yn y dyfodol bydd angen i'r BBC gael ffordd fwy cynhwysfawr o fesur perfformiad BBC iPlayer, er mwyn dangos sut mae wedi cyfrannu at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, ac egluro sut mae'n gweithio gyda gwasanaethau darlledu'r BBC.

### At ei gilydd, mae'r BBC yn parhau i ddarparu cymysgedd eang o allbwn ar y teledu


Mae cymysgedd cyffredinol y BBC o genres (gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, rhaglenni sy'n cael eu prynu ac ailddarllediadau) wedi aros yr un fath, gyda sbectrwm eang o gynnwys yn dal i fod ar gael i wylwyr. Yn 2019 cafwyd cynnydd mewn newyddion (i fyny 2% er 2018), ffeithiol cyffredinol (cynnydd o 11%) a drama (cynnydd o 14%). Roedd newyddion yn cyfrif am 45% o oriau teledu'r BBC, ac yna rhaglenni plant (21%) a rhaglenni ffeithiol arbenigol (8%).[89]

Canfu ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o sgwrs *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* fod y BBC yn adnabyddus am ddramâu unigryw o ansawdd uchel, comedïau eiconig a sylw i ddigwyddiadau cenedlaethol.

Yn ystod oriau gwylio brig, mae BBC One yn dal i ddarlledu amrediad mwy cyfartal o genres na'i gyffelyb agosaf, sef ITV. Yn 2019, roedd operâu sebon yn cwmpasu 22% o oriau brig ar ITV o'i gymharu â 13% ar BBC One, tra'r oedd adloniant yn cyfrif am 24% o oriau brig ITV o'i gymharu ag 11% ar BBC One.

[88] Ar ôl i'r bennod gyntaf o *Noughts + Crosses* gael ei darlledu ar y teledu, roedd gweddill y gyfres ar gael ar-lein
[89] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC

**Ffigur 13: Cyfanswm yr oriau yn ystod yr oriau brig: BBC One ac ITV: cymharu 2018 a 2019**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Sylwer: mae'r ffigurau'n cynnwys deunydd rhwydwaith ar draws rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, rhaglenni sy'n cael eu prynu, ac ailddarllediadau ar gyfer ITV a BBC One yn ystod yr oriau brig rhwng 18:00 a 22:30. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau.*

Mae gwylwyr yn dal i wylio amrywiaeth eang o genres ar deledu'r BBC, ac mae'r rhan fwyaf (64%) o oedolion yn canmol y BBC am ddarparu cymysgedd eang o wahanol fathau o raglenni a chynnwys teledu, radio ac ar-lein.[90] Newyddion, diddordebau hamdden, adloniant, chwaraeon a drama sy'n gyfrifol am y nifer fwyaf o wylwyr ar deledu darlledu'r BBC. Mae operâu sebon, drama ac adloniant yn cyfrif am gyfran llawer mwy o wylio na nifer yr oriau sy'n cael eu darlledu. Er enghraifft, roedd drama yn cyfrif am 2% o oriau teledu'r BBC a ddarlledwyd yn 2019 ond roedd yn cyfri am 8% o'r oriau gwylio oedolion.[91]

## Mae'r gwariant a'r oriau o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf mewn genres sydd mewn perygl wedi gostwng yn sylweddol er 2010


Mae'r BBC yn chwarae rhan bwysig o ran darparu rhaglenni mewn genres sydd mewn perygl. Mae'r rhain yn cynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, yn ogystal â chomedi, a rhaglenni plant.[92] Mae'r rhain yn gwneud cyfraniad sylweddol at natur unigryw'r BBC, ac maent yn llai tebygol o gael eu darparu mewn mannau eraill. Mae llawer o genres 'mewn perygl' hefyd yn bwysig o ran darpariaeth dysgu anffurfiol y BBC, fel y nodir yn ein hasesiad o Ddiben Cyhoeddus 2.

[90] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.
[91] BARB. Mae nifer yr oriau darlledu yn cyfeirio at bob awr, ailddarlledu a rhediadau cyntaf.
[92] Mae genres mewn perygl naill ai'n cyfrannu'n benodol at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, sydd ddim yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r genres rydym yn eu diffinio fel rhai 'mewn perygl' wedi eu nodi yn Atodlen 2 o'r Cytundeb.

Gostyngodd oriau genre mewn perygl a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf tua 6% y llynedd, gyda gostyngiad yn y ddarpariaeth o'r genres hyn i gyd, er bod y cyfraddau'n amrywio. Yn fwyaf nodedig, roedd 50 yn llai o oriau o gynnwys celf newydd yn 2019 nag yn 2018.[93] Er 2010 mae'r gostyngiad wedi bod yn fwy sylweddol, gydag oriau genres mewn perygl sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf i lawr 27%, tra mae oriau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf mewn genres eraill wedi cynyddu 2%. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn mewn oriau genres eraill wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan gynnydd yn y ddarpariaeth newyddion, ac mae chwaraeon hefyd wedi dylanwadu ar hyn, wrth i oriau darlledu amrywio yn ôl amlder digwyddiadau. Heb gyfrif newyddion neu chwaraeon, roedd cyfanswm yr oriau a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ar draws genres eraill hefyd wedi gostwng, er i raddau llai (i lawr 9% o'i gymharu â 2010).

Ochr yn ochr â'r gostyngiad mewn oriau 'mewn perygl' sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, gwelwyd gostyngiad mewn gwariant dros amser; roedd buddsoddiad yn 2019 4% yn is nag yn 2018, a 26% yn is nag yn 2010. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn y gwariant mewn perygl sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi bod yn unol â chyfanswm y buddsoddi mewn rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, sydd hefyd wedi gostwng 26% er 2010.[94]

**Ffigur 14: Oriau o genres mewn perygl sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf: 2010-2019**




| | % newid 2018-2019 | % newid 2010-2019 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **-6%** | **-27%** |
| Ffeithiol Arbenigol | -4% | -16% |
| Crefydd a Moeseg | -6% | -19% |
| Cerddoriaeth | -4% | -36% |
| Comedi | -7% | -41% |
| Plant | -1% | -24% |
| Y Celfyddydau | -24% | -47% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Nodyn: Mae'r ffigurau'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn unig ar draws teledu'r BBC. Mae 'rhaglenni ffeithiol arbenigol' yn cynnwys rhaglenni busnes a ffeithiol, hanes, natur, gwyddoniaeth a thechnoleg, a rhaglenni dogfen arbenigol eraill. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau, na BBC HD.*

[93] Rydym yn ystyried y gostyngiad yn oriau'r celfyddydau ymhellach yn ein hasesiad o Ddiben Cyhoeddus 2
[94] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC

### Mae cyfanswm y rhaglenni sydd mewn perygl (gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u prynu) wedi bod yn fwy sefydlog nag oriau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, gyda'r BBC yn parhau i ddangos mwy o'r cynnwys hwn na darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, yn gyffredinol

I raddau, mae'r gostyngiad mewn rhaglenni risg uchel sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi cael ei wrthbwyso gan ddarpariaeth weddol sefydlog o oriau sy'n cael eu hailddarlledu yn y genres hyn, gyda gostyngiad o 6% er 2010 yn bennaf oherwydd bod rhaglenni plant wedi cael eu tynnu oddi ar BBC One a BBC Two yn 2013.[95] Ar lefel gyfansymiau (gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu prynu a'u hailddarlledu), mae'r BBC yn parhau i ddarparu cynnwys llawer mwy 'mewn perygl' nag sydd ar gael mewn mannau eraill. Yn 2019, cafodd 15,529 awr o raglenni 'mewn perygl' eu darlledu ar draws sianeli teledu'r BBC, o'i gymharu â 5,822 awr ar draws ITV, Channel 4 a Channel 5 gyda'i gilydd.[96]

Yn 2019, darlledodd y BBC 1,768 awr o gynnwys mewn perygl gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf, o'i gymharu ag oddeutu 1,026 ar draws ITV, Channel 4 a Channel 5 gyda'i gilydd. Mae llawer o'r cynnwys hwn sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn ffeithiol arbenigol, sef 85% o'r oriau hyn yn 2019. Roedd y rhan fwyaf o'r oriau hyn yn 2019 yn dod y tu allan i gategorïau arbenigol penodol, gyda Channel 5 yn darparu'r rhan fwyaf ohonynt, drwy raglenni fel *Police Interceptors* a *GPs Behind Closed Doors*. Bydd ychwanegu Sky Arts at Freeview ym mis Medi 2020 yn darparu rhagor o gynnwys celf sydd ar gael am ddim y tu allan i deledu'r BBC; roedd gan Sky Arts 258 awr o gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf yn 2019, gan ddarparu dewis ychwanegol i gynulleidfaoedd mewn genres penodol.[97]

### Mae angen i'r BBC ddangos i gynulleidfaoedd sut mae'n cynnal ei ymrwymiad i genres sydd mewn perygl

Mae amrywiaeth cynnwys y BBC, gan gynnwys genres 'mewn perygl', yn hanfodol i'r ffordd mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus. Mae dadansoddiad o ddata BARB yn dangos bod gwylio genres mewn perygl (ac eithrio darpariaeth i blant) ymysg oedolion yn cyfrif am tua 9% o wylio teledu'r BBC yn 2019, ac mae'r lefel hon wedi bod yn weddol sefydlog er 2016. Mae cynulleidfaoedd 55 oed a hŷn yn fwy tebygol na'r cyfartaledd ar gyfer pob oedolyn o wylio rhaglenni dogfen gwyddonol/hanes naturiol neu raglenni crefyddol a chelfyddydol, ond mae cynulleidfaoedd 16-24 oed yn fwy tebygol na grwpiau oedran eraill (fel cyfran o'u hamser gwylio teledu gyda'r BBC) o wylio rhaglenni comedi'r BBC.

Fel y gwnaethom nodi yn y Trosolwg, bydd angen i'r BBC ganolbwyntio ar ddarparu cynnwys perthnasol, unigryw o ansawdd uchel sy'n apelio at yr amrywiaeth ehangaf posibl o gynulleidfaoedd. Gan fod mwy o gynnwys ar gael ar BBC iPlayer (oherwydd y ffenestr argaeledd hirach), mae gan y BBC gyfle i gael mwy o effaith gyda'i gynnwys ac i gyrraedd cynulleidfaoedd mewn ffordd arall, yn ychwanegol at deledu sy'n cael ei ddarlledu. O ystyried y gostyngiad mewn allbwn sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn y genres hyn, bydd angen i'r BBC allu egluro i gynulleidfaoedd sut mae'n cynnal ei ymrwymiad cyffredinol i raglenni sydd mewn perygl a sicrhau eu hamlygrwydd. Gan fod

[95] O'i gymharu â 2013, roedd ailddarlledu rhaglenni mewn perygl wedi gostwng 1%

[96] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr

[97] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr

hyn yn debygol o gynnwys y BBC yn rhoi mwy o bwyslais ar ei wasanaethau ar-alw, bydd mesur effaith y rhaglenni hyn ar BBC iPlayer yn dod yn bwysicach fyth.

### Mae'r argraffiadau o'r BBC yn arloesi a chymryd risg yn dal yn gymharol isel

Mae'n parhau i fod yn bwysig i'r BBC gymryd risgiau ac arloesi â'i gynnwys. Mae'r argraffiadau o'r BBC yn arloesi a chymryd risg yn dal yn gymharol isel ac nid ydynt wedi newid rhyw lawer. Yn 2019/20, er bod y rhan fwyaf o oedolion (55%) yn cytuno ei fod yn perfformio'n dda yn y maes hwn, dyma'r sgôr isaf o blith yr holl gwestiynau rydym ni'n eu gofyn am Ddiben Cyhoeddus 3, a dyma lle rhoddodd y gyfran uchaf o gynulleidfaoedd sgôr isel (1-4 allan o 10). Mae cynulleidfaoedd iau (16-24 oed) yn fwy tebygol o gytuno bod y BBC yn perfformio'n dda yn y maes hwn (64% yn cytuno).[98] Fel rydym yn tynnu sylw ato mewn mannau eraill, mae cynulleidfaoedd iau yn tueddu i chwilio am y cynnwys sy'n apelio fwyaf atynt, ac mae hyn yn debygol o ddylanwadu ar eu safbwyntiau.

Fe wnaethom ddweud yn gynharach yn yr adroddiad hwn ein bod yn deall y bydd angen i'r BBC dreialu ffyrdd newydd o wneud pethau, er mwyn dod o hyd i ffyrdd eraill o ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd. Rydym ni o'r farn bod lle i'r BBC wella ei ddulliau adrodd ar sut mae'n cymryd risgiau ac yn arloesi, fel rhan o'i esboniad o sut mae wedi cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Rydym hefyd yn annog y BBC i ystyried sut gall fesur effaith ei weithgareddau sy'n cyfrannu at arloesi, gan y gallai hyn ddarparu tystiolaeth i ategu ei gynlluniau i newid y ffordd mae'n darparu ei wasanaethau.

### Eleni, bu'r BBC yn gweithio gyda mwy o gynhyrchwyr, er ei fod yn dangos llai o deitlau newydd na'r llynedd

Gall y BBC ddangos ei fod yn cymryd risgiau ac yn arloesi drwy chwilio am syniadau newydd ar gyfer rhaglenni. Un dangosydd o sut mae'n gwneud hyn yw drwy weithio gyda darparwyr gwahanol i ddarparu cynnwys newydd ar ei sianeli teledu. Cynyddodd cyfanswm nifer y cwmnïau cynhyrchu y bu'r BBC yn gweithio gyda nhw yn 2019, gan gynnwys y rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau, o 328 yn 2018 i 360 yn 2019.[99] O'r rhain, roedd 282 yn gwmnïau cynhyrchu annibynnol cymwys, sy'n cyfrif tuag at gwota cynhyrchu annibynnol y BBC.[100] Cafodd y cwota hwn ei fodloni yn 2019, gyda 32% o oriau cymwys ar draws teledu'r BBC yn cael eu comisiynu gan gwmnïau annibynnol cymwys – i fyny o 30% yn 2018. Cafodd hyn ei adlewyrchu hefyd mewn cynnydd bach yn nifer y teitlau gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a gynhyrchwyd gan gwmnïau annibynnol cymwys, a gynyddodd o 479 (38% o deitlau) yn 2018 i 515 (39%) yn 2019.


Gellir dangos ymrwymiad y BBC i gymryd risgiau ac arloesi hefyd drwy gomisiynu teitlau rhaglenni newydd. Er bod cyfresi sy'n dychwelyd yn bwysig ar gyfer cadw cynulleidfaoedd dros gyfnod o amser, gall comisiynu teitlau newydd adlewyrchu cymryd mwy o risg. Ers 2017, rydym wedi casglu data am nifer y teitlau newydd a'r teitlau sy'n dychwelyd sy'n cael eu darlledu ar deledu'r BBC. Yn

[98] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.
[99] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae'r ffigurau'n cynnwys cwmnïau cynhyrchu sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cynnwys gwreiddiol yn unig ac maent yn adlewyrchu enwau'r cwmnïau cynhyrchu sy'n cael eu defnyddio.
[100] Mae cwmni cynhyrchu annibynnol cymwys yn cwmni heb fod ynghlwm wrth ddarlledwr yn y Deyrnas Unedig drwy gydberchnogaeth arwyddocaol (a ddiffinnir yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991 (fel y'i diwygiwyd)). Ar hyn o bryd, rhaid i 25% o'r oriau cymwys sy'n cael eu darlledu ar y BBC mewn unrhyw flwyddyn galendr benodol gael eu comisiynu gan gwmnïau annibynnol cymwys.

2019, darlledodd y BBC 373 o deitlau newydd, i lawr o 415 yn 2018, ac o 445 yn 2017.[101] Roedd mwy o oriau o gomisiynau newydd yn 2019, sef 1,157 awr, sy'n 11% o gynnydd er 2018, gan awgrymu bod ychydig mwy o deitlau newydd wedi cael eu cyflwyno y llynedd. Fodd bynnag, roedd hyn yn dal i gynrychioli nifer cymharol isel o gomisiynau yn 2019, gyda rhaglenni newydd yn cynrychioli 13% o'r oriau hyn.

Roedd y gymysgedd genre o deitlau newydd a lansiwyd yn ystod 2019 yn debyg i 2018, er bod mwy o deitlau materion cyfoes wedi cael eu cyflwyno, a llai o gyfresi celfyddydau. Roedd y teitlau newydd eleni'n cynnwys cyfresi newydd fel *Gentleman Jack* a *The War of the Worlds*, yn ogystal â rhaglenni unigryw, fel rhaglenni i nodi 50 mlynedd ers i Apollo 11 lanio ar y lleuad. O ran oriau, roedd rhaglenni ffeithiol arbenigol yn dal i gyfrif am y gyfran fwyaf o deitlau newydd, gan gyfrif am 306 awr. Roedd hyn yn gynnydd o'i gymharu â 276 awr y llynedd.

**Ffigur 15: Teitlau cyfresi newydd a rhai sy'n dychwelyd sy'n cael eu darlledu ar draws teledu'r BBC: 2017-2019**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Nodyn: mae'r ffigurau ar gyfer cynnwys gwreiddiol yn unig ac maent yn adlewyrchu nifer y teitlau unigol a ddarlledwyd ar BBC One, BBC Two, BBC Four, CBBC a CBeebies. Diffinnir cyfresi newydd fel comisiynau newydd sbon sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r cyfresi sy'n dychwelyd yn cynnwys ailgomisiynu cyfresi a arferai fod yn rhai newydd, neu deitlau parhaus fel Horizon. Nid yw'r data'n cynnwys rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, cynnwys sy'n cael ei ailadrodd, na darllediadau gwleidyddol gan bleidiau.*

[101] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae ffigurau cyfresi newydd a rhai sy'n dychwelyd yn cynnwys teitlau rhwydwaith yn unig, felly nid ydynt yn cynnwys rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau.

### Mae radio'r BBC yn dal yn unigryw, er bod lefelau gwrando yn gostwng

Mae canfyddiadau cyffredinol o natur unigryw radio'r BBC yn dal yn uchel, gyda 70% o wrandawyr radio'r BBC yn rhoi sgôr uchel i wasanaethau radio'r BBC am ddarparu rhaglenni ac allbwn radio unigryw. Mae'n darparu cymysgedd eang o gynnwys, gan gynnwys rhai sy'n unigryw. Mae mwyafrif y gwrandawyr i bob un o orsafoedd radio'r BBC yn cytuno bod yr orsaf yn cynnig rhywbeth nad yw darparwyr eraill yn ei wneud – mae hyn yn arbennig o uchel ar gyfer Radio 6 Music (88%) a Radio 4 (84%), ac wedyn Radio 3 (79%) a Radio 5 live (78%). Er bod y rhan fwyaf o wrandawyr Radio 2 (69%) yn dal i ddweud hyn, mae'r gyfran wedi gostwng o 75% y llynedd.[102]

Mae Radio 1 a 2 yn parhau i chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr masnachol allweddol, gan chwarae mwy o gerddoriaeth newydd a chyfraddau ailadrodd is.[103] Fel y nodwyd gennym yn ein hasesiad o Ddiben Cyhoeddus 4, mae gan orsafoedd radio lleol a gwledydd y BBC rôl bwysig o ran cyrraedd cynulleidfaoedd penodol, gan gynnwys grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Mae'r gwasanaethau hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at natur unigryw'r BBC, yn enwedig o ran eu hamrywiaeth a'u cwmpas.

Er bod cyrhaeddiad cyffredinol radio wedi bod yn gostwng yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf, o 90% bum mlynedd yn ôl i 88% yn 2019/20, mae nifer y rhai sy'n gwrando ar radio'r BBC wedi gostwng yn gyflymach, o 65% i 61% dros yr un cyfnod. Mae cynulleidfa Radio 1 wedi gostwng tua 14% yn ystod y pum mlynedd diwethaf (ac mae wedi gostwng tua 21% ymysg pobl ifanc 15-24 oed), ac mae nifer gwrandawyr Radio 2 wedi gostwng tua 9%. Er bod cyrhaeddiad Radio 5 live wedi gostwng yn ystod y pum mlynedd diwethaf, roedd yn weddol sefydlog o un flwyddyn i'r llall, sef 9.5% yn 2019/20.104Dywed y BBC fod BBC Sounds yn rhan ganolog o'i strategaeth sain, ond ychydig o ddata sydd ar gael i asesu ei berfformiad o ran cynllun y BBC

Yn 2018/19, lansiodd y BBC ddarpariaeth BBC Sounds fel cartref ei holl gynnwys sain ar-lein, gan gynnwys yr holl gynnwys radio sydd wedi ei amserlennu ar gyfer y BBC, a chynnwys oddi ar yr amserlen gan gynnwys podlediadau fel *The Missing Cryptoqueen* a *That Peter Crouch Podcast*. Rydym yn amcangyfrif bod 5% o holl oedolion y Deyrnas Unedig yn gwrando ar BBC Sounds bob wythnos yn 2019/20, gyda chyrhaeddiad uwch ymysg dynion, pobl ifanc 16-34 oed a chynulleidfaoedd ABC1.[105] Yn chwarter olaf 2019/20, roedd gwrando'n fyw yn cyfri am 66% o gyfanswm y gwrando drwy BBC Sounds.[106] Mae BBC Sounds yn cael ei ddefnyddio gan tua 38% o'r rhai sy'n gwrando ar bodlediadau bob wythnos, ar yr un lefel yn gyffredinol ag Apple Podcasts a Spotify, er bod Apple a Spotify yn fwy tebygol o gael eu defnyddio gan wrandawyr podlediadau iau.[107]

[102] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC
[103] Dadansoddiad Ofcom o ddata Radiomonitor a Chart Company. Roedd y dadansoddiad yn seiliedig ar dair wythnos sampl drwy gydol y flwyddyn (wythnosau a ddaeth i ben ar 19 Gorffennaf 2019, 18 Hydref 2019 a 7 Chwefror 2020) a chanfuwyd bod Radio 1 a Radio 2 yn chwarae mwy o draciau gwahanol na chystadleuwyr masnachol (Cyfalaf, Kiss, Heart a Magic), a hefyd yn ailadrodd traciau yn llai aml. Mae'r diffiniad o 'gerddoriaeth newydd' yn unol â'r hyn a nodir yn Nhrwydded Weithredu'r BBC. Mae'r canfyddiadau hyn wedi bod yn gyson dros y tair blynedd diwethaf.
[104] RAJAR
[105] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.
[106] Data mewnol y BBC yn seiliedig ar gyfartaledd chwarterol
[107] Ymchwil Populus, Mawrth 2020.

Fel mae'r BBC yn ei nodi yn ei Gynllun Blynyddol, mae BBC Sounds wrth galon strategaeth sain y BBC. Mae ei gynlluniau'n cynnwys ei agor i bodlediadau nad ydynt yn perthyn i'r BBC, cynnwys casgliadau dan themâu penodol, a rhoi radio byw wrth galon hynny. Dywed y BBC hefyd y bydd yn parhau i esblygu ei bortffolio radio, gan ddysgu o gynnwys ar-lein y BBC sy'n boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd ifanc, a sut mae wedi gweithredu drwy argyfwng Covid-19. Fel y nodwyd yn ein pennod ar Edrych i'r dyfodol er i'r BBC nodi bod BBC Sounds wedi cyrraedd ei dargedau o ran cynulleidfa, nid yw'n nodi beth oedd y targedau hyn, gan ei gwneud yn anodd asesu pa mor dda mae'n cyflawni o ran yr hyn roedd wedi ei gynllunio'n wreiddiol. Mae angen dull mwy systematig o fesur perfformiad BBC Sounds, gan alluogi'r BBC i egluro sut mae cynulleidfaoedd yn ei ddefnyddio a sut mae'n ategu'r gwaith o gyflawni'r Dibenion Cyhoeddus.

**Gyda BBC Sounds a BBC iPlayer, mae'r BBC yn parhau i ddarparu mwy o gynnwys ar-lein**

Yn ogystal â lansio BBC Sounds yn 2018/19, cytunom ym mis Awst 2019 y gallai'r BBC fwrw ymlaen â'i gynlluniau i wneud newidiadau i BBC iPlayer, er mwyn cynyddu'r cyfnod mae rhaglenni ar gael.

Eleni, mae'r defnydd o BBC iPlayer wedi cynyddu o 4.7 munud i 5.9 munud y pen y dydd ar gyfartaledd. Er bod BBC iPlayer yn cyfri am tua un rhan o ddeg o oriau gwylio teledu'r BBC yn gyffredinol, mae hyn yn codi i oddeutu un rhan o bump yn achos pobl 16-34 oed.[108] Netflix sy'n dal i arwain y farchnad fideo ar-alw, gyda 44% o oedolion yn gwylio bob wythnos, gan gynnwys 66% o bobl ifanc 15-24 oed, a BBC iPlayer yw'r ail lwyfan fideo ar-alw mwyaf poblogaidd, sy'n cael ei ddefnyddio gan 31% o oedolion a 28% o bobl ifanc 15-24 oed.[109]

Canfu ein hymchwil ansoddol a gomisiynwyd fel rhan o sgwrs *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* bod gwasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu hystyried yn fwy cyffredin fel gwasanaethau dal i fyny, yn hytrach na chyrchfannau i bori am gynnwys newydd. O ran ymarferoldeb, nid ydynt fel arfer yn cael eu hystyried fel rhai sy'n cystadlu â'r goreuon ym marn llawer, Netflix, yn enwedig o ran chwilio am gynnwys a'i ganfod. Ymysg y rhai sy'n gyfarwydd â hyn, mae BBC iPlayer yn cael ei weld fel llyfrgell helaeth o gynnwys da (sydd wedi gwella erbyn hyn). I'r rhai sy'n llai cyfarwydd ag ef, gall fod yn anoddach dod o hyd i rywbeth i'w wylio, ac mae'r genhedlaeth iau yn tueddu i dybio na fydd llawer o gynnwys perthnasol.

Fel y nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gan fod y BBC yn canolbwyntio mwy ar ei wasanaethau ar-alw fel BBC iPlayer, mae angen rhoi disgrifiad mwy cynhwysfawr o sut mae'r gwasanaethau hyn yn cyfrannu at y Genhadaeth a'r Diben Cyhoeddus.

## Gan adlewyrchu ei ffocws cynyddol ar ddarpariaeth ar-lein, mae gwariant ar BBC ar-lein wedi cynyddu, er bod argraffiadau pobl o natur unigryw gwefan y BBC wedi gostwng

Mae'r BBC yn darparu amrywiaeth o gynnwys ar-lein - er enghraifft ar ei wefan, ar apiau fel BBC Sport, ac ar BBC iPlayer a BBC Sounds. Eleni, gwariodd y BBC £238 miliwn ar gynnwys BBC ar-lein, cynnydd o'r £218 miliwn yn 2018/19 a'r £190 miliwn yn 2017/18.[110] Mae cyfran cyfanswm gwariant y BBC ar gynnwys a ddyrannwyd i'r ddarpariaeth ar-lein wedi bod yn cynyddu'n flynyddol er 2012/13, gan gyrraedd 10% yn 2019/20 (o'i gymharu â 4% yn 2012/13).

[108] Modelu Ofcom ar sail data gan y BBC a BARB
[109] TouchPoints
[110] Ffigurau o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, wedi eu mynegi mewn termau real

At ei gilydd, roedd 54% o oedolion yn defnyddio gwefan y BBC bob wythnos yn 2019/20. Nid oes modd i ni gymharu hyn â'r flwyddyn flaenorol, ond mae data gweinydd y BBC yn dangos bod nifer y porwyr sy'n defnyddio'r safle yn weddol sefydlog. Ymysg pobl 16-34 oed, mae'r cyrhaeddiad ychydig yn uwch, sef 55%. Newyddion y BBC yw'r rhan o BBC ar-lein a ddefnyddir fwyaf o bell ffordd o hyd, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio gan 29% o oedolion bob wythnos.[111] Wrth sgorio gwefan ac apiau'r BBC o'u cymharu â darparwyr eraill, mae'r rhan fwyaf yn cytuno ei fod yn darparu cynnwys o ansawdd uchel (75%), a chymysgedd o wahanol fathau o gynnwys (72%). Mae sgoriau ychydig yn is, ond mae'r rhan fwyaf yn dal i gytuno ei fod yn cyflwyno cynnwys mewn ffordd unigryw/arloesol (62%) ac yn darparu cynnwys nad yw gwefannau neu apiau eraill yn ei ddarparu (62% hefyd).[112]

Fodd bynnag, er gwaethaf defnydd gweddol sefydlog o wefan y BBC, mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o'i natur unigryw wedi gostwng. Yn 2019/20 roedd 67% o ddefnyddwyr yn cytuno bod bbc.co.uk yn cynnig rhywbeth nad oedd darparwyr eraill yn ei gynnig, i lawr o 74% y llynedd. Roedd y gostyngiad hwn yn cael ei sbarduno gan ganfyddiadau ymysg pobl ifanc.[113] Byddwn yn parhau i fonitro safbwyntiau cynulleidfaoedd yma.

[111] Ymchwil y BBC
[112] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.
[113] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.



# Diben Cyhoeddus 4

**Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau’r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny**

## Prif ganfyddiadau:

- Er bod y BBC yn llwyddo i wella argraffiadau o gynrychiolaeth a phortreadu ymysg rhai cynulleidfaoedd, yn enwedig oedolion iau, cynulleidfaoedd Asiaidd a’r rhai sy’n byw mewn rhai rhannau o Loegr, mae grwpiau eraill rydym wedi eu nodi fel rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol gan y BBC.  Nid yw’r grwpiau hyn yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli’n dda ar draws ei gynnwys. Maent yn cynnwys pobl hŷn, pobl anabl, y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is a chynulleidfaoedd yn yr Alban.

- Rydym yn poeni bod mesurau bodlonrwydd cynulleidfaoedd y BBC ei hun yn rhy gul ac, o ganlyniad, nid yw’n nodi ei holl gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol; mae hyn yn golygu bod y BBC mewn perygl o golli rhagor o adrannau o’i gynulleidfa a chyfrannu at ostyngiad yn ei gyrhaeddiad.

- Mae’r BBC wedi cyhoeddi rhagor o fanylion am gynrychioli a phortreadu a’i weithgareddau ehangach sy’n ymwneud ag amrywiaeth, ond gallai adrodd fod yn gliriach ac yn fwy cynhwysfawr o hyd, ac nid yw effaith ei weithredoedd yn gwbl fesuradwy eto.

- Mae’r BBC wedi cyhoeddi mwy o ddata ac wedi darparu mwy o dryloywder ynghylch amrywiaeth ei weithlu eleni. Mae’n parhau i gynyddu ei amrywiaeth o ran y gweithlu ac ar y sgrin, ond mae’r cynnydd yn dal i fod yn araf. Wrth ystyried amrywiaeth gweithlu’r BBC o’i gymharu â’r diwydiant ehangach, mae rhai darlledwyr yn dal i berfformio’n well na’r BBC ar nifer o nodweddion amrywiaeth ar gyfer teledu a radio.

- Mae’r BBC yn parhau i fodloni ei gwotâu gwariant ac oriau ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith gwreiddiol yn y gwledydd a rhanbarthau Lloegr.  Cafwyd datblygiadau cadarnhaol hefyd yn nifer y cwmnïau cynhyrchu y mae’n gweithio gyda nhw sydd wedi eu lleoli y tu allan i Lundain.

- Mae rhagor o fanylion am y data y tu ôl i’r asesiad hwn ar gael yn yr Adroddiad Perfformiad rhyngweithiol.

## Effaith Covid-19 ar gyflawni Diben Cyhoeddus 4 y BBC

Roedd y BBC wedi gweithredu'n gyflym i ddarparu newyddion a gwybodaeth leol yn ystod argyfwng Covid-19, gan ddarlledu cynadleddau dyddiol llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gynulleidfaoedd yn y gwledydd hynny ar draws y ddarpariaeth deledu, radio ac ar-lein. Fodd bynnag, am resymau gweithredol, tynnodd y BBC fwletinau brecwast yn ôl yn ystod yr wythnos ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ar BBC One ac uno bwletinau diwedd y nos rhai rhanbarthau.

Mae dulliau iechyd y cyhoedd gwahanol y gwledydd datganoledig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y ffaith bod y BBC yn gwahaniaethu rhwng gwahanol bolisïau cenedlaethol yn ei newyddion rhwydwaith. Clywsom bryderon, gan gynnwys nifer fach o gwynion gan aelodau o'r cyhoedd, yn ystod camau cynnar argyfwng Covid-19. Roedd rhai cynulleidfaoedd yn teimlo nad oedd y ddarpariaeth yn glir ynghylch sut roedd y cyfyngiadau symud yn amrywio rhwng y gwledydd datganoledig a Lloegr. Cafodd y cwynion a gawsom eu cyfeirio gan Ofcom at y BBC o dan broses 'BBC yn Gyntaf' ac felly ni chawsant eu hasesu gan Ofcom. Mae'r materion hyn wedi eu hailadrodd mewn sgyrsiau â rhanddeiliaid yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r rhai dan sylw ac rydym wedi gofyn am ragor o dystiolaeth.

Roedd BBC Bitesize yn cynnig gwersi ar-lein dyddiol yn adlewyrchu'r cwricwlwm datganoledig a dwyieithog yng Nghymru. Yn yr Alban, cafodd cynnwys addysgol, gan gynnwys deunydd BBC Bitesize, ei ddarlledu'n ddyddiol ar sianeli BBC Scotland a BBC ALBA. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd deunydd Bitesize cwricwlwm lleol ar gael ar BBC iPlayer.


Pwysleisiodd argyfwng Covid-19 pa mor bwysig yw gwasanaethau a chynnwys lleol y gall cynulleidfaoedd agored i niwed gael gafael arnynt. Roedd yn dangos y rôl werthfawr mae gwasanaethau radio lleol a gwledydd y BBC yn ei chwarae o ran gwasanaethu cymunedau ledled y wlad gyda newyddion a gwybodaeth leol a dod â phobl at ei gilydd, fel y dangosodd yr ymgyrch *Gwneud Gwahaniaeth*.

Ehangodd y BBC bartneriaethau fel yr un rhwng BBC Three, BBC Northern Ireland a Northern Ireland Screen, gan sefydlu mentrau tebyg yn yr Alban a Gogledd Lloegr. Rydym yn annog y BBC i ystyried sut y gall ymgorffori datblygiadau cadarnhaol o ran comisiynu cynnwys yn ystod argyfwng Covid-19, fel agor mynediad at gomisiynwyr yn Llundain i gwmnïau cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac ystyried a allai leoli mwy o'i uwch wneuthurwyr penderfyniadau i ffwrdd o Lundain yn y dyfodol.

Wrth ymateb i'n hadroddiad Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal yn y Diwydiant Radio, adroddodd y BBC am heriau i rai staff anabl yr oedd angen addasiadau i'w gwaith cartref arnynt. Ond roedd hefyd yn cydnabod y manteision posibl y gallai gweithio o bell eu cael yn y dyfodol, o ran denu cyfran fwy o'i weithlu o blith y rhai sy'n llai abl i deithio i ganolfannau cynhyrchu, e.e. pobl anabl, pobl mewn lleoliadau anghysbell, a phobl y byddai costau yn eu hatal rhag teithio.

Wrth i'r gyfradd gomisiynu godi eto, mae gan y BBC gyfle i sicrhau bod ei God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth wrth galon ei strategaethau recriwtio a chomisiynu, gan helpu i ddarparu rhagor o gyfleoedd i'r ystod ehangaf posibl o weithwyr llawrydd, y mae argyfwng Covid-19 wedi effeithio cymaint arnynt.

## **Diben 4:** Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau unigryw yr holl genhedloedd a rhanbarthau a, thrwy wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ar draws y DU




Mae ein hasesiad perfformiad o Ddiben Cyhoeddus 4 yn cynnwys:

- **Amrywiaeth**, gan gynnwys canfyddiadau cynulleidfaoedd, mesur bodlonrwydd cynulleidfaoedd, cynrychioli a phortreadu;
- **Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth**;
- **Y gweithlu**; a'r
- **Economi greadigol**.

## Amrywiaeth

Mae'r Deyrnas Unedig yn cynnwys amrywiaeth eang o bobl wedi eu diffinio gan nifer o nodweddion, gan gynnwys lle maent yn byw, eu hethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oed, statws economaidd-gymdeithasol ac a oes ganddynt anabledd ai peidio. Mae gan gynulleidfaoedd ddisgwyliadau uchel o ran sut dylai'r BBC adlewyrchu eu bywydau eu hunain, ac mae ein hymchwil yn dangos eu bod yn gwerthfawrogi cynnwys sy'n adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig. Ar adeg o bolareiddio cymdeithasol cynyddol, gellid dadlau nad yw dyletswydd y BBC i adlewyrchu, cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig yn gywir ac yn ddilys erioed wedi bod yn bwysicach – a thrwy hynny rydym yn golygu pa mor aml y gwelir eu bod yn cael eu gweld ar draws cynnwys y BBC (cynrychiolaeth) a sut maent yn cael eu cyfleu (portread).

Rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau i asesu perfformiad y BBC o ran ei rwymedigaethau amrywiaeth, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, o dan Ddiben Cyhoeddus 4:

- ymchwil a gomisiynwyd gan Ofcom a'r BBC er mwyn mesur canfyddiadau cynulleidfaoedd o ba mor dda mae'r BBC yn cynrychioli ac yn portreadu amrywiaeth cymunedau'r Deyrnas Unedig;
- Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC;
- cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth y BBC ei hun a'i Adroddiad Cynnydd blynyddol ar y modd mae'n gweithredu'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth; [114]
- Adroddiad blynyddol Ofcom ar Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal mewn Teledu a Radio.

Rydym yn falch o weld bod y BBC yn cynyddu ei ymrwymiad i ddarparu amrywiaeth ar y sgrin ac yn y gweithlu. Mae hyn yn amlwg o benodiad June Sarpong yn 2019 fel Cyfarwyddwr Amrywiaeth Greadigol cyntaf y BBC, gyda chylch gwaith i wella portread a chomisiynu'r BBC ar yr awyr; sylwadau diweddar Tim Davie yn tynnu sylw at ei benderfyniad i greu sefydliad sy'n llawer mwy cynrychioliadol o'r Deyrnas Unedig drwyddi draw, gan gynnwys gwella amrywiaeth economaidd-gymdeithasol a rhanbarthol gweithlu'r BBC; cydnabyddiaeth Tim Davie o'r angen i ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa; a sawl cam cadarnhaol mae'r BBC yn eu rhestru yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'i adroddiad cynnydd ar y Cod Ymarfer Comisiynu ar Amrywiaeth. Ond mae argaeledd cyfyngedig data caled a gwybodaeth gwerthuso prosiectau yn ei gwneud yn anodd barnu pa mor effeithiol fu llawer o ymdrechion y BBC yn 2019/20. O ystyried hyn, rydym yn annog y BBC i sicrhau bod y llu o gynlluniau newydd sylweddol mae wedi eu cyhoeddi'n ddiweddar i wella'r ffordd mae'n darparu amrywiaeth yn y dyfodol, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, yn cynnwys nodau a chanlyniadau clir.

Mae cynlluniau newydd yn cynnwys:

- yr Ymrwymiad Amrywiaeth Greadigol newydd, a fydd yn gofyn bod 20% o ddoniau ar gomisiynau teledu a radio rhwydwaith newydd o fis Ebrill 2021 ymlaen, yn dod o gefndiroedd amrywiol, gan ganolbwyntio ar nodweddion anabledd, ethnigrwydd a symudedd cymdeithasol;
- y Gronfa Amrywiaeth Greadigol newydd yn neilltuo £100 miliwn o'i chyllideb gomisiynu bresennol dros dair blynedd (2021/22-2023/24) tuag at gynyrchiadau â chynrychiolaeth, doniau neu gwmnïau amrywiol;
- dyrannu £12 miliwn o gyllideb gomisiynu bresennol radio'r BBC i'w wario ar gynnwys amrywiol a chynhwysol a gomisiynwyd gan radio rhwydwaith a BBC Sounds dros yr un cyfnod; ac
- ymrwymiad i barhau â'i Gronfa Amrywiaeth gwerth £2 filiwn i fuddsoddi mewn prosiectau i ddod o hyd i ddoniau amrywiol newydd neu i alluogi doniau amrywiol presennol i gryfhau eu sgiliau neu eu profiad.

[114] Mae'r Drwydded Weithredu yn mynnu bod y BBC yn cynhyrchu ac yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Comisiynu ar Amrywiaeth, a gymeradwywyd gan Ofcom, er mwyn helpu i wreiddio amrywiaeth ym mhrosesau comisiynu'r BBC a'i gynnwys newydd i sicrhau bod y cynnwys mae'r BBC yn ei gomisiynu ar gyfer teledu, radio ac ar-lein yn cynrychioli'n gywir, yn portreadu ac yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig yn ddilys. Mae'r BBC yn defnyddio ei Adroddiad Cynnydd i fonitro ac adrodd i Ofcom yn flynyddol ar ei gydymffurfiad â'i God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth.

Mae'r datblygiadau hyn yn galonogol, a byddwn yn monitro cynnydd yn ofalus, gan ymgysylltu â'r BBC ar y manylion, er mwyn i ni allu asesu'n effeithiol y cyfraniad maent yn ei wneud at gyflawni Diben Cyhoeddus 4.

## Canfyddiadau'r gynulleidfa

### Rydym yn dal i boeni am farn rhai grwpiau cynulleidfa am y modd maent yn teimlo eu bod nhw wedi cael eu cynrychioli a'u portreadu yn rhaglenni a chynnwys y BBC

Yn Yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y BBC, fe wnaethom gynnwys canfyddiadau o'n hadolygiad o gynrychiolaeth a phortreadu ar deledu'r BBC. Er bod y BBC wedi gwella dros amser, roedd rhai grwpiau o bobl yn teimlo'n llai amlwg ar y teledu. Teimlai eraill fod y ffordd y cawsant eu portreadu yn negyddol neu'n arwynebol. Mae'r grwpiau hyn fwy neu lai yr un fath â'r rhai y tynnwyd sylw atynt drwy'r adroddiad hwn fel rhai sydd â lefelau bodlonrwydd is yn gyffredinol â'r BBC.


Mae Traciwr Perfformiad y BBC yn dangos, er bod y BBC yn perfformio'n gymharol dda o ran darparu cynnwys y mae pobl yn teimlo ei fod yn berthnasol iddynt, bod cynulleidfaoedd yn llai bodlon â pha mor dda mae'r BBC yn portreadu gwahanol ardaloedd neu bobl. Mae Ffigur 16 isod yn dangos yr heriau i'r BBC o ran gwella argraffiadau o gynrychiolaeth a phortreadu ar gyfer rhai cynulleidfaoedd. Mae chwater isaf y siart ar y chwith yn dangos cynulleidfaoedd sydd â chanfyddiadau is na'r cyfartaledd o ran cynrychioli a phortreadu.  Oedolion hŷn a phobl anabl sydd fwyaf tebygol o fod yn y categori hwn.

Mae cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is hefyd yn dal i feddu ar ganfyddiadau is ynghylch pa mor dda mae'r BBC yn eu cynrychioli a'u portreadu ar draws ei allbwn, yn enwedig pobl yn y grŵp DE, y mae eu canfyddiadau wedi bod yn is na'r cyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf. I'r gwrthwyneb, mae'r rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn parhau i fod yn fwy cadarnhaol ar draws amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys pa mor dda maent yn teimlo maent yn cael eu cynrychioli a'u portreadu ar draws cynnwys y BBC.

Mae canfyddiadau oedolion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o ran sut maent yn cael eu cynrychioli a'u portreadu yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd y boblogaeth. O ran canfyddiadau o gynrychiolaeth, mae hyn yn nodi gwelliant cyffredinol dros y tair blynedd diwethaf. Mae golwg fanylach yn datgelu bod cynulleidfaoedd Du, er eu bod yn sgorio'r BBC yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cynrychiolaeth, yn llai tebygol o roi sgôr uchel i'r BBC o ran sut maent yn cael eu portreadu, yn unol â chanfyddiadau ein hadolygiad yn 2017/18. Fodd bynnag, mae cynulleidfaoedd Asiaidd yn fwy bodlon na chynulleidfaoedd Du o ran sut maent yn cael eu portreadu gan y BBC.

Fe wnaethom dynnu sylw yn gynharach yn yr adroddiad hwn at y ffaith bod cynulleidfaoedd iau yn defnyddio llai o gynnwys na chynulleidfaoedd hŷn, eu bod yn fwy detholus, ac mae'n ymddangos bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu canfyddiadau cyffredinol o'r BBC. Yn y cyd-destun hwn, maent yn fwy tebygol o deimlo eu bod wedi eu cynrychioli'n dda ar draws y rhaglenni a'r cynnwys maent yn eu defnyddio, ac o fod yn hapus â sut maent yn cael eu portreadu.

**Ffigur 16: Canfyddiadau o bortreadu o'i gymharu â chynrychiolaeth, yn ôl grwpiau penodol o gynulleidfaoedd: 2019/20**




*Ffynhonnell: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC. Mae llinellau'n dangos y cyfartaledd oedolion cyffredinol ar gyfer pob metrig*

## Mae'r BBC yn dal i wynebu heriau o ran pa mor dda y tybir ei fod yn cynrychioli ac yn portreadu gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig

Canfu ein hymchwil *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* fod seilio rhaglenni teledu yn y Deyrnas Unedig yn yr ardaloedd lle mae pobl yn byw yn cael ei weld fel rôl benodol a gwerthfawr i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Enghraifft ddiweddar o gynnwys y BBC sy'n cynrychioli ac yn portreadu lle mae'r bobl yn byw yw cyd-gomisiwn *Angels of the North* gan BBC Three/BBC England, cyfres 'pryf ar y pared' mewn salon gwallt yn Gateshead. Roedd yn perfformio'n arbennig o dda yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr a Cumbria. O holl geisiadau BBC iPlayer, roedd 15% ac 17% ar gyfer tymor un a thymor dau yn dod o gyfrifon a gofrestrwyd yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr a Cumbria. Mae hyn yn uwch na cheisiadau o'r un meysydd am gynnwys tebyg wedi ei leoli mewn mannau eraill, fel *Glow Up: Britain's Next Make-Up Star* a *RuPaul's Drag Race UK*.[115]

Rydym ni'n gwybod bod gwasanaethau radio lleol a gwledydd y BBC yn chwarae rhan bwysig o ran helpu'r BBC i gyrraedd cymunedau'r Deyrnas Unedig. Mae ehangder y gwasanaethau radio lleol mae'r BBC yn eu darparu yn bwysig o ran helpu'r BBC i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, ac mae'n ei helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Yn dilyn ein hadolygiad o leolrwydd ar radio masnachol, mae gan ddarparwyr radio masnachol lleol mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig fwy o hyblygrwydd erbyn hyn o ran lle maent yn gwneud eu horiau gofynnol o raglenni 'wedi eu gwneud yn lleol', ac mae rhai gorsafoedd radio masnachol lleol yn newid y ffordd maent yn darparu gwasanaethau radio lleol. Mae hyn o bosibl yn gwneud darpariaeth radio lleol a gwledydd y BBC yn bwysicach i wrandawyr sy'n gwerthfawrogi cyflwynwyr lleol. Mae Traciwr Perfformiad y BBC yn dangos bod 72% o wrandawyr

[115] Data'r BBC

radio lleol a gwledydd y BBC wedi rhoi sgôr cadarnhaol (7-10 allan o 10) pan ofynnwyd iddynt a yw'r gwasanaethau hyn yn cynnig rhywbeth nad yw darparwyr eraill yn ei gynnig iddynt.

Mae radio lleol a gwledydd y BBC yn arbennig o werthfawr i gynulleidfaoedd penodol. Wrth gymharu â rhwydwaith y BBC a radio masnachol lleol, mae gwrandawyr radio lleol a gwledydd y BBC yn tueddu i fod yn hŷn (61% dros 55 oed o'i gymharu â 28% ar gyfer radio masnachol lleol) ac maent yn fwy tebygol o fod o gefndir ethnig Gwyn (93% o'i gymharu ag 86% ar gyfer radio masnachol lleol). Mae'n wasanaeth arbennig o bwysig i bobl yng Ngogledd Iwerddon (fel radio masnachol lleol) gyda chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 34%, tua dwywaith ei gyrhaeddiad yn Lloegr (13%), yr Alban (17%) a Chymru (18%).[116]


Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y BBC yn ei Adroddiad a'i Gyfrifon Blynyddol fod yn rhaid iddo wneud mwy i fod yn *'wirioneddol berthnasol'* i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau a bod yn rhaid iddo *'weithio hyd yn oed yn galetach i estyn allan at holl gymunedau'r Deyrnas Unedig'*. Dywedodd y BBC fod gostyngiad o un flwyddyn i'r llall yng nghyfran y bobl sy'n *'meddwl bod y BBC yn effeithiol o ran hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y Deyrnas Unedig'* ym mhob un o'r gwledydd.

Mae heriau i'r BBC o ran pa mor dda mae'n ymddangos ei fod yn cynrychioli ac yn portreadu gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Yn Ffigur 17 isod, rydym wedi edrych ar y canfyddiadau o gynrychioli a phortreadu lle mae pobl yn byw yn ôl gwahanol wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae chwater isaf y siart ar y chwith yn dangos rhanbarthau sydd â chanfyddiad is na'r cyfartaledd o ran cynrychioli a phortreadu'r rhanbarth.

Yn gyffredinol, y rhai sy'n byw yng Ngorllewin/De Orllewin Lloegr a'r rhai sy'n byw yn yr Alban sydd fwyaf tebygol o gael y canfyddiadau isaf o ba mor aml maent yn gweld eu hardaloedd yn cael eu cynrychioli yng nghynnyrch y BBC, a dilysrwydd y portread. Y rhai sy'n byw yn y De/De-ddwyrain a Llundain yw'r rhai mwyaf cadarnhaol am y ffordd mae lle maent yn byw yn cael ei gynrychioli a'i bortreadu. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r farn wedi gwella yn y De-ddwyrain (o saith pwynt canran) ac yn Llundain (tri phwynt canran).

[116] RAJAR

**Ffigur 17: Canfyddiadau o bortreadu o gymharu â chynrychiolaeth, yn ôl rhanbarthau yn Lloegr a gwledydd y Deyrnas Unedig: 2019/20**




*Ffynhonnell: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC. Mae llinellau'n dangos y cyfartaledd oedolion cyffredinol ar gyfer pob metrig*

Isod, rydym yn nodi ein canfyddiadau o ymchwil Traciwr Perfformiad y BBC eleni ar ba mor dda y credir bod y BBC yn cynrychioli ac yn portreadu pob gwlad yn ei allbwn.

### Yr Alban: Arwyddion o ganfyddiadau o gynrychiolaeth a phortreadu yn gwella, ond yn dal ar ei hôl hi o gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig

Y llynedd fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod angen i'r BBC wneud mwy i apelio at gynulleidfaoedd yn yr Alban. Lansiwyd sianel deledu BBC Scotland ym mis Chwefror 2019 (gweler isod am ragor o fanylion), ac er bod y cyrhaeddiad yn dal yn isel, mae arwyddion cynnar y gallai fod yn cael effaith gadarnhaol ar argraffiadau gwylwyr o gynrychiolaeth a phortreadu yn yr Alban. Fodd bynnag, mae pobl yn yr Alban yn dal i roi sgôr i'r BBC am yr amrywiaeth o gynnwys sy'n cynrychioli'r Alban (41% o'i gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig o 49%) ac am y modd y portreadir yr Alban (38% o'i gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig o 50%) sy'n is na'r cyfartaledd. Mae canfyddiadau o berfformiad y BBC ar draws y Dibenion Cyhoeddus yn tueddu i fod yn is yn yr Alban nag yn y gwledydd eraill o hyd.

### Cymru: Canfyddiadau yn unol â chyfartaleddau'r Deyrnas Unedig, ond mae amrywiaeth o raglenni sy'n cynrychioli Cymru yn dal yn broblem i gynulleidfaoedd yng Nghymru

Rydym wedi tynnu sylw o'r blaen at y ffaith bod canfyddiadau cadarnhaol o amrywiaeth cynnwys y BBC sy'n cynrychioli Cymru gryn dipyn yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Eleni, mae llai na hanner y bobl (45%) yng Nghymru yn dweud bod y BBC yn darparu amrywiaeth dda o gynnwys sy'n cynrychioli Cymru. Nid yw hyn yn sylweddol is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig (49%) mwyach, ond ar draws yr holl Ddibenion Cyhoeddus, dyma'r agwedd ar berfformiad y BBC mae cynulleidfaoedd yng Nghymru leiaf bodlon â hi. Mae pobl yng Nghymru yn sgorio pob metrigau cynrychioli a phortreadu eraill yn unol â chyfartaledd y Deyrnas Unedig ac yn unol â chanlyniadau'r llynedd. Yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, bu cynnydd mewn sgoriau argraff gyffredinol (1-4 allan o 10) o'r BBC

ymysg pobl Cymru (19% yn 2019 o'i gymharu â 12% yn 2018). Mae'r canfyddiadau o ddarpariaeth newyddion yng Nghymru wedi bod yn gadarnhaol, gydag oddeutu saith o bob deg oedolyn yn cytuno bod y BBC yn perfformio'n dda o ran helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw ac yn cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau.

### Gogledd Iwerddon: Mae'r canfyddiadau o gyflawni Diben Cyhoeddus 4 yn gyffredinol wedi gwella, ond mae'r holl fetrigau cynrychioli a phortreadu eraill yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall

Gwelwyd gwelliant o un flwyddyn i'r llall mewn argraffiadau cadarnhaol (7-10 allan o 10) o ddarpariaeth gyffredinol y BBC o ran cynrychioli a phortreadu yng Ngogledd Iwerddon (65% yn 2019 o'i gymharu â 56% yn 2018). Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig (65% Gogledd Iwerddon o'i gymharu â 59% ar gyfartaledd yn y Deyrnas Unedig). Mae'r holl fetrigau eraill ar y canfyddiad o gynrychiolaeth a phortreadu yng Ngogledd Iwerddon yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall ac maent yn cyd-fynd â chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Darparu amrywiaeth o gynnwys sy'n 'berthnasol i mi' ac sy'n 'cynnwys pobl fel fi' yw'r metrigau lefel uchaf ymysg pobl yng Ngogledd Iwerddon (y ddau yn 56%).

### Lloegr: Mae'r argraffiadau o'r amrywiaeth o gynnwys sy'n cynrychioli rhanbarthau Lloegr wedi gwaethygu

Bu gostyngiad o un flwyddyn i'r llall yng nghyfran y bobl yn Lloegr sy'n rhoi sgôr cadarnhaol i'r BBC o ran yr amrywiaeth o gynnwys sy'n 'cynnwys pobl fel fi' (o 58% i 54% yn 2019/20) ac sy'n 'cynrychioli lle'r ydw i'n byw' (54% i 50% yn 2019/20). Mae pob metrig arall ar y canfyddiad o gynrychiolaeth a phortreadu yn Lloegr yn sefydlog o flwyddyn i flwyddyn ac yn unol â chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Mae bodlonrwydd â chynrychiolaeth a phortreadu yn Lloegr yn tueddu i fod ar ei uchaf yn Llundain a De/De-ddwyrain Lloegr, ac ar ei isaf yn y Gorllewin/De-orllewin.

Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau hyn yn rhoi darlun cymysg o ba mor dda mae'r BBC yn cael ei weld yn cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd a grwpiau cynulleidfaoedd gwahanol yn y gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr. Er bod y BBC yn llwyddo i wella cynrychiolaeth a/neu bortread ymysg rhai cynulleidfaoedd, yn enwedig oedolion iau, cynulleidfaoedd Asiaidd a'r rhai sy'n byw mewn rhannau o Loegr fel y De, nid yw canfyddiadau cynulleidfaoedd eraill yn gwella, fel y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, cynulleidfaoedd anabl a'r rhai yn yr Alban, ac maent yn dal i fod yn llawer is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Mae angen i'r BBC sicrhau ei fod yn rhoi camau ar waith i wella canfyddiadau ymysg y cynulleidfaoedd hyn.

## Mesur bodlonrwydd cynulleidfaoedd

### Rydym yn dal yn bryderus ynghylch dull y BBC o asesu bodlonrwydd cynulleidfaoedd, ac o ganlyniad ei gynllun i wella canfyddiadau cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol

Mae'r Drwydded Weithredu yn mynnu bod y BBC yn mesur ac yn adrodd i Ofcom ynghylch pa mor fodlon yw cynulleidfaoedd o ran sut maent yn cael eu hadlewyrchu, eu cynrychioli a'u gwasanaethu. Pan fydd mesuriad y BBC yn dangos bod grwpiau penodol o gynulleidfaoedd yn anfodlon â

pherfformiad y BBC, mae'n rhaid iddo adrodd ar gamau i wella bodlonrwydd ymysg y grwpiau hynny.[117]

Y llynedd, fe wnaethom ni fynegi pryder nad oedd methodoleg y BBC ar gyfer adnabod grwpiau o gynulleidfaoedd anfodlon yn ei alluogi i adnabod y grwpiau nad oedd yn eu gwasanaethu'n ddigonol. Gofynnom i'r BBC egluro sut byddai'n gwella bodlonrwydd cynulleidfaoedd ymysg y grwpiau y mae ein hymchwil yn dal i ddangos bod ganddynt ganfyddiad is na'r cyfartaledd o'r BBC.

Yn yr un modd â'r llynedd, mae ymchwil y BBC ei hun yn dangos nad oes cynulleidfaoedd anfodlon, ar sail ei procsi mesur ar gyfer bodlonrwydd cynulleidfaoedd ('effeithiolrwydd'). Mae hyn yn dangos nad oes yr un grŵp cynulleidfa o'r farn bod y BBC yn fwy 'aneffeithiol' nag 'effeithiol' ar sail y datganiadau mae'r BBC yn eu defnyddio i bennu bodlonrwydd. Gan hynny, nid yw'n ofynnol i'r BBC nodi camau clir i wella canfyddiadau grwpiau cynulleidfaoedd sy'n anfodlon. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gennym y llynedd ynghylch y mater hwn, mae'r BBC wedi nodi rhai grwpiau cynulleidfa 'llai bodlon', sydd i raddau helaeth yn unol â'r rhai rydym wedi eu hamlygu ym mhob un o'n hadroddiadau blynyddol ar y BBC, gan gynnwys y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, cynulleidfaoedd yn yr Alban a phobl anabl. Fodd bynnag, nid yw'r BBC wedi nodi'n glir ac yn gyson sut mae wedi diwallu neu'n bwriadu diwallu eu hanghenion. Mae'r dull hwn yn groes i farn y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sydd wedi datgan yn glir ei fod eisiau i'r BBC gyflawni ar gyfer pob cynulleidfa.

Rydym ni o'r farn bod y metrigau mae'r BBC yn eu defnyddio yn rhy gul (gofyn i gynulleidfaoedd roi sgôr i'r BBC o ran adlewyrchu eu bywydau eu hunain, a chynnwys perthnasol) ac yn rhy gyfyng o ran y ddemograffeg mae'n ei defnyddio i asesu'r metrig (er enghraifft, dim ond edrych ar oedolion 16 oed a hŷn i ddeall pa mor dda mae'r BBC yn adlewyrchu'r Deyrnas Unedig). Mae amod 2.44 yn y Drwydded Weithredu yn datgan y dylai'r BBC gynnwys bodlonrwydd cynulleidfaoedd yn y meysydd a ganlyn:

- sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol;
- sut mae'r BBC yn adlewyrchu poblogaeth gyfan y Deyrnas Unedig ar sgrin ac ar yr awyr, gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre; a
- sut mae'r BBC yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau.

Ar adeg pan mae cyrhaeddiad y BBC yn gostwng, rydym yn poeni nad yw mesur presennol y BBC o fodlonrwydd cynulleidfaoedd yn nodi'n ddigonol ei holl gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Rydym yn annog y BBC i ystyried rhychwant mwy cyfannol o fesurau i ddeall bodlonrwydd cynulleidfaoedd, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion holl wledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig, ac yn cyflawni uchelgais y Cyfarwyddwr Cyffredinol i'r BBC gysylltu â phob cynulleidfa.

Yn ogystal ag ehangu ei ddiffiniad o gynulleidfaoedd anfodlon o fewn amod 2.44, er mwyn ystyried y rhai sy'n llai bodlon, gallai'r BBC fod yn llawer cliriach ynghylch y camau mae wedi eu cymryd neu y bydd yn eu cymryd i wella canfyddiadau'r cynulleidfaoedd hyn (amod 2.45). Rydym yn disgwyl i'r

[117] Amodau 2.44 a 2.45 y Drwydded Weithredu

BBC nodi yn ei strategaeth ynghylch sut bydd yn mesur ac yn gwerthuso canfyddiadau cynulleidfaoedd yn y dyfodol.



**Elizabeth is missing (llun drwy garedigrwydd y BBC)**

## Cynrychioli a phortreadu

### Er bod y BBC yn darparu gwybodaeth fanylach, ychydig o dystiolaeth gadarn sydd ar gael o hyd i ddangos pa mor dda mae'n cynrychioli ac yn portreadu cymunedau'r Deyrnas Unedig

Mae'r hyn a welwyd o ran canfyddiadau'r gynulleidfa uchod yn ddangosydd allweddol o ba mor dda mae'r BBC yn bodloni gofynion i gynrychioli a phortreadu holl gymunedau'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae newid canfyddiadau gwylwyr yn cymryd amser, felly mae gan Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC a'i Adroddiad Cynnydd ar y Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth rôl bwysig i'w chwarae o ran dangos sut mae'r BBC wedi perfformio o ran ei Drwydded Weithredu a'i rwymedigaethau cynrychioli a phortreadu ei hun yn y Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth.

Eleni, gwelwyd gwelliant yn lefel y manylion mae'r BBC wedi eu darparu am ei weithgareddau sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth yn ei Adroddiad Blynyddol a'i Gyfrifon a'i Adroddiad Cynnydd ar y Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth. Gallwn weld bod y BBC wedi cynhyrchu amrywiaeth o gynnwys sydd wedi ei ddylunio i gynrychioli a phortreadu amrywiaeth o bobl, lleoedd a chymunedau. Mae rhestrau o deitlau cynnwys, gan gynnwys *Gentleman Jack, Doorstep Daughter* a *Man Like Mobeen*, ynghyd ag *Elizabeth is Missing, Waffle the Wonder Dog* ac *I May Destroy You*, yn dangos bod y BBC yn cynrychioli amrywiaeth o gymunedau a phrofiadau o ran cynnwys a wnaed neu a ddarlledwyd yn ystod 2019/20. Mae'r BBC hefyd yn gallu cyfeirio at ei dargedau doniau ar y sgrin i ddangos tystiolaeth o sut mae'n darparu cynrychiolaeth. Mae'n adrodd ei fod yn cyrraedd ei dargedau ar gyfer 2020 i wella cynrychiolaeth ar y sgrin, gan gyflawni: 50% o fenywod ar y sgrin ac mewn rolau arweiniol ar draws pob genre, o ddrama i newyddion; 8% o bobl anabl ar y sgrin, gan gynnwys rhai rolau arweiniol; 8% o Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) yn cael eu portreadu ar y sgrin, gan gynnwys rhai rolau arweiniol; a 15% o bobl lleiafrifoedd ethnig, du ac Asiaidd ar y sgrin, ac mewn rolau arweiniol ar draws pob genre. Croesewir y canlyniad hwn.

Fel yr esboniwyd gennym y llynedd, mae system 'Diamond' y Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol a ddefnyddir i fesur cynrychiolaeth y BBC ar y sgrin ar hyn o bryd yn cipio cyfran gyfyngedig o ddata amrywiaeth llawrydd; mae hyn yn golygu nad yw'r darlun o sut mae'r BBC yn cyflawni'r targedau ar y sgrin yn gyflawn. Er ei bod yn galonogol gweld y camau mae'r BBC yn eu cymryd i annog gweithwyr llawrydd ar holl gynyrchiadau'r BBC i gyflwyno eu gwybodaeth am amrywiaeth i Diamond, rydym yn annog y BBC i chwilio am ffyrdd o helpu i leihau'r bwlch data. Rydym yn awgrymu bod y BBC yn adeiladu ar y cyflawniadau ar y sgrin a nodwyd yn 2019/20 drwy gynnal y canrannau hyn fel lefel sylfaenol ar gyfer cynrychiolaeth ar y sgrin, a'i fod yn ystyried pa nodau eraill ar y sgrin y gallai eu gosod iddo ei hun. Er enghraifft:

- mae ymestyn targedau i ddarparu mwy o gynrychiolaeth o'r ymchwil cynulleidfa yn parhau i ddangos nad yw rhai pobl yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol (e.e. pobl anabl); a
- dadelfennu rhai o nodweddion ehangach y BBC, sef 'BAME' ac 'LGBTQ+' er mwyn sicrhau mwy o gynrychiolaeth o bob un o'r gwahanol ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaethau rhywedd sy'n cael eu cofnodi o dan y grwpiau perthnasol.

Mae'r BBC hefyd yn cyfeirio at rai gweithgareddau oddi ar y sgrin neu y tu ôl i'r llenni sy'n helpu i sicrhau mwy o gynrychiolaeth yn ei allbwn. Mae'r Prosiect 50:50 yn enghraifft amlwg o fenter sy'n sicrhau gwelliant amlwg mewn cynrychiolaeth. Mae'n dangos bod y BBC wedi cynyddu cynrychiolaeth menywod yn ei gynnwys drwy ddefnyddio dull hunan-adrodd i fesur ei effaith a thrwy ddefnyddio dull 'ciplun-mewn-amser' i asesu cynnydd o un flwyddyn i'r llall. Mae'r adroddiad hefyd yn egluro graddfa a thwf y cynllun dros amser, ac rydym yn falch o weld bod y BBC yn bwriadu ehangu'r prosiect hwn i gynnwys targedau ethnigrwydd ac anabledd.

Wrth gynrychioli cymunedau'r Deyrnas Unedig yn ei allbwn, mae'n rhaid i'r BBC hefyd eu portreadu mewn ffordd ddilys. Mae'r teitlau a nodir fel tystiolaeth yn cynnwys: *The First Black Brummies, The Unwanted* a *The Secret Windrush Files* ar BBC Four, yn ogystal â phrosiectau sy'n deillio o gynllun doniau BBC Writersroom, fel: *The Left Behind*, sy'n archwilio bywyd dosbarth gweithiol pobl wyn yng Nghymru; *My Left Nut* o Belfast; *Alma's not Normal*, wedi ei leoli yn Bolton; a *Years and Years* gyda Ruth Madeley, a aned â spina bifida.

Mae cyflogi amrywiaeth ehangach o ddoniau cynhyrchu o lawer o gymunedau yn ganolog i gefnogi doniau ar y sgrin/ar yr awyr i bortreadu'n ddilys. Mae'r BBC yn adrodd ar nifer o deitlau sy'n hyrwyddo hyn, gan gynnwys *Noughts + Crosses*, a *Small Axe*, am gymuned India'r Gorllewin Llundain, a roddodd gyfle i hyfforddeion o leiafrifoedd ethnig weithio ar y cynhyrchiad. Mae'n amlwg bod y BBC yn bwriadu adeiladu ar y dull hwn gyda'r Gronfa Amrywiaeth Greadigol, a fydd yn gofyn am gynrychiolaeth amrywiol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin er mwyn sicrhau cyllid. s

Mae'r cynlluniau hyfforddi, cyflogaeth a dilyniant oddi ar y sgrin yn unig a nodwyd, sydd wedi eu cynllunio i amrywio cynrychiolaeth, yn cynnwys Cynllun Hyfforddeion Amrywiaeth Drama BBC Studios; y Gronfa Amrywiaeth; Cronfa Amrywiaeth y Plant; Fierce Women, cynllun Hyfforddi Ieuenctid Mamma a chynllun Elevate, sydd wedi ei anelu at ddoniau anabl. Mae'r BBC hefyd wedi nodi ei fwriad i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn ymhellach wrth lansio ei Ymrwymiad Amrywiaeth Greadigol y flwyddyn nesaf.

Mae gwella amrywiaeth staff comisiynu'r BBC hefyd yn ganolog i sicrhau newid gwirioneddol yn amrywiaeth ei allbwn. Mae gan y BBC Raglen Datblygu Comisiynwyr Cynnwys dros gyfnod o ddwy flynedd i'w helpu i ddatrys tangynrychiolaeth comisiynwyr o leiafrifoedd ethnig, ond rydym yn ei annog i ystyried sut gall hefyd sicrhau rhagor o amrywiaeth daearyddol yn ei dimau comisiynu.

Mae'n amlwg bod ysgogiad newydd yn y BBC i wneud mwy i sicrhau amrywiaeth, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, a bod yr ymgyrch hon dros newid yn cael ei harwain o'r brig. Fodd bynnag, mae'n anodd canfod pa gynnydd mae'r BBC yn ei wneud o ran cynrychioli, portreadu a gwasanaethu holl gymunedau'r Deyrnas Unedig yn gywir. Mae'n rhy gynnar yng nghyfnod y Drwydded Weithredu wneud dyfarniad ar sail data canfyddiadau cynulleidfaoedd yn unig, o ystyried bod newidiadau yn y dull cynhyrchu yn cymryd amser i hidlo drwodd i wylwyr. Mae llawer o weithgarwch, ond nid yw'n amlwg eto pa mor effeithiol ydyw.

Dyma ein prif sylwadau ar ddull y BBC o adrodd ar gyflawni cynrychiolaeth a phortreadu:

- mae'r dystiolaeth a ddarperir ar lefel uchel yn gyffredinol, ac yn aml mae'n cynnwys rhestrau o raglenni/teitlau cynnwys a mentrau heb fanylion ynghylch maint, gwariant na hyd;
- mae gwybodaeth yn aml wedi ei chyfyngu i'r hyn *yw'r* gweithgareddau yn hytrach na'r *effaith* maent wedi ei chael; mae cynlluniau'n tueddu i beidio â chael eu cysylltu'n glir â gofynion, amcanion pendant, cynnydd mesuradwy neu ganlyniadau – mae eithriadau i hyn, a'r Prosiect 50:50 yw'r enghraifft gliriaf o hynny, ac rydym yn annog y BBC i adeiladu ar y rhain; a
- chroesewir cynnwys astudiaethau achos fel tystiolaeth, ond mae'r ansawdd yn amrywio ar hyn o bryd – roedd astudiaeth achos RAISED (Real Action in Socio-economic Diversity) yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC yn taflu goleuni ar sut mae ei rwydwaith symudedd cymdeithasol newydd yn gwneud gwahaniaeth, tra'r oedd eraill yn brin iawn o fanylion.

Rydym yn deall nad yw bob amser yn hawdd rhoi mesurau mesuradwy ar brosesau creadigol, ond mae'r amrywiaeth yn y wybodaeth a ddarperir eleni yn dangos bod mwy y gall y BBC ei wneud i asesu ac adrodd ar ei weithgarwch mewn ffordd fwy tryloyw, cyson a chynhwysfawr. Rydym yn croesawu gwaith y BBC i greu'r Glasbrint Perthyn, sy'n nodi fframwaith ar gyfer gweithredu polisïau amrywiaeth ac asesu eu canlyniadau. Dylai'r adnodd hwn helpu'r BBC i fynd i'r afael â'r materion rydym wedi eu nodi.

Er ein bod ni'n cydnabod bod modd cysylltu cynrychiolaeth a phortreadu yn gryf, rydym ni o'r farn bod angen i'r BBC fynd ymhellach yn ei adroddiadau o dan amod 2.44 er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddau fater gwahanol hyn. Dylai hefyd ddarparu tystiolaeth ynghylch sut mae wedi perfformio o ran pob is-amod o dan adran 2.42 o'r Drwydded Weithredu, i'r graddau y mae wedi adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig gyfan.

Rydym hefyd o'r farn y dylai'r BBC osod strategaeth gyffredinol glir ar gyfer cyflawni o ran ei rwymedigaethau amrywiaeth yng Nghynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant nesaf y Gorfforaeth ar gyfer 2021/22 ymlaen, er mwyn iddo allu mesur ei gynnydd yn glir ac yn wrthrychol ac adrodd ar ei gynnydd yn flynyddol. Bydd hyn yn galluogi'r BBC i ddeall yn llawn effaith ei ymdrechion sylweddol, i adrodd ar ei lwyddiant; i ddeall lle gallai fod wedi gwneud yn well; ac i ddangos sut mae'n dal ei hun yn atebol am gyflawni cynrychiolaeth a phortreadu yn ehangach, ar y sgrin ac oddi arni.

## Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth

Mae’r Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth yn darparu’r fframwaith i sicrhau bod ystyriaethau amrywiaeth yn cael eu gwreiddio’n gyson ym mhrosesau comisiynu’r BBC. Dyma’r ail flwyddyn mae’r Cod wedi bod yn gymwys, a gallwn weld bod gweithredu’n parhau i fod yn waith sy’n mynd rhagddo. Rydym yn annog y BBC i ystyried y dadansoddiad isod wrth ganolbwyntio ar feysydd i’w gwella yn ei drydedd flwyddyn.



**Man like Mobeen** (llun drwy garedigrwydd y BBC)

### Mae angen i’r BBC allu dangos ei fod yn dal ei hun a’i gyflenwyr i gyfrif wrth gyflawni gofynion y Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth

Nid yw’r rhan fwyaf o’r gofynion sy’n canolbwyntio ar ddisgwyliadau’r BBC o gynhyrchwyr wedi cael eu gweithredu’n llawn eto. Wrth i'r BBC barhau i weithio'n agos gyda gwneuthurwyr cynnwys i sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn â'r Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth ac yn cyflawni ei ddisgwyliadau, rydym yn gobeithio gweld mwy o'r gofynion hyn yn cael eu rhestru fel rhai 'wedi eu gweithredu'n llawn' y flwyddyn nesaf.

Yn ddefnyddiol, mae’r adroddiad cynnydd yn dangos pan fydd cynhyrchwyr yn methu â chyrraedd eu disgwyliadau, bod y BBC yn cymryd camau i ddelio â hyn fel rhan o’r broses gomisiynu a chynhyrchu safonol; er enghraifft, drwy ail-saethu deunydd rhaglenni. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod y BBC yn egluro sut mae’n dal cynhyrchwyr i gyfrif mewn achosion lle maent dro ar ôl tro yn methu bodloni disgwyliadau’r Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth, neu nad ydynt yn ymgysylltu ag ef. Rydym yn argymell yn gryf bod y BBC, mewn adroddiadau cynnydd yn y dyfodol, yn nodi’n glir sut mae’n annog cynhyrchwyr i gydymffurfio’n llawn â’r Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth. I ategu hyn, rydym hefyd yn gofyn i’r BBC rannu ei adroddiadau ar y gofyniad canlynol.

> *‘Ein nod yw cydweithio a chefnogi’r rhai sy’n cynhyrchu cynnwys i ni ond lle mae cynhyrchwyr yn methu â bodloni disgwyliadau’n barhaus neu nad ydynt yn ymgysylltu â’r cod, bydd y BBC yn cymryd camau priodol.’*

Mae hyn yn cynnwys dau weithgaredd tra gwahanol: 1) ymdrechion cydweithredol a 2) y camau a gymerwyd i reoli diffyg cydymffurfio – y naill a’r llall yn hanfodol o ran uniondeb y Cod. Er ei bod yn

amlwg bod y BBC yn cydweithio ac yn cefnogi'r rhai sy'n cynhyrchu ei gynnwys, nid yw'n glir a yw'r BBC yn delio â diffyg cydymffurfio, na sut mae'n gwneud hynny.

Rydym hefyd yn awgrymu bod y BBC yn egluro ei broses ar gyfer sicrhau bod cynhyrchwyr sy'n methu ymgysylltu â'r Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth yn dechrau ymgysylltu, a bod y BBC yn rhoi enghreifftiau i Ofcom o sut mae hyn wedi cael ei gyflawni.

Bydd y newidiadau hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod y BBC, fel darlledwr a gwneuthurwr rhaglenni, yn gallu dangos trylwyredd y Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth a'i ymrwymiad i ddal ei hun a'r cynhyrchwyr y mae'n gweithio â nhw i gyfrif.

### I ddangos sut mae'r BBC wedi cydymffurfio â'i God Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth, dylai adroddiadau yn y dyfodol wneud cysylltiadau clir rhwng y gweithgareddau a nodwyd a gofynion penodol y Cod

Mae'r materion adrodd rydym wedi eu nodi mewn perthynas â chynrychiolaeth a phortreadu, uchod, hefyd yn berthnasol i ddull y BBC o adrodd ar ei gydymffurfiad â'r Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth. Mae'r manylion cyfyngedig y gellir eu mesur yn naratif yr Adroddiad Cynnydd yn golygu bod y BBC yn dibynnu'n helaeth ar yr adran Canlyniadau wedi eu codio â lliw ar gyfer 2020 ar ddiwedd yr adroddiad i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r 50 gofyniad manwl yn y Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth (wedi eu rhannu ar draws pum egwyddor). Mae'r adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd i fodloni gofynion y Cod fel rhai sydd naill ai wedi eu gweithredu'n llawn ar draws y BBC a gyda chynhyrchwyr y mae'n gweithio gyda nhw (gwyrdd); lle mae cynnydd wedi e wneud ond nad yw'r camau wedi eu rhoi ar waith yn llawn (melyn); neu lle nad yw cam wedi ei roi ar waith eto (coch).

Mae'r adran Canlyniadau yn awgrymu bod y cynnydd cyffredinol yn debyg iawn i'r llynedd, gyda phob cam naill ai'n wyrdd neu'n ambr. Fodd bynnag, mae'r dull goleuadau traffig syml o gadarnhau cydymffurfiad yn aneglur, ac yn brin o fanylion ac atebolrwydd clir. Mae'n arbennig o broblematig o ran gofynion sydd wedi eu marcio fel rhai 'ar y gweill' (ambr) gan nad yw'n bosibl asesu pa agweddau ar ofyniad sydd wedi eu cyflawni a pha agweddau nad ydynt wedi cael eu cyflawni; a yw pob agwedd wedi cael ei chyflawni gan rai gwneuthurwyr cynnwys ond nid gan eraill; ynteu a oes gwahaniaethau o ran cydymffurfio rhwng cynhyrchwyr mewnol a chyflenwyr allanol.

Bydd yn bwysig i'r BBC ystyried sut mae'n cyflwyno ei ganfyddiadau mewn Adroddiadau Cynnydd yn y dyfodol, er mwyn cysylltu'n glir y gweithgareddau mae wedi ymgymryd â nhw a gofynion penodol y Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth. Dylai'r BBC hefyd barhau â'i ymdrechion yn ei Adroddiad Cynnydd i greu cysylltiadau clir rhwng gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Chod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth y BBC a chyflawni ei rwymedigaethau o ran cynrychioli a phortreadu. Bydd tystiolaeth fwy mesuradwy yn helpu i roi eglurder ar gynnydd y BBC ac yn nodi lle mae angen rhagor o waith.

Pan fydd anawsterau o ran tracio cynnydd - er enghraifft, mewn perthynas â chomisiynau sy'n cael eu cyllido ar y cyd, dylai'r BBC egluro sut mae hyn yn cael sylw. Os nad oes llawer o gynnydd wedi ei wneud (neu ddim cynnydd o gwbl), dylai'r BBC fod yn dryloyw ynghylch hyn ac egluro'r camau y bydd yn eu cymryd i wella perfformiad yn y dyfodol.

# Gweithlu

## Mae'r BBC yn cynyddu'r amrywiaeth o ddata gweithlu mae'n ei gyhoeddi, gan wella ei dryloywder a'i atebolrwydd

Mae'r Drwydded Weithredu yn mynnu bod y BBC yn monitro ac yn adrodd ar amrywiaeth ei holl staff sy'n cael eu cyflogi mewn cysylltiad â darparu ei wasanaethau cyhoeddus, a'r graddau mae wedi gwneud cynnydd tuag at gyrraedd ei dargedau amrywiaeth y gweithlu. Mae ein hadroddiad Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal mewn Teledu a Radio ar gyfer 2019/20 yn dangos mai'r BBC sy'n arwain y diwydiant fel y casglwr data amrywiaeth cyffredinol mwyaf cynhwysfawr ar gyfer ei weithwyr. Mae'r BBC yn cynnwys llawer o'r wybodaeth hon yn ei Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb sydd ynghlwm wrth ei Adroddiad a'i Gyfrifon Blynyddol.

Y llynedd, fe wnaethom ni ddweud y dylai'r BBC hefyd gyhoeddi data BBC Studios, oherwydd bod uno BBC Studios a BBC Worldwide yn 2018 wedi lleihau tryloywder o ran amrywiaeth gweithlu BBC Studios yn y Deyrnas Unedig. Ar ôl trafodaethau pellach, rydym yn falch bod y BBC wedi cyhoeddi dadansoddiad o ystadegau amrywiaeth BBC Studios yn ei Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb eleni. Mae hyn yn arwyddocaol gan ei fod yn cipio data yn uniongyrchol gan y sector cynhyrchu teledu ac yn helpu i roi gwell dealltwriaeth o amrywiaeth gweithlu ehangach y diwydiant.

Mae'r BBC hefyd wedi cynyddu tryloywder data ei weithlu drwy rannu ei ffigurau ar gyfer pob grŵp ethnig o dan y pennawd BAME a thrwy gyhoeddi data ar grwpiau economaidd-gymdeithasol gweithwyr am y tro cyntaf, ac rydym yn croesawu hynny.

Er mwyn adeiladu ar y cynnydd hwn, hoffem hefyd weld y BBC yn dechrau adrodd ar ei ddata amrywiaeth yn ôl ardal ddaearyddol. Rydym ni o'r farn y byddai hyn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar gyfansoddiad demograffig ei weithlu ledled y Deyrnas Unedig. Gallai hyn, yn ei dro, helpu'r BBC i nodi camau y gall eu cymryd i wella lefelau bodlonrwydd cynulleidfaoedd mewn cymunedau penodol. Byddwn yn trafod gyda'r BBC sut gellir cyflawni hyn ac yn edrych ar y posibilrwydd o gasglu data trawsbynciol arall am y gweithlu er mwyn cael darlun llawer cliriach o weithlu'r BBC. Byddwn hefyd yn cynnal trafodaethau tebyg gyda darlledwyr eraill, gyda'r bwriad o integreiddio'r data hwn yn adroddiadau blynyddol Ofcom yn y dyfodol ar amrywiaeth gweithlu'r diwydiant darlledu.

Y llynedd, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod ffigurau a chanrannau Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb y BBC yn seiliedig ar nifer y gweithwyr a ddarparodd eu gwybodaeth am amrywiaeth, yn hytrach na chyfanswm y gweithlu, gan arwain at gyhoeddi is-set yn unig o'i ddata. Fe wnaethom argymell bod y BBC yn adrodd ar sail cyfanswm y gweithlu o ran yr holl nodweddion amrywiaeth yn y dyfodol er mwyn darparu darlun mwy cywir a thryloyw. Mae'r BBC wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi ei ddata ar y sail hon ar gyfer cyfnod nesaf ei strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant, o 2021 ymlaen.

Er bod y BBC wedi cadw ei ddull adrodd ar gyfer data gweithlu eleni i adrodd ar y targedau a osodwyd yn ei strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2016-20, mae wedi darparu data am

amrywiaeth y gweithlu i Ofcom ar gyfer y gweithlu cyfan sy'n cael ei gyflogi mewn cysylltiad â'i weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn cyfrannu at ein hasesiad o'i berfformiad.[118]

### Mae'r BBC yn parhau i wneud cynnydd tuag at sicrhau gweithlu mwy amrywiol, ond mae cyflymder y newid yn dal yn araf

Y dyddiad cau ar gyfer targedau gweithlu'r BBC a osodwyd yn 2016 yw diwedd y flwyddyn galendr hon. Mae Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC yn dangos bod y BBC, erbyn diwedd mis Mawrth 2020, eisoes wedi rhagori ar bump o'i wyth targed arweinyddiaeth, a'i holl dargedau staff, ond bod ganddo fwy i'w wneud o hyd i gyflawni ei dargedau ynghylch menywod ar draws yr holl staff yn ogystal ag mewn rolau arwain, ac ar gyfer staff o leiafrifoedd ethnig mewn rolau arwain. I'r gwrthwyneb, mae'r data a ddarparwyd gan y BBC ar ein cais yn awgrymu ei fod ychydig ymhellach oddi wrth y nodau hyn ar lefel yr holl staff o ran cydweithwyr sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus, gan ei fod wedi rhagori ar y targed anabledd yn unig hyd yma.[119] Ffigur 18 hefyd yn dangos bod y BBC yn perfformio'n agos at y meincnodau cenedlaethol neu'n uwch na'r meincnodau cenedlaethol o ran y tri tharged arall, ond mae'n llawer is na chyfartaledd y gweithlu lleiafrifoedd ethnig lleol ar gyfer Llundain (35%) a Manceinion (31%), lle mae llawer o staff y BBC wedi eu lleoli.

**Ffigur 18: Targedau gweithlu'r BBC, yn ôl nodwedd**

| Grŵp (ar draws pob lefel swydd) | Targed y BBC (Rhagfyr 2020) | Data gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y Deyrnas Unedig* (Mawrth 2020) | Meincnodau cynrychioliadol cenedlaethol (gweithlu) |
|---|---|---|---|
| Merched | 50% | 46% | 47% |
| BAME (lleiafrifoedd ethnig) | 15% | 13% | 12% |
| Pobl Anabl | 8% | 10% | 19% |
| LGB(TQ+)[120] | 8% | 7% | 2% |

*Ffynhonnell: Ymateb y BBC i Gais Ofcom am Wybodaeth*
**Mae'n cynnwys 'gwell gen i beidio â dweud' a 'heb eu casglu'*

[118] Mae'r data hwn yn cynnwys rhywfaint o staff ychwanegol y BBC (y rhai a ddewisodd beidio â darparu eu gwybodaeth am amrywiaeth) ac nid yw'n cynnwys eraill sydd wedi eu cynnwys yn ffigurau'r Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb (staff y BBC nad ydynt yn cael eu cyflogi mewn cysylltiad â'r gweithgareddau gwasanaethau cyhoeddus), felly mae ffigurau Ofcom yn wahanol i'r rhai a gyhoeddir gan y BBC.
[119] Nid oes gennym ddata sy'n cymharu'n uniongyrchol ar gyfer 'arweinyddiaeth' gan fod hyn yn cynnwys uwch reolwyr a rhai rolau rheolwyr canol – gweler yr adran berthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad rhyngweithiol am ragor o fanylion.
[120] Mae targedau'r BBC (colofn 1) yn cynnwys staff LGBTQ+. Mae'r ffigurau yng ngholofnau 2 a 3 yn cynnwys staff sy'n lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol yn unig – gan mai dim ond data ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol yn hytrach na rhyw a ddarperir i Ofcom o dan y pennawd hwn.

O dan y prif ffigurau ar gyfer y grwpiau targed hyn, mae'r darlun yn un cymhleth. Mae'r data'n dangos bod amrywiadau sylweddol yn aml mewn cynrychiolaeth ar wahanol lefelau swyddi, neu ar draws y rhychwant o swyddi. Er enghraifft, mae staff anabl yn cynrychioli 14% o'r grŵp rheoli darlledu ond dim ond 8% o newyddiadurwyr a 7% o ddoniau ar y sgrin. Mae menywod 50 oed neu hŷn yn cyfrif am ychydig dros chwarter (26%) y gweithlu, tra mae dynion 50 oed a hŷn yn cyfrif am draean (y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y naill a'r llall yw 32%). Ceir amrywiadau hefyd yn y graddfeydd swyddi rhwng y gwahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig y mae targed y BBC yn berthnasol iddynt. Er enghraifft, mae nifer y staff Du/Affricanaidd/Caribïaidd a gyflogir ar draws pob lefel swydd yn gyson â'r cyfartaledd cenedlaethol (3%)[121], ond mae'n is ar lefel uwch reolwyr (1%). Mae'r amrywiadau hyn yn dangos bod mwy i'w wneud o hyd i sicrhau mwy o gyfle cyfartal yn y BBC. Mae hyn yn bwysig o ran tegwch a sicrhau bod y BBC yn gallu taro tant â'i holl gynulleidfaoedd, a darparu ar eu cyfer.

Wrth ystyried perfformiad y BBC o'i gymharu â'r diwydiant ehangach, mae adroddiad Ofcom ar Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal mewn Teledu a Radio yn 2019/20 yn dangos bod rhai darlledwyr yn parhau i berfformio'n well na'r BBC o ran nifer o nodweddion amrywiaeth yn achos teledu a radio.

Ar gyfer is-adran teledu gweithlu'r BBC, roedd ei gynrychiolaeth o fenywod yn gyffredinol ac ar lefel uwch reolwyr y tu ôl i Channel 4, ITV a Viacom y llynedd. Roedd cyfanswm cyfran teledu'r BBC o staff o leiafrifoedd ethnig yn is na chyfran Viacom, Sky a Channel 4. Roedd cyfran yr uwch reolwyr o gefndir lleiafrifoedd ethnig hefyd yn is na Channel 4 a Viacom. Teledu'r BBC ynghyd â Channel 4 sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr anabl ar lefel yr holl gydweithwyr o'u cymharu â darlledwyr teledu eraill (y naill a'r llall ar 10%), ond nid yw'r ffigur hwn wedi cynyddu er 2018 ac mae'n dal yn is o lawer na chyfran y bobl anabl sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig, sef 19%. Y BBC yw'r unig ddarlledwr teledu sydd â digon o uwch staff anabl (9%) i Ofcom allu adrodd ar ei ddata.

Mae'r BBC yn rhoi cynlluniau ar waith mewn ymgais i gynyddu cyfran y bobl anabl yn ei weithlu, gan gynnwys y cynllun Elevate ar draws y BBC a'r Rhaglen Extend mewn newyddion a materion cyfoes y BBC. Mae hefyd wedi gosod targed o 12% iddo ei hun yng nghynllun Doubling Disability y Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol. Roedd y cynllun i fod i ddod i ben ddiwedd 2020, ond mae'r Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer y cynllun i fis Rhagfyr 2021 i adlewyrchu effaith argyfwng Covid-19 ar recriwtio. Rydym yn annog y BBC i ganfod rhagor o ffyrdd o gynnig rhagor o gyfle cyfartal i bobl anabl er mwyn iddo allu cyrraedd y targed hwn yn hyderus y flwyddyn nesaf.

Ynghyd â'r darlledwyr radio masnachol mwyaf, roedd radio'r BBC yn uwch na meincnod y Deyrnas Unedig ar gyfer menywod ar bob lefel (51%), ond nid yw wedi ei gyrraedd eto ar gyfer menywod ar lefelau uwch reolwyr (42%), gan berfformio'n llai cystal na Bauer (48%) a Global (45%). Mae adroddiadau gwell gan ddarlledwyr eraill yn dangos bod Global wedi symud ar y blaen i'r BBC o ran cynrychiolaeth y gweithlu o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ar lefel y gweithlu a'r uwch reolwyr yn 2019/20. Fodd bynnag, mae gan radio'r BBC fwy o gynrychiolaeth o staff anabl ar lefel yr holl weithlu, a dyma'r unig ddarlledwr radio sydd â digon o uwch staff anabl i Ofcom allu adrodd ar ei ddata.  Ar 13%, dyma'r ffigur uchaf ar draws y ddau ddiwydiant.

[121] Ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A09: Statws yn y farchnad lafur yn ôl grŵp ethnig (cyfartaledd Ebrill-Mehefin 19, Gorffennaf-Medi 19, Hydref-Rhagfyr 19, Ionawr-Mawrth 20). Pob unigolyn Du/Affricanaidd/Caribïaidd 16 oed a hŷn mewn cyflogaeth.

Mae'r BBC yn cydnabod yn barod, er gwaethaf llu o gynlluniau cadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf, nad yw maint a chyflymder y newid i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y gweithlu wedi bod yn ddigon mawr. Mae ei berfformiad o'i gymharu â darlledwyr eraill yn tynnu sylw at hyn. Yn ei araith gyntaf fel Cyfarwyddwr Cyffredinol, dywedodd Tim Davie ei fod eisiau creu sefydliad sy'n llawer mwy cynrychioliadol o'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol a'i fod yn bwriadu gwneud rheolwyr yn unigol atebol am gyflwyno amrywiaeth yn eu timau. Nodir yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC hefyd bod y BBC a BBC Studios yn diweddaru eu dulliau recriwtio i greu gweithlu mwy amrywiol. Rydym yn croesawu'r dull rhagweithiol hwn sydd â'r nod o sicrhau newid cadarnhaol yn y gweithlu yn gynt.

Er mwyn helpu i gyflawni'r newid hwn, mae Tim Davie wedi datgan ei uchelgais i greu sefydliad '50/20/12' er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas mae'n ei gwasanaethu'n fwy cywir (50% o fenywod, 50% o ddynion, o leiaf 20% o weithwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac o leiaf 12% o bobl anabl). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 5% ar y targed presennol ar gyfer y gweithlu lleiafrifoedd ethnig ac mae'n gyson â'r targed presennol o 12% yn *Doubling Disability*, a fydd yn cael ei gyrraedd erbyn mis Rhagfyr 2021, a'r targed o 50% ar gyfer menywod, gan ddod i ben ddiwedd y flwyddyn hon. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw'r targed newydd ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn berthnasol i bob lefel o swyddi, na sut mae'r BBC yn bwriadu gwella ei gynrychiolaeth ar gyfer pobl LGBTQ+ o 2021 ymlaen. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cael sylw pan fydd y BBC yn cyhoeddi ei Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ar gyfer 2021 ymlaen. Rydym ni'n pwysleisio y dylai'r BBC, wrth bennu nodau newydd, weithio i gyflawni ei holl dargedau ar draws pob un o wahanol adrannau ei weithlu, gan gynnwys yr holl grwpiau gwahanol sy'n cael eu cynnwys o dan y penawdau 'BAME' a 'LGBTQ+', yn ogystal ag ar bob graddfa ac ar draws rolau swyddi lle mae anghysondebau sylweddol o hyd.

## Yr economi greadigol

Wrth gefnogi'r economi greadigol, mae'r BBC yn arwain (neu'n cymryd rhan mewn) nifer o weithgareddau i hyrwyddo rhagor o amrywiaeth yn ei gadwyn gyflenwi a'r celfyddydau yn ehangach. Mae'r pecyn cymorth RIVERS newydd, sy'n awgrymu camau y gall cynhyrchwyr eu cymryd i wneud eu harferion cynhyrchu'n fwy cynhwysol, a chyd-gyllido cynghorydd amrywiaeth Pact (Cynghrair Cynhyrchwyr Sinema a Theledu) yn enghreifftiau o sut mae'r BBC yn gweithio i ddarparu cymorth ymarferol i gwmnïau cynhyrchu er mwyn sicrhau rhagor o amrywiaeth greadigol yn eu cynnyrch a'u gweithluoedd. Mae ymdrechion i gefnogi mwy o amrywiaeth yn economi greadigol ehangach y Deyrnas Unedig hefyd yn amlwg mewn cynlluniau fel y cydweithio rhwng BBC Radio 3, Cerddorfa Ffilharmonig y BBC a Choleg Cerdd Brenhinol Gogledd Lloegr i gynnal dwy gynhadledd y llynedd ar amrywiaeth ethnig mewn cyfansoddi. Mae gwaith wedi ei wneud i ddod o hyd i ddoniau amrywiol newydd a'u datblygu hefyd drwy brosiectau fel chwilio am ddoniau *New Voices* gwledydd y BBC a radio lleol, a phartneriaethau doniau BBC Arts â Chyngor Celfyddydau Cymru, Creative Scotland a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Er nad ydym yn glir o hyd ynghylch effaith rhai o'r cynlluniau hyn, mae'r gweithgarwch hwn yn tynnu sylw at y rôl unigryw a gwerthfawr mae'r BBC yn ei chwarae yng nghymdeithas y Deyrnas Unedig a'r amrywiaeth o gyfraniadau mae'n eu gwneud, y tu hwnt i greu cynnwys, yn ei waith i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ehangach.



**His Dark Materials** (llun drwy garedigrwydd y BBC)

### Mae gan y BBC rôl hollbwysig i'w chwarae o ran cefnogi'r economi greadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau, yn enwedig wrth iddo ddod dros effaith argyfwng Covid-19

Mae Diben Cyhoeddus 4 yn rhoi dyletswydd ar y BBC i gyflwyno cynnwys sy'n bodloni anghenion pob cynulleidfa ar draws y Deyrnas Unedig, a buddsoddi yn economïau creadigol y gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad. O dan y Drwydded Weithredu, rydym yn mynnu bod y BBC yn gwario tua'r un faint y pen ar gynnwys yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, yn ogystal â sicrhau bod o leiaf hanner y cynyrchiadau rhwydwaith cymwys yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain. Rydym hefyd yn pennu isafswm oriau o raglenni rhwydwaith cymwys y mae'n rhaid eu gwneud ym mhob gwlad.

Mae'r BBC yn parhau i fodloni ei gwotâu gwariant ac oriau ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith gwreiddiol yn y gwledydd a rhanbarthau Lloegr, fel y nodir yn y Drwydded Weithredu. Doedd dim newidiadau mawr o un flwyddyn i'r llall; roedd ei wariant cymwys ar gynnwys rhwydwaith yr un fath ag yn 2018 (5.7%) ac roedd ei oriau cymwys o gynhyrchu rhwydwaith yn unol â 2018 (61.8% yn 2019 o'i gymharu â 62.3% yn 2018).[122] Dadansoddiad ar gyfer pob gwlad:[123]

- **Rhanbarthau Lloegr:** Gwelwyd cynnydd bach iawn o un flwyddyn i'r llall mewn gwariant (o 28.4% i 29.4%) ac oriau (o 37.1% i 38.4%). Enghreifftiau o raglenni a gymhwysodd fel rhai a wnaed yng Ngogledd Lloegr yn 2019 yw *Match of the Day* ac *Years and Years*. Roedd rhaglenni a wnaed yng Nghanolbarth a Dwyrain Lloegr yn cynnwys *Doctors* a *Great British Menu*, ac yn Ne Lloegr roedd enghreifftiau'n cynnwys *The Repair Shop* a *Seven Worlds, One Planet*.
- **Cymru**: Cynyddodd y gyfran gymwys o wariant (6.3% i 8.2%), yn yr un modd â'r oriau, ond roedd y naid yn llai (4.6% i 5.4%). Enghreifftiau o raglenni a oedd yn gymwys fel rhai a wnaed yng Nghymru yw *His Dark Materials, Casualty, Bargain Hunt* ac *Only Connect*.
- **Yr Alban**: Roedd cyfran y gwariant cymwys (10.4% i 9.1%) a'r oriau (16.7% i 15.1%) ill dau wedi disgyn, ond yn dal yn uwch na'r cwota. Roedd rhaglenni a oedd yn gymwys fel rhai a wnaed yn yr Alban yn cynnwys *All Round to Mrs Brown's*, *Eggheads* a *Homes Under the Hammer*.

[122] Ofcom, 2020, *Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2020*
[123] Ofcom, 2020, *Cofrestr o deitlau rhaglenni wedi eu gwneud y tu allan i Lundain, 2019*

- **Gogledd Iwerddon:** Roedd cynnydd ymylol iawn yn y gwariant cymwys (3.1% i 3.5%) a'r oriau (2.4% i 2.7%). Enghreifftiau o raglenni a gymhwysodd fel rhai a wnaed yng Ngogledd Iwerddon oedd *Mastermind, Points of View* a *Wanted Down Under*.

Cafwyd datblygiadau cadarnhaol yn nifer y cwmnïau cynhyrchu sy'n gweithio gyda'r BBC sydd wedi eu lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn ôl Adroddiad ar Gyflenwi Comisiynau Teledu'r BBC, bu'r BBC yn gweithio gyda 40 o gwmnïau cynhyrchu newydd yn y gwledydd a'r rhanbarthau y llynedd (o'i gymharu â 29 yn 2018). Roedd pum deg saith y cant o'r cwmnïau cynhyrchu y bu'r BBC yn gweithio gyda nhw yn 2019 wedi eu lleoli y tu allan i Lundain (o'i gymharu â 50% yn 2018): 19% yn yr Alban, 17% yn rhanbarthau Lloegr, 11% yng Nghymru a 10% yng Ngogledd Iwerddon.

Fodd bynnag, mae gwahaniaeth o ran faint mae'r BBC yn ei fuddsoddi mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig. Er bod y boblogaeth yn gyfanswm o tua 16 miliwn (tua 25% o gyfanswm poblogaeth y Deyrnas Unedig)[124], dim ond 2.8% o wariant cymwys y BBC ar gynyrchiadau yn 2019 a wariwyd yng Nghanolbarth a Dwyrain Lloegr, a dim ond 2% o'r cwmnïau cynhyrchu a fu'n gweithio gyda'r BBC yn 2019 oedd wedi eu lleoli yno.[125]

## Presenoldeb y BBC yn y gwledydd a rhanbarthau Lloegr

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y BBC gynlluniau i greu canolfan dechnoleg yn Newcastle ac i ehangu ei bresenoldeb yn Salford a Bryste, ac agorodd ei bencadlys newydd ar gyfer BBC Cymru yn Sgwâr Canolog Caerdydd. Mae'n gadarnhaol bod y BBC yn sefydlu mwy o bresenoldeb yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC, a ailadroddwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd, i beidio â chanoli cymaint ar Lundain yn y blynyddoedd i ddod. Yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2020/21, pennodd darged i leoli o leiaf ddwy ran o dair o'r BBC ledled y wlad erbyn diwedd cyfnod y Siarter hwn (2027), er ein bod yn nodi mai dim ond ymrwymiad i 50% sydd yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC Rydym ni'n disgwyl i'r BBC fynegi sut bydd symud mwy o'i weithrediadau a'i adnoddau i ffwrdd o Lundain yn ei helpu i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus yn well, yn enwedig i wella'r ffordd mae'n gwasanaethu, yn cynrychioli ac yn adlewyrchu pobl yn y gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr, ac yn cyfrannu at yr economi greadigol yn yr ardaloedd hynny. Bydd yn bwysig bod y BBC yn gallu mesur effaith y symud ar gynulleidfaoedd, ar yr economi greadigol ac ar gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

Eleni, rydym wedi clywed pryderon penodol sy'n ymwneud â phresenoldeb a phenderfyniadau'r BBC yn y gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr. Mae rhanddeiliaid yn y gwledydd wedi dweud wrthym nad oes gan y BBC bresenoldeb lefel uwch o ran comisiynu a gwneud penderfyniadau ar gyfer cynnwys rhwydwaith yn y gwledydd. Mae'n bosibl y bydd strategaeth y BBC i symud mwy o'i adnoddau a chanolbwyntio ar ardaloedd y tu allan i Lundain yn rhoi cyfle i ddatrys hyn, gyda'r potensial i gyflawni Diben Cyhoeddus 4 yn well.

[124] Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019, Ystadegau Proffil y Farchnad Lafur: Dwyrain Canolbarth Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Lloegr, y Deyrnas Unedig.
[125] Ofcom, 2020, *Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2020*. BBC, 2020, *Adroddiad Comisiynu Cyflenwi Teledu 2019*

Fel y nodwyd uchod, mynegwyd rhai pryderon wrthym ar ddechrau argyfwng Covid-19 ynghylch cywirdeb adroddiadau'r BBC ar bolisi iechyd datganoledig. Rydym hefyd yn cael sgyrsiau â rhanddeiliaid yng Nghymru ynghylch sut mae'r BBC yn adrodd ar faterion datganoledig yng Nghymru ar y rhwydwaith yn fwy cyffredinol. Rydym wedi gofyn am ragor o dystiolaeth am bryderon penodol sydd wedi eu codi.

Rydym hefyd wedi clywed pryderon am gynlluniau'r BBC i wneud newidiadau i'w raglenni newyddion a materion cyfoes rhanbarthol ar gyfer Lloegr. Fel y nodir uchod, rydym wedi gofyn i'r BBC esbonio'n fanylach effaith y newidiadau hyn ar gynulleidfaoedd, a'i strategaeth ar gyfer newyddion a materion cyfoes lleol a rhanbarthol.

Er ei fod y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y BBC ac Ofcom, mae rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon wedi mynegi eu pryder ynghylch absenoldeb parhaus Aelod o Fwrdd y BBC ar gyfer Gogledd Iwerddon a goblygiadau hyn o ran cynrychioli materion sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon yn y BBC. Mae'n bwysig bod holl wledydd y Deyrnas Unedig yn cael eu cynrychioli ar bob lefel yn y broses o wneud penderfyniadau yn y BBC er mwyn rhoi llais i'r gynulleidfa mae'r BBC yn ei gwasanaethu, ei chynrychioli a'i hadlewyrchu, a dal y BBC i gyfrif yn y gwledydd hynny.

## Perfformiad sianel deledu BBC Scotland yn ystod ei blwyddyn gyntaf

Yn dilyn cymeradwyaeth reoleiddiol, lansiwyd sianel deledu BBC Scotland ar 24 Chwefror 2019. Yn ei gynnig ar gyfer y gwasanaeth newydd, dywedodd y BBC ei fod yn bwriadu *'cwrdd â'r angen am gynnwys darlledu sy'n berthnasol ac yn gynrychioladol ac sy'n siarad â chynulleidfaoedd yng ngwlad fodern yr Alban'*. Roeddem yn cytuno â'r BBC y byddai'r sianel arfaethedig yn ehangu'r dewisiadau sydd ar gael i wylwyr yn yr Alban, bydd y rhaglenni newyddion yn canolbwyntio mwy ar yr Alban a bydd yn cyflwyno rhagor o gynnwys i adlewyrchu bywydau pobl yn yr Alban. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn cytuno'n fras y byddai cynnig y BBC yn cael canlyniadau cadarnhaol i gynulleidfaoedd yn yr Alban.

Gan fod y sianel wedi bod yn darlledu ers dros 18 mis erbyn hyn, credwn ei bod yn briodol edrych yn fanylach ar ei pherfformiad hyd yma. Nodwn nad oedd Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC yn cynnwys llawer o fanylion am berfformiad y sianel nac am argraffiadau'r gynulleidfa o'i heffaith.

Ar y cyfan, ar sail ein hymchwil, ein barn ni yw bod y sianel wedi perfformio'n gymharol dda yn ystod ei blwyddyn gyntaf. Mae'r sianel yn dal i sefydlu ei hun ymysg gwylwyr, ond mae arwyddion cynnar y gallai fod yn cael effaith gadarnhaol ymysg gwylwyr. Mae hefyd yn ymddangos bod y sianel wedi cymryd camau cadarnhaol i gefnogi sector cynhyrchu'r Alban, yn enwedig lleisiau a doniau newydd.



**Guilt** (llun drwy garedigrwydd y BBC)

### Mae cyrhaeddiad y sianel yn gymharol isel, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd iau ac o ran ei chynnwys newyddion

Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, treuliodd 15.5% o bobl yr Alban o leiaf chwarter awr yr wythnos yn gwylio sianel BBC Scotland yn ystod ei oriau darlledu, sef rhwng 7pm a hanner nos. Ar draws yr un cyfnod, roedd gan y sianel gyfran wylio gyfartalog o 2.1%, o fewn yr amrediad a ragwelwyd yn ein hasesiad cystadleuaeth (1.65% - 3.65%). O ran proffil y gynulleidfa, roedd 89% o gynulleidfa BBC Scotland yn 35 oed a hŷn, ac roedd 57% yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE. O'i gymharu â sianeli eraill y BBC, mae BBC Scotland yn denu cyfran uwch o gynulleidfa C2DE na BBC One, BBC Two, BBC News a BBC Four.[126]

Y rhaglen a gafodd ei gwylio gan y nifer mwyaf o bobl ar sianel BBC Scotland rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 oedd *Scot Squad*, ac yna *Murder Trial: The Disappearance of Margaret Fleming,* a *Still Game*.[127] Ond mae rhai rhaglenni eraill wedi cael trafferth adeiladu cynulleidfa.

Rhan allweddol o resymeg y BBC ar gyfer y sianel oedd y byddai'n darlledu rhaglen newyddion am 9pm ar nosweithiau'r wythnos, gyda straeon rhyngwladol, y Deyrnas Unedig a chenedlaethol yn cael sylw o safbwynt yr Alban, ac y byddai'r awr newyddion hon a'r sianel yn gyffredinol yn ehangu apêl y BBC i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn yr Alban, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau. Roedd y sioe flaenllaw hon, *The Nine*, yn denu cynulleidfa o 15,890 ar gyfartaledd a 0.84% o gyfran yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020, tra'r oedd *Reporting Scotland* ar BBC One Scotland yn denu 403,014 ar gyfartaledd ac yn 28% o'r gyfran. Mae data BARB yn dangos bod y gynulleidfa gyfartalog ymysg pobl ifanc 16-34 oed ar gyfer *The Nine* yn isel iawn (llai na 1,000 o bobl 16-34 oed fesul pennod), sy'n is o lawer nag ar gyfer *Reporting Scotland* (15,000 o bobl 16-34 oed fesul pennod).

Mae'n bwysig ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys BBC Scotland, a chynnwys heb fod ar y rhwydwaith yn fwy eang, ar BBC iPlayer er mwyn gallu ei ddangos i gynulleidfaoedd ar draws y Deyrnas Unedig a bod pobl o wahanol rannau o'r Deyrnas Unedig yn cael eu cyflwyno i'w gilydd. Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, cafwyd 60.1 miliwn o geisiadau i wylio cynnwys BBC Scotland ar BBC iPlayer.[128] Byddwn yn ailedrych ar berfformiad BBC iPlayer y sianel yn ein hadroddiad

[126] BARB

[127] BARB. Dyma'r rhaglenni sy'n cael eu gwylio amlaf yn seiliedig ar y bennod a berfformiodd orau ymhlith y teitlau hyn.

[128] Data'r BBC

nesaf, pan fyddwn yn gallu cymharu data o un flwyddyn i'r llall a chael gwell syniad o sut mae cynnwys y sianel wedi perfformio ar BBC iPlayer.

### Arwyddion cynnar yw ei bod yn ymddangos bod y sianel yn cael effaith gadarnhaol ar wylwyr

Mae'r sianel yn dal i sefydlu ei hun gyda chynulleidfaoedd yn yr Alban, ond mae'r arwyddion cynnar o'n Traciwr Perfformiad y BBC yn awgrymu y gallai'r sianel fod wedi cael effaith gadarnhaol gynnar ar argraffiadau gwylwyr o'r BBC a'i waith yn cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020. Roedd pobl yn yr Alban a ddywedodd eu bod yn gwylio sianel BBC Scotland yn fwy tebygol o roi sgôr argraff gadarnhaol i'r BBC (73% wedi rhoi sgôr o rhwng 7 a 10 allan o 10) na phobl yn yr Alban a ddywedodd nad oeddent yn ei gwylio (51%).

Roedd gwylwyr BBC Scotland hefyd yn llai negyddol o ran eu canfyddiadau o sut mae'r BBC yn cyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus na'r rhai nad oeddent yn gwylio'r sianel. Er enghraifft, rhoddodd 11% o wylwyr BBC Scotland sgôr negyddol (1-4 allan o 10) i'r BBC am gyflawni Diben Cyhoeddus 4, o'i gymharu â 21% o'r rhai nad oeddent yn gwylio'r sianel.

Fel y nodir uchod, mae pobl yn yr Alban yn dal i roi sgôr is i ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes y BBC nag yn y gwledydd eraill. Dim ond hanner yr oedolion yn yr Alban sy'n cytuno bod y BBC yn perfformio'n dda o ran cyflawni Diben Cyhoeddus 1, o'i gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, sef 59%. Fodd bynnag, roedd gwylwyr BBC Scotland yn llai negyddol o ran eu canfyddiadau o sut mae'r BBC yn cyflwyno newyddion a materion cyfoes na'r rhai yn yr Alban nad oeddent yn gwylio'r sianel. Rhoddodd tri ar ddeg y cant o wylwyr BBC Scotland sgôr negyddol (1-4 allan o 10) i'r BBC am ddarparu newyddion a materion cyfoes, o'i gymharu â bron i chwarter (24%) y bobl yn yr Alban nad oeddent yn gwylio BBC Scotland.[129]

### Roedd y sianel wedi cynyddu gwariant y BBC ar gynnwys gwreiddiol a wnaed yn yr Alban, ac oriau'r cynnwys hwnnw

Roeddem wedi cydnabod ar adeg ein hasesiad bod y graddau mae'r BBC yn darparu gwerth cyhoeddus i gynulleidfaoedd yn yr Alban yn dibynnu'n rhannol ar ddarparu cynnwys unigryw o ansawdd uchel o fewn y gyllideb sydd ar gael. Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, mae'r sianel wedi cynhyrchu cynnwys o ansawdd uchel sydd wedi ennill gwobrau, fel *Guilt* a *Murder Case*.

Roedd lansio'r sianel wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y cynnwys a gynhyrchwyd gan y BBC yn yr Alban. Cynyddodd gwariant y BBC ar gynnwys heb fod ar rwydwaith i'w ddarlledu am y tro cyntaf yn yr Alban 62%, o £44 miliwn yn 2018 i £71.4 miliwn yn 2019 (ac eithrio BBC ALBA). Gwelwyd cynnydd o 81% yn nifer yr oriau o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn yr Alban (ac eithrio BBC ALBA) i gyrraedd 1,342 awr (o'i gymharu â 740 awr yn 2018).[130]

Mae cyfyngiadau'r gyllideb ar gyfer y sianel wedi golygu bod y BBC wedi gorfod edrych ar gyd-gomisiynu gyda sianeli rhwydwaith. Er mwyn helpu'r sianel i sefydlu ei hun, roeddem wedi caniatáu i gyd-gomisiynau â sianeli rhwydwaith, i'w darlledu am y tro cyntaf ar BBC Scotland, gyfrif tuag at gwotâu cynyrchiadau rhanbarthol y BBC o dan delerau'r Drwydded Weithredu.

---

[129] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.
[130] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC

Yn ystod y flwyddyn, bu BBC Scotland yn gweithio ar wyth cyd-gomisiwn gyda sianeli rhwydwaith y BBC, gan gynnwys *Guilt* (BBC Two) a *Murder Trial: The Disappearance of Margaret Fleming* (BBC Two). Cafodd wyth o gomisiynau BBC Scotland eu darlledu wedyn ar sianeli eraill y BBC, gan gynnwys *Inside Central Station* (BBC Two) a *The Great Food Guys* (BBC One).[131] Mae cyd-gomisiynau a darllediadau rhwydwaith yn bwysig o ran sicrhau bod cynnwys a wneir yn yr Alban ac ar thema'r Alban yn cael ei ddangos i weddill y Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â sicrhau mwy o elw i'r gwneuthurwr rhaglenni.

### Mae'r sianel wedi cymryd camau cadarnhaol i gefnogi doniau newydd a helpu i greu sector cynhyrchu cynaliadwy yn yr Alban

Mae sianel BBC Scotland mewn sefyllfa unigryw i gefnogi'r economi greadigol yn yr Alban. Mae cael comisiynwyr yn yr Alban nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith yn werthfawr i economi greadigol yr Alban ac i gynulleidfaoedd, gan helpu i sicrhau bod yr amrywiaeth o raglenni yn berthnasol, yn gynrychioliadol ac yn adlewyrchu safbwyntiau golygyddol gwahanol. Yn ei blwyddyn gyntaf, mae BBC Scotland wedi cymryd camau cadarnhaol o ran comisiynu cynnwys gwreiddiol a chyfresi sy'n dychwelyd gan gyflenwyr yn yr Alban, ac o ran cefnogi doniau newydd yn yr Alban.

Gwyddom fod comisiynau ar gyfer cyfresi teledu sy'n dychwelyd, yn hytrach nag ar gyfer rhaglenni teledu untro, yn bwysig o ran creu sector cynhyrchu cynaliadwy. Dywedodd y BBC wrthym fod yr holl gyfresi a oedd yn dychwelyd a ddarlledwyd ar sianel BBC Scotland yn 2019/20 wedi cael eu gwneud gan gwmnïau cynhyrchu yn yr Alban, a bod 73% o'r oriau a ddarlledwyd ar y sianel rhwng ei lansio a diwedd mis Mawrth 2020 yn gyfresi teledu a oedd yn dychwelyd.[132]

Mae'r sianel wedi cymryd camau i gefnogi a datblygu doniau a lleisiau lleol newydd. Dywedodd y BBC wrthym fod y sianel, rhwng ei lansio a mis Mawrth 2020, wedi comisiynu rhaglenni gan 20 o gwmnïau cynhyrchu nad oeddent wedi gwneud cynnwys ar gyfer teledu sy'n cael ei ddarlledu gan y BBC o'r blaen.[133] Yn benodol, rydym yn croesawu'r dull a fabwysiadwyd gan y sianel wrth gomisiynu cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol newydd a bach sydd â syniadau creadigol cryf, ond nad oes ganddynt brofiad o wneud cynnwys teledu o bosibl, neu nad oes ganddynt y seilwaith cynhyrchu angenrheidiol o bosibl.

Un enghraifft o waith y sianel o ran cefnogi cwmnïau sy'n newydd i gynhyrchu teledu yw rhaglen BBC Scotland *A View from the Terrace*, a addaswyd ar gyfer y teledu o bodlediad pêl-droed hirsefydlog gan yr asiantaeth hysbysebu greadigol Studio Something. Cafodd y sioe ei henwebu ar gyfer gwobr y Rhaglen Chwaraeon Orau yng Ngwobrau Darlledu 2020 ac yn ddiweddar dychwelodd ar gyfer ei thrydedd gyfres.

[131] Data'r BBC
[132] Data'r BBC
[133] Dywedodd y BBC wrthym mai'r cwmnïau cynhyrchu hyn oedd: Aruna Productions Ltd, Blazing Griffin Ltd, D14 Productions Ltd, Dulcimer Films One Ltd, Forest of Black Ltd, Freakworks Ltd, Friday Film Productions Ltd, Melt the Fly, MLC Productions Ltd, Pixel Riddims Ltd, QuipuTV Ltd T/A QTV Sports, Sasquatch Productions, Studio Something Productions Ltd, Starhaus Produktionen GmbH, Timeslip Media Ltd, Tmesis Media Ltd, Turnergang Productions Ltd, Two Rivers Media Ltd, Up Helly Aa Ltd, Very Nice TV



# Effaith y BBC ar gystadleuaeth

Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy’n cael arian cyhoeddus, sy’n gweithredu ar draws teledu, radio ac ar-lein, mae’r BBC yn gallu cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth - yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae’n cystadlu â sefydliadau cyfryngau yn y Deyrnas Unedig yn ogystal â chwaraewyr byd-eang mawr fel Netflix, Spotify ac Amazon Prime. Mae ein rôl wedi ei nodi yn y Siarter a’r Cytundeb ac mae’n mynnu ein bod ni’n diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r cyd-destun cyfryngau y mae'r BBC yn gweithredu ynddo yn newid. Fel chwaraewyr eraill yn y sector, mae’r BBC yn gorfod esblygu, a bydd angen iddo arloesi a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o ddarparu ei wasanaethau er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd. Wrth wneud hynny, rhaid iddo gymryd gofal i osgoi effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth oni bai fod y rhain yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei Genhadaeth a’i Ddibenion Cyhoeddus yn effeithiol.

Mae’n bwysig bod y BBC ac Ofcom yn ystyried effaith newidiadau yn y farchnad yn ofalus yn unol â’r mecanweithiau a nodir yn y Siarter a’r Cytundeb. Nid yw hyn yn golygu y bydd pob newid i wasanaethau’r BBC yn destun proses reoleiddio; byddai hynny’n llesteirio gallu’r BBC i esblygu. Bydd ymgysylltu effeithiol gan y BBC â thrydydd partïon yn caniatáu iddo addasu ei gynigion i ystyried effeithiau posibl ar gystadleuaeth a lleihau’r tebygolrwydd y bydd angen ymyriad rheoleiddiol.

Gallwn hefyd ystyried gweithgareddau’r BBC yn gyffredinol, ar adegau priodol, fel rydym yn ei wneud yn awr mewn perthynas â BBC Studios a BBC Sounds (edrychwch ar yr esboniad o’n meysydd gwaith yn y dyfodol yn y bennod Edrych i’r dyfodol).

### Effaith Covid-19

Yn ystod cyfnod cynnar cyfyngiadau symud Covid-19 fe wnaeth y BBC nifer o newidiadau i'w wasanaethau mewn ymateb i'r argyfwng. Roedd y rhain yn cynnwys darparu gwasanaethau addysgol ychwanegol, fel Bitesize Daily; cyhoeddi podlediadau ychwanegol, fel y *Coronavirus Newscast* dyddiol; darlledu chwaraeon o'r archif ar Radio 5 Live Sports Extra a rhannu cynnwys radio lleol a chenhedloedd y BBC gyda gwasanaethau radio lleol eraill.

Roedd y BBC yn brydlon yn rhoi gwybod i Ofcom am ei gynlluniau ac roedd modd i ni gynnal deialog agored ac adeiladol ynghylch goblygiadau posibl y newidiadau o ran cystadleuaeth. O ystyried natur gyfyngedig o ran amser y newidiadau, nid oedd gennym unrhyw bryder ynghylch cystadleuaeth yn ymwneud â'r newidiadau hynny.

Roedd y BBC hefyd wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid a allai fod wedi cael eu heffeithio gan ei newidiadau yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, roedd y BBC wedi ymgysylltu â radio masnachol cyn dechrau darlledu cynnwys o'r archif. Yn yr un modd, roedd y BBC yn gweithio'n agos gyda rhai darparwyr gwasanaethau addysgol masnachol i ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer adnoddau addysgol.

## Tryloywder ac ymgysylltu â thrydydd partïon

Yn dilyn ein penderfyniad ym mis Awst 2019 i gymeradwyo cynigion y BBC i ymestyn argaeledd cynnwys ar BBC iPlayer, fe wnaethom herio'r BBC i fod yn llawer mwy agored i ymgysylltu â thrydydd partïon a allai gael eu heffeithio gan newidiadau i wasanaethau sy'n cael eu cyllido gan ffi'r drwydded. Dywedom y byddai ymgysylltu'n frwd â'r diwydiant ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau'r BBC yn galluogi'r BBC i gyflawni ei ddyletswydd i geisio osgoi effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth nad ydynt yn angenrheidiol, er mwyn cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol.

Ers hynny, rydym wedi gweld rhai enghreifftiau cadarnhaol o ymgysylltu â thrydydd partïon. Er enghraifft, wrth ystyried perthnasedd ei gynigion ar gyfer yr ap Own It i gynorthwyo pobl ifanc ar-lein, canfuom fod y BBC wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r ap, gan gynnwys elusennau, sefydliadau nid-er-elw, a chwmnïau preifat. Roedd hyn yn ein helpu i roi tawelwch meddwl i ni y gallai pryderon posibl ynghylch cystadleuaeth gael eu gwyntyllu, ac y byddai cyfle i randdeiliaid roi sylwadau wrth i'r BBC ddatblygu'r ap.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn bod angen i'r BBC fod yn fwy rhagweithiol wrth ymgysylltu ag eraill yn y diwydiant am ei gynlluniau; er enghraifft, mewn perthynas â'i gais i newid y Drwydded Weithredu i ganiatáu iddo fodloni ei rwymedigaethau newyddion a chynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer plant drwy gynyddu ei ddarpariaeth ar-lein. Rydym o'r farn y dylai'r BBC fod wedi gwneud mwy i ganfod yr holl bartïon a allai gael eu heffeithio ac i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf er mwyn deall yr effaith bosibl ar eu busnesau. Cyfrifoldeb y BBC yw deall effaith ei gynlluniau a bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch y rhain ymlaen llaw ac mewn digon o fanylder fel bod darparwyr masnachol yn gallu asesu ac egluro'r effaith debygol ar eu busnesau ac ar gynulleidfaoedd.

Mae Cynllun Blynyddol y BBC a chyhoeddiadau cyhoeddus yn ffordd dda i'r BBC roi gwybodaeth i randdeiliaid am ei gynlluniau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol, a bydd defnyddio'r rhain yn gyson yn helpu'r BBC i sicrhau mwy o dryloywder. Fel rydym ni'n ei egluro yn y Trosolwg, mae angen i'r Cynllun Blynyddol gynnwys digon o fanylion i alluogi rhanddeiliaid i gyflwyno sylwadau ystyrlon ar effaith bosibl cynlluniau'r BBC. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y BBC yn edrych y tu hwnt i'r adnoddau hyn i geisio sylwadau gan randdeiliaid am newidiadau posibl i'w wasanaethau, yn enwedig y rhai nad ydynt yn ymgysylltu â'r BBC yn rheolaidd, neu pan fydd cynlluniau yn cael eu datblygu y tu allan i gylch y Cynllun Blynyddol.

# Ein gwaith i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

## Gweithgareddau masnachol a masnachu

Mae'r BBC yn ymgymryd â gweithgareddau masnachol i gynhyrchu elw ariannol, y gellir ei ail-fuddsoddi yn rhaglenni a gwasanaethau'r BBC ac ategu ei incwm o ffi'r drwydded. Mae'n rhaid i'r gweithgareddau hyn allu addasu i'r amgylchedd sy'n newid ac ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi. Rydym yn cefnogi'r angen i'r BBC arloesi, tyfu a newid. Ein rôl ni fel rheoleiddiwr yw sicrhau nad yw'r berthynas rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol yn ystumio'r farchnad nac yn creu mantais gystadleuol annheg. Gan hynny, rydym wedi pennu rheolau Masnachu a Gwahanu ynghylch sut mae'r BBC yn gweithredu ac yn masnachu ar draws y ffin rhwng ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol.

Rydym wedi parhau i fonitro gweithgareddau masnachol y BBC ac rydym wedi edrych yn fanwl ar ddau newid yn 2019/20: ar rôl y BBC yn BritBox a diddymu menter ar y cyd UKTV. Buom yn ystyried y dylai ein rheoliadau masnachu a gwahanu fod yn ddigon i ddiogelu rhag y posibilrwydd o ystumio'r farchnad o gwbl, neu o fantais gystadleuol annheg yn sgil y cytundeb UKTV. Gan hynny, fe wnaethom benderfynu nad oedd angen cynnal asesiad cystadleuaeth ffurfiol pellach o'r fargen hon. Rydym yn trafod ein hasesiad o rôl y BBC yn BritBox isod.

Ym mis Hydref 2020, fe wnaethom lansio adolygiad o'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Ar yr un pryd, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ynghylch a oedd y newidiadau a wnaeth BBC Studios i'w linellau busnes yn briodol.

### Cyfraniad y BBC at BritBox

Ym mis Medi 2019, ar ôl ymgynghori, fe wnaethon ni benderfynu nad oedd ymwneud y BBC â gwasanaeth ffrydio newydd BritBox yn peri risg sylweddol i gystadleuaeth deg ac effeithiol. Fodd bynnag, roeddem wedi dweud y byddem yn monitro dull gweithredu'r BBC o ran y Polisi Rhyddhau Rhaglenni[134] ac unrhyw drawshyrwyddo ar BritBox gan weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC, i sicrhau nad oes mantais gystadleuol annheg nac ystumio'r farchnad yn digwydd.[135]

[134] Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull y mae gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â cheisiadau gan gynhyrchwyr i drwyddedu rhaglenni i wasanaethau teledu a fideo ar-alw eraill yn y Deyrnas Unedig yn ystod cyfnod trwydded y BBC

[135] Mae gan Ddaliadau Masnachol y BBC gyfran o 10% yn BritBox (gyda dewis i gynyddu hynny i 25%) ac mae BBC Studios hefyd yn trwyddedu swm sylweddol o gynnwys i BritBox

Rydym yn parhau i fonitro sut mae’r BBC yn gweithredu ei ran yn BritBox ac rydym yn disgwyl i’r BBC asesu ceisiadau gan wasanaethau eraill ar gyfer rhyddhau cynnwys yn gynnar o dan ei bolisi rhyddhau rhaglenni mewn ffordd hyblyg, deg ac anwahaniaethol. Rydym wedi gofyn i randdeiliaid a oes ganddynt unrhyw bryder ynghylch sut mae’r BBC wedi chwarae ei ran yn BritBox fel rhan o’n cais am dystiolaeth ar yr adolygiad o BBC Studios (a drafodir isod).

Roeddem hefyd yn cydnabod y gallai fod pryderon o ran cystadleuaeth petai gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn hyrwyddo ei raglenni ar BritBox. Yn ein penderfyniad yn 2019 roeddem wedi dweud ein bod yn disgwyl i’r BBC roi gwybod i ni am ei gynlluniau cyn iddo fwrw ymlaen, ac y byddem yn ystyried ar wahân a oedd angen mesurau diogelu. Yn ystod y flwyddyn adrodd, dim ond waith y gwnaeth y BBC hyrwyddo rhaglen ar BritBox (yn dilyn pennod o *Doctor Who*). Rydym yn gweithio gyda’r BBC i ddeall ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol ac yna byddwn yn ystyried a oes angen mesurau diogelu yn y maes hwn.

Fel rhan o’n hasesiad o rôl y BBC yn BritBox, roeddem wedi ymgysylltu’n helaeth â’r BBC ac ITV wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau. Roedd hyn yn caniatáu i ni gynnal ein hasesiad yn gyflym a sicrhau bod modd i ni gwblhau'r broses reoleiddio cyn lansiad arfaethedig y gwasanaeth. O gofio pa mor bwysig yw hi i’r BBC wneud newidiadau i’w weithgareddau masnachol er mwyn ymateb i newidiadau yn y farchnad, rydym yn annog ymgysylltu cynnar ac agored o’r fath yn y dyfodol.[136]




Britbox

## Adolygu’r rhyngweithio rhwng BBC Studios a gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC

Mae BBC Studios yn cynhyrchu ac yn dosbarthu cynnwys i bobl ei wylio yn y Deyrnas Unedig ac o gwmpas y byd. Mae’n berchen ar ac yn gweithredu sianeli (e.e. UKTV), mae ganddo fenter ryngwladol ar y cyd sy’n wasanaeth fideo ar alw drwy danysgrifio (BritBox, sydd ar gael mewn gwledydd fel Unol Daleithiau America a Chanada), mae’n gwerthu fformatau rhaglenni yn rhyngwladol ac yn gwerthu cynhyrchion defnyddwyr fel DVDs a nwyddau. Mae BBC Studios yn ennill y rhan fwyaf o refeniw masnachol y BBC ac yn cynhyrchu’r rhan fwyaf o’r difidend sy’n cael ei ddychwelyd i’r BBC i ategu ffi’r drwydded. Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar weithrediadau BBC Studios, yn enwedig o ran cynyrchiadau yn cael eu stopio yn ystod rhan gyntaf yr argyfwng, y cynnydd mewn costau ers ailddechrau cynhyrchu a’r gostyngiad mewn refeniw hysbysebu (sy’n effeithio ar sianeli UKTV).

[136] Gall hyn gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid lle mae materion sy’n peri pryder neu gymhlethdod penodol

Fel y trafodwyd yn ein hadran Edrych i'r dyfodol, o ystyried y newidiadau sylweddol i BBC Studios a'r amgylchedd mae'n gweithredu ynddo a'r ffocws a roddir gan Tim Davie ar gynyddu incwm masnachol y BBC, rydym o'r farn ei bod yn bwysig i ni ddeall yn well sut mae'r BBC wedi rhoi ein gofynion masnachu a gwahanu ar waith. Gan hynny, rydym yn adolygu'r ffin rhwng gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC a BBC Studios. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth i gasglu barn rhanddeiliaid am ein meysydd gwaith arfaethedig ac unrhyw bryder arall sydd ganddynt am y berthynas rhwng BBC Studios a'r gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein canfyddiadau o'r adolygiad hwn yng ngwanwyn 2021.

### Ymgynghoriad llinellau busnes BBC Studios

Mae'n rhaid i'r BBC ennill cyfradd enillion fasnachol ar gyfer ei is-gwmnïau masnachol a'r llinellau busnes yn yr is-gwmnïau hynny. Mae angen iddo hefyd sicrhau bod llinellau busnes yn briodol. Yn 2019, penderfynodd Bwrdd y BBC i leihau llinellau busnes BBC Studios o bump i ddau, gan gynnwys cyfuno'r gweithgareddau cynhyrchu a dosbarthu yn un llinell fusnes.[137]

Fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ym mis Hydref 2020, yn nodi ein hasesiad o'r newidiadau a wnaed i BBC Studios. Daethom i'r casgliad dros dro bod y newidiadau i'r llinellau busnes yn gyson ag arferion y farchnad ar gyfer cwmnïau o faint a chwmpas tebyg, ac felly ymddengys eu bod yn briodol. Fodd bynnag, fe wnaethom gynnig rhai newidiadau i'r gofynion masnachu a gwahanu i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 4 Rhagfyr 2020 ac rydym yn bwriadu gwneud ein penderfyniad terfynol, gan ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ddechrau 2021.

## Newidiadau i weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus

Ym mis Awst 2019, fe wnaethom gwblhau ein hasesiad cystadleuaeth mewn perthynas â chynigion y BBC i ymestyn y cynnwys sydd ar gael ar BBC iPlayer. Fe wnaethom gyhoeddi ein penderfyniad terfynol bod gwerth cyhoeddus y cynigion yn cyfiawnhau'r effaith debygol ar gystadleuaeth ac felly y gallai'r BBC fwrw ymlaen â'r cynigion, yn amodol ar amodau a chanllawiau.

Ym mis Mai 2020, daeth y BBC a'r gymdeithas fasnach Pact i gytundeb masnach newydd, lle bydd y BBC yn cael ffenestr awtomatig 12 mis i BBC iPlayer ar yr holl gynnwys mae'n ei gomisiynu yn ei daliad cychwynnol gan gynhyrchwyr annibynnol, gan alluogi'r BBC i fwrw ymlaen i roi'r newidiadau ar waith.

Yn ystod 2019/20 fe wnaethom adolygu asesiadau o sylwedd y BBC o'r newidiadau arfaethedig a ganlyn i'w weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus:

- lansio ap *Own It* i gynorthwyo pobl ifanc ar-lein;
- cynorthwyydd llais digidol newydd y BBC, 'OK Beeb'; a
- cyfuno podlediadau trydydd parti ar BBC Sounds.

[137] Yn dilyn hynny, tynnodd y BBC ei ymrwymiad yn ôl i gadw'r llinellau busnes presennol, a roddwyd adeg yr uno rhwng BBC Studios (cynhyrchu) a BBC Worldwide.

Ym mhob achos, nid oedd gennym bryderon ynghylch y cynigion ac felly ni wnaethom fynnu bod y BBC yn cynnal prawf budd y cyhoedd.[138]

Roedd ein hystyriaeth o gais y BBC i newid y Drwydded Weithredu i ganiatáu iddo ddarparu mwy o'i gynnwys i blant ar-lein (yr ydym yn ei drafod yn gynharach yn yr adran ar Ddiben Cyhoeddus 2) yn ystyried effaith bosibl newidiadau arfaethedig y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ar ôl ymgynghori, daethom i'r casgliad bod y risg i gystadleuaeth deg ac effeithiol yn isel, yn enwedig o ystyried bod cynigion eraill yn y farchnad yn ymddangos yn wahaniaethol iawn o gymharu â gwefan *Newsround* y BBC.

## Cystadleuaeth mewn comisiynu

Fel yr eglurir yn Atodiad 1: Cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol, mae'r Cytundeb yn nodi targedau penodol y mae'n rhaid i'r BBC eu cyrraedd mewn perthynas â chynyddu cyfran y cynnwys sy'n cael ei gomisiynu ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus drwy broses gystadleuol.

Mae'r BBC yn parhau i weithio tuag at y targedau a nodir yn y Cytundeb. Yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf, adroddodd ei fod wedi sicrhau cystadleuaeth ar gyfer 48% o oriau darlledu radio perthnasol. Adroddodd y BBC hefyd fod 62% o'i wariant ar-lein perthnasol wedi bod yn destun cystadleuaeth yn 2019/20. Yn ei Adroddiad Comisiynu Teledu ar gyfer 2019, dywedodd y BBC ei fod wedi cynyddu canran yr oriau o raglenni teledu perthnasol yr oedd wedi sicrhau cystadleuaeth ar eu cyfer o 56% yn 2018 i 62% yn 2019.

Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar gynnydd y BBC tuag at gyrraedd y targedau hyn.

Mae'n ofynnol i'r BBC hefyd sicrhau bod cystadleuaeth o ddifrif rhwng cynhyrchwyr y BBC a rhai allanol (cynhyrchwyr annibynnol ai peidio) ar sail deg, resymol, anwahaniaethol a thryloyw. Rydym wedi cwrdd ag amrywiaeth o gynhyrchwyr fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid, ac nid oes unrhyw fater sylweddol wedi ei godi ynghylch cystadleuaeth ym mhroses gomisiynu'r BBC.

[138] Pan fydd y BBC yn cynnal prawf budd y cyhoedd, mae'n ymgynghori'n gyhoeddus fel rhan o'r broses ac mae'n rhaid iddo gyhoeddi ei gynnig terfynol. Caiff hyn wedyn ei asesu gan Ofcom.



# Safonau cynnwys y BBC

Yn ystod ein trydedd flwyddyn yn rheoleiddio cynnwys y BBC, rydym wedi parhau i ddisgwyl i'r BBC gynnal y safonau uchel y mae ei gynulleidfaoedd yn eu disgwyl. Mae ein Cod Darlledu yn nodi'r safonau rydym yn disgwyl i ddarlledwyr eu cyrraedd ac rydym wedi parhau i orfodi'r rheolau hyn. Rydym o'r farn bod y BBC wedi cyrraedd y safonau hyn yn ei raglenni dros y 12 mis diwethaf.[139]

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio pob rhan o safonau cynnwys y BBC[140], gan gynnwys cywirdeb dyladwy newyddion a didueddrwydd dyladwy newyddion a materion cyfoes. Mae didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni yn parhau i fod yn fater y byddwn ni'n derbyn y rhan fwyaf o gwynion yn ei gylch mewn perthynas â'r BBC. Nid ydym wedi cadarnhau cwynion sy'n ymwneud â didueddrwydd dyladwy na chywirdeb dyladwy dros y 12 mis diwethaf. Fel rydym ni'n egluro yn ein trafodaeth am Ddiben Cyhoeddus 1, y llynedd roeddem wedi edrych yn fanwl ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy, yn ein hadolygiad newyddion, ac mae'n debygol bod llawer o'r rhesymau dros y canfyddiadau hyn yn parhau.[141]

## Ein gwaith i gynnal safonau cynnwys y BBC

### Cwynion am raglenni'r BBC

Mae'n bwysig bod proses deg a thryloyw ar waith i wylwyr a gwrandawyr y BBC wneud cwynion. Bu gennym rai pryderon sylweddol yn y gorffennol am gamau diweddarach proses gwynion y BBC, y mae'r BBC wedi ceisio mynd i'r afael â nhw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae proses 'BBC yn Gyntaf' yn rhoi cyfle i'r BBC ddatrys cwynion yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, os bydd y sawl sy'n cwyno wedi mynd drwy broses y BBC ac nad yw'n fodlon â phenderfyniad terfynol y BBC, mae modd cyfeirio'r mater at Ofcom.[142] Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff Ofcom ymyrryd yn gynharach, a gall lansio ymchwiliadau i benderfynu ar gydymffurfiaeth fel y gwêl yn briodol.[143]

---

[139] Yn ystod 2019/20, fe wnaethom gofnodi un achos o dorri'r Cod Darlledu, a drafodwyd yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC ar gyfer 2018/19. Roedd hwn yn ymwneud â rhifyn o *Sunday Politics* a ddarlledwyd ym mis Ebrill 2017 ar BBC One. Roedd y penderfyniad a gyhoeddwyd gan Ofcom yn cofnodi bod Rheol 2.2 wedi cael ei thorri, sy'n mynnu na chaiff rhaglenni ffeithiol na phortreadau o faterion ffeithiol gamarwain mewn ffordd sylweddol.

[140] Mae Ofcom hefyd yn gosod ac yn gorfodi rheolau darllediadau etholiadol pleidiau a refferenda. Mae'r rhain yn nodi'r gofynion rydym o'r farn eu bod yn briodol ar gyfer cynnwys darllediadau gwleidyddol pleidiau (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrch refferendwm. Yn ystod 2019/20, gan gynnwys Etholiad Cyffredinol Rhagfyr 2019, ni chawsom gwynion gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig ynghylch dyrannu darllediadau gwleidyddol gan bleidiau na darllediadau etholiadol gan bleidiau.

[141] Er enghraifft, mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn ystyried didueddrwydd fel yr agwedd isaf o ran y modd mae'r BBC yn cyflawni Diben Cyhoeddus 1. Yn ôl ein Traciwr Perfformiad y BBC, dim ond 54% o oedolion y Deyrnas Unedig sy'n cytuno bod y BBC yn darparu newyddion diduedd.

[142] Gall achwynwyr hefyd ddod at Ofcom os ydynt o'r farn, ar ôl i'r BBC ddatrys cwyn, y gallai sancsiwn gan Ofcom fod yn briodol, neu os yw'r BBC wedi methu â datrys cwyn o fewn y cyfnod amser a nodir yn ei weithdrefnau.

[143] Mae Ofcom wedi pennu a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion perthnasol am y BBC (a'u datrys) a sut rydym yn ystyried gosod sancsiynau ar y BBC, sy'n gymwys o fis Ebrill 2017.

Mae ystadegau cwynion y BBC ar gyfer 2019/20 yn dangos bod y broses BBC yn Gyntaf yn dal yn gweithio'n effeithiol ac nid yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n cwyno yn cyfeirio eu cwyn at Ofcom ar ôl cael ymateb terfynol y BBC i'w cwyn. Yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, adroddodd y BBC ei fod wedi cael 368,377 o gwynion i'w adran Gwasanaethau Cynulleidfaoedd yng Ngham 1 ei broses, o'i gymharu â 218,352 y llynedd, sy'n 69% o gynnydd. Roedd y cynnydd hwn yn rhannol oherwydd nifer uchel o gwynion a gafodd y BBC yn ystod Etholiad Cyffredinol 2019, sydd i'w ddisgwyl yn ystod digwyddiad gwleidyddol proffil uchel o'r fath.

Fodd bynnag, o blith y rhain, dim ond 759 o gwynion golygyddol[144] a aeth ymlaen i Uned Cwynion Gweithredol y BBC yng Ngham 2 ei phroses, sef 0.2% (o'i gymharu â 549 y llynedd, neu 0.25%). O'r rhain, cafodd 233 o gwynion a oedd wedi cwblhau proses gwynion y BBC eu cyfeirio at Ofcom (gweler isod).

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, cafodd Ofcom gyfanswm o 3,059 o gwynion am safonau cynnwys am y BBC, mwy na dwbl cyfanswm y llynedd, sef 1,539. Mae'r cynnydd hwn yn rhannol oherwydd y cynnydd yn ffigurau cwynion y BBC ei hun dros yr un cyfnod, a oedd yn cael ei sbarduno gan gwynion am raglenni penodol fel *Heresy* (gweler y blwch mewnosod isod), yn ogystal ag am sylw'r BBC i faterion fel Brexit ac Etholiad Cyffredinol 2019. Mae'r ffigur cwynion yn gynnydd bychan (0.1%) yn y gyfradd gyfeirio ers y flwyddyn flaenorol.

O'r holl gwynion a dderbyniwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 (ac eithrio cwynion tegwch a phreifatrwydd a chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC[145]):

- Cafodd 2,763 o gwynion eu cyfeirio'n ôl at y BBC o dan BBC yn Gyntaf. Er bod y cwynion hyn ynghylch rhaglenni'r BBC, ar ôl asesiad cychwynnol, roeddem wedi canfod nad oedd y rhai a oedd wedi cwyno wedi cwblhau proses gwyno'r BBC cyn cyflwyno eu cwyn i Ofcom; ac
- Roedd 233 o gwynion wedi cwblhau proses gwynion y BBC, ac nid oedd y sawl a oedd wedi cwyno yn fodlon ar y canlyniad. Mae hyn yn gyfran fach o gyfanswm y cwynion (dros 350,000) y deliodd y BBC â nhw yn 2019/20. Ym mhob un ond un achos, nid oeddem o'r farn bod y cwynion yn codi mater sylweddol o dan y Cod a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach.[146]

Rydym wedi nodi cynnydd yn nifer y cwynion a gyfeirir atom yn awtomatig yng Ngham 1 y broses gwyno ar ôl peidio â chael ymateb gan y BBC o fewn eu hamserlen benodedig (cawsom tua 395 o'r cwynion hyn eleni o'i gymharu â 14 y llynedd). Fel y nodwyd uchod, roedd y cynnydd hwn yn rhannol o ganlyniad i gynnydd yn nifer y cwynion a oedd yn ymwneud ag Etholiad Cyffredinol 2019. Fodd bynnag, byddwn yn trafod amseroldeb delio â chwynion Cam 1 gyda'r BBC er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud popeth o fewn ei allu i ddelio â'r cwynion mae'n eu cael mor brydlon ac effeithiol â phosibl.

[144] Mae'r BBC yn diffinio cwyn olygyddol fel un sy'n awgrymu bod eitem benodol a ddarlledwyd neu a gyhoeddwyd ar
wasanaethau'r BBC wedi disgyn yn is na'r safonau a fynegir yng Nghanllawiau Golygyddol y BBC. Mae cwynion sy'n codi materion sy'n ymwneud â safonau golygyddol ond nad ydynt yn ymwneud ag eitemau penodol yn cael eu trin gan y BBC o dan
eu Gweithdrefn Gwynion Cyffredinol.

[145] Mae manylion am gwynion tegwch a phreifatrwydd a chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC ar gael isod.

[146] Ymchwiliodd Ofcom i gŵyn gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn yr Alban (NFUS) am adroddiadau anghywir yn y rhaglen *Disclosure: The Dark Side of Dairy* a ddarlledwyd ar 10 Medi 2018. Canfuom nad oedd y rhaglen wedi torri Rheol 2.2 (camarwain sylweddol) y Cod Darlledu.

Mae Ofcom hefyd wedi parhau i dderbyn nifer fach o gwynion ynghylch proses delio â chwynion y BBC. Nid yw Ofcom yn ymyrryd mewn cwynion unigol am drin achosion, ond rydym yn ystyried dull gweithredu cyffredinol y BBC yn y maes hwn.

Y rhaglen y cafwyd y nifer mwyaf o gwynion amdani i Ofcom yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 oedd rhifyn o'r rhaglen *Heresy*. Cawsom 441 o gwynion yn ei chylch yn y lle cyntaf a gafodd eu cyfeirio'n ôl i'r BBC o dan broses BBC yn Gyntaf.[147] Yn dilyn hynny, cawsom chwe chŵyn a oedd wedi cwblhau proses gwynion y BBC. Wrth asesu'r cynnwys, daethom i'r casgliad nad oedd y cwynion yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach gan Ofcom (gweler y blwch mewnosod isod).

## Heresy, BBC Radio 4, 11 Mehefin 2019, 18:30

Mewn pennod o'r rhaglen gomedi Heresy, a ddarlledwyd ar BBC Radio 4, fe wnaeth y comedïwr Jo Brand y sylw a ganlyn am daflu ysgytlaeth at wleidyddion:

*"…I think that's because certain unpleasant characters are being thrown to the fore and they're very, very easy to hate and I'm kind of thinking why bother with a milk shake when you could get some battery acid – that's just me and it's all right, I'm not gonna do it, it's purely a fantasy, but I think milkshakes are pathetic. I honestly do – sorry".*

Roedd y BBC wedi asesu cwynion a gafodd o dan broses BBC yn Gyntaf bod y sylwadau'n hynod o sarhaus ac yn debygol o gymell trais. Dyfarnodd y BBC fod y cwynion am y drosedd wedi eu cyfiawnhau, ond nid y rhai am gymell.

Cafodd Ofcom chwe chŵyn a oedd wedi cwblhau proses BBC yn Gyntaf. Fe wnaethom asesu'r cwynion hyn yn ofalus yn unol â'r Cod Darlledu, gan ystyried hawliau'r darlledwr a'r gynulleidfa i ryddid mynegiant heb ymyrraeth ormodol. Daethom i'r casgliad bod gan sylwadau Ms Brand botensial clir i dramgwyddo gwrandawyr. Fodd bynnag, roeddem wedi ystyried amrywiaeth o ffactorau cyd-destunol, gan gynnwys disgwyliadau tebygol y gynulleidfa o'r ddigrifwraig adnabyddus hon a'r rhaglen gomedi hirsefydlog hon, sy'n ceisio herio syniadau a dderbynnir yn gyffredinol drwy ddychan. Roeddem hefyd wedi ystyried bod Ms Brand wedi amodi ei sylwadau ar unwaith, gan ei gwneud yn glir na ddylid eu cymryd o ddifrif na gweithredu arnynt. Daethom i'r casgliad felly nad oedd y cwynion yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach gan Ofcom.

[147] Y rhaglenni eraill y cafwyd y nifer mwyaf o gwynion amdanynt oedd:

- *European Election Results*, BBC One, 26 Mai 2019: 111 cwyn bod y sylw yn rhagfarnllyd yn erbyn Plaid Brexit;
- *BBC News/Victoria Derbyshire*, BBC Two, 3 Mehefin 2019: 97 o gwynion nad oedd y sylw a roddwyd i ymweliad yr Arlywydd Trump â'r Deyrnas Unedig yn ddigon diduedd;
- *Andrew Marr*, BBC One, 14 Ebrill 2019: 91 cwyn am David Lammy yn cymharu Jacob Rees-Mogg a Boris Johnson â Hitler; a
- *BBC News*, BBC One, 23 Tachwedd 2019: 79 o gwynion bod clip o Boris Johnson yn ateb cwestien yn nadl yr arweinwyr ar *Question Time* wedi cael ei olygu er mwyn cael gwared ar chwerthin y gynulleidfa.

Ym mhob un o'r achosion hyn, yn wahanol i *Heresy*, ni chawsom gwynion a oedd wedi cwblhau proses BBC yn Gyntaf.

Tua diwedd y cyfnod adrodd hwn (Mawrth 2020) fe wnaethom ddechrau cael nifer fach o gwynion am sylw'r BBC i argyfwng Covid-19. Roedd y rhain yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys diffyg cadw pellter cymdeithasol mewn rhaglenni, 'codi bwganod' mewn adroddiadau newyddion a chywirdeb gwybodaeth yn ymwneud â'r feirws a tharddiad yr wybodaeth honno. Cynyddodd nifer y cwynion am sylw'r BBC i Covid-19 ym mis Ebrill a mis Mai 2020, a oedd yn cynnwys nifer fach o gwynion am adroddiadau'r BBC am yr argyfwng yn y gwledydd. Byddwn yn rhoi manylion am y cwynion a ddaeth i law am sylw'r BBC i'r pandemig yn adroddiad y flwyddyn nesaf.[148]

## Mae Ofcom hefyd yn ystyried cwynion ynghylch tegwch a phreifatrwydd

Mae gan Ofcom ddyletswydd i ddyfarnu ynghylch cwynion sy'n cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.[149] Gelwir y rhain yn gwynion Tegwch a Phreifatrwydd.

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, fe wnaethom ddelio â **50 o gwynion** yn erbyn rhaglenni'r BBC am honiadau o drin pobl neu sefydliad yn anghyfiawn neu'n annheg, neu am dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad, o'i gymharu â 42 y llynedd. O'r rhain, cafodd deg cwyn eu cyfeirio ar gyfer ymchwiliad i benderfynu a oedd y Cod wedi cael ei dorri. Os yw'r Cod wedi cael ei dorri, rydym yn cadarnhau'r gŵyn. O blith y cwynion y dyfarnwyd yn eu cylch yn ystod y cyfnod hwn, ni chadarnhawyd yr un ohonynt.

## Cwynion am ddeunyddiau ar-lein

Mae Ofcom a'r BBC wedi cytuno ar drefniant lle mae Ofcom yn gallu ystyried a rhoi 'Barn' annibynnol ynghylch a wnaeth y BBC lynu at Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yn ei ddeunyddiau ar-lein. Mae deunydd ar-lein yn cynnwys testun, delweddau, fideo a sain ar wefan ac apiau'r BBC. Nid yw'n ymestyn i gynnwys cyfryngau cymdeithasol y BBC.

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, cawsom 231 o gwynion am ddeunyddiau ar-lein y BBC, o'i gymharu â 204 y llynedd. O'r cwynion hyn, cafodd 163 eu cyfeirio at y BBC o dan BBC yn Gyntaf, a chafodd 46 eu cau yn dilyn asesiad gan Ofcom. Dim ond un gŵyn a gawsom er dibenion darparu Barn Ofcom.

## Sicrhau didueddrwydd dyladwy rhaglenni'r BBC

Un o ddyletswyddau pwysicaf Ofcom mewn perthynas â safonau'r BBC yw goruchwylio rhaglenni'r BBC i sicrhau bod ei newyddion yn ddigon diduedd[150] ac yn ddigon cywir, a bod ei raglenni nad ydynt yn raglenni newyddion yn ddigon diduedd[151] ac nad ydynt yn camarwain yn sylweddol. Yn yr un modd â darlledwyr eraill, rydym yn cyflawni hyn drwy asesu cwynion (a, lle bo'n briodol, ymchwilio i

[148] O gofio am amseriad yr adroddiad hwn a'r broses BBC yn Gyntaf sydd gennym ar waith ar gyfer delio â chwynion am y BBC

[149] Nid yw'r drefn BBC yn Gyntaf yn gymwys i gwynion tegwch a phreifatrwydd, ac y wahanol i gwynion ynghylch
safonau cynnwys y BBC, mae modd eu cyflwyno i Ofcom yn y lle cyntaf.

[150] Mae didueddrwydd yn golygu peidio â ffafrio un ochr yn fwy nag un arall. Mae'r cysyniad 'dyladwy' yn golygu bod yn ddigonol neu'n briodol i destun a natur y rhaglen. Felly, nid yw 'didueddrwydd dyladwy' yn golygu bod rhaid rhoi'r un amser ar gyfer pob barn, neu fod rhaid cynrychioli pob dadl.

[151] Wrth ddelio â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol

gwynion) gan gynulleidfaoedd. Mae Ofcom hefyd yn defnyddio prosesau monitro wedi eu targedu, hyd yn oed os na fu unrhyw gŵyn, i asesu achosion posib o dorri ein Cod Darlledu.

Mae pwysigrwydd didueddrwydd dyladwy yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith ei fod yn cynrychioli Diben Cyhoeddus cyntaf y BBC. Gan hynny, mae Ofcom yn asesu'r amrywiaeth o dechnegau mae'r BBC yn eu defnyddio i sicrhau didueddrwydd dyladwy i weld a yw ei brosesau'n briodol ac a oes angen i ni gymryd camau os nad yw'n cyrraedd y safonau.

Roedd nifer y cwynion a gyflwynwyd i Ofcom am ddiffyg didueddrwydd dyladwy yn rhaglenni'r BBC yn dal yn uchel yn ystod 2019/20. O'r cyfanswm o 3,059 o gwynion a gawsom am y BBC, roedd 889 o gwynion – neu 29% o'r holl gwynion i Ofcom am y BBC – yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy.[152]

Fel y nodwyd eisoes uchod mewn perthynas â Diben Cyhoeddus 1, rydym wedi ein calonogi gan ymrwymiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd i archwilio ffyrdd newydd o sicrhau didueddrwydd. Dyma un o brif feysydd y BBC y byddwn yn parhau i'w fonitro yn y flwyddyn i ddod.

Yn ystod 2019/20, cadarnhaodd y BBC nifer o gwynion yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy. Fodd bynnag, yn y cyfnod adrodd presennol, nid ydym wedi gweld bod y BBC wedi torri gofynion y Cod o ran didueddrwydd dyladwy na chywirdeb dyladwy.

#### *BBC Breakfast:* tryloywder 'BBC yn Gyntaf'

Adolygodd y BBC ei broses gwyno ar ôl asesiad gan Ofcom ynghylch rhifyn o *BBC Breakfast* (gweler y blwch isod) ac ymgynghorodd ar newidiadau i'w fframwaith cwynion, a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2020.

### BBC Breakfast, BBC One, 17 Gorffennaf 2019, 07:11

Yn y rhaglen hon, bu'r cyflwynwyr Dan Walker a Naga Munchetty yn trafod sylwadau a wnaed gan Arlywydd yr Unol Daleithiau, Donald Trump, yn ymwneud â phedair menyw o'r Blaid Ddemocrataidd sy'n aelodau o'r Gyngres. Yn ystod y drafodaeth hon, cafwyd y sgwrs a ganlyn rhwng y cyflwynwyr Dan Walker (DW) a Naga Munchetty (NM):

DW: "*I mean, it's the President. That was the most telling quote for me last night – I can't remember who said it – but she said 'I've been told to 'go home' many times, 'go back to where I come from' many times in my life, but I've never been told by the man who's sitting in the Oval Office*".

NM: "*And every time I have been told as a woman of colour to go back to where I came from, that was embedded in racism. Now, I'm not accusing anyone of anything here, but there is, you know what certain phrases mean*".

DW: "*Are you still told that? Do you hear that quite regularly?*"

NM: "*Ie. Not regularly, but, you know, I've been told it*".

DW: "*I know you're sitting here not giving an opinion, but how do you feel then, as somebody who's been told that before, when you hear that from him?*"

[152] Y llynedd, roedd 525 o 1,539 o gwynion am y BBC i Ofcom (34%) yn ymwneud â didueddrwydd

NM: "*Furious. Absolutely furious, and I can imagine that lots of people in this country will be feeling absolutely furious that a man in that position feels it's okay to skirt the lines with using language like that*".

Ar 25 Medi 2019, cadarnhaodd Uned Cwynion Gweithredol y BBC yn rhannol gŵyn bod y rhaglen wedi torri Canllawiau Golygyddol y BBC ar ddidueddrwydd. Ar ôl hynny, cafodd Ofcom 18 cwyn am y rhaglen, ac roedd y mwyafrif yn gwrthwynebu penderfyniad cychwynnol y BBC i gadarnhau'r gŵyn yn rhannol. Ar 30 Medi 2019, gwrthdrodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Arglwydd Hall, benderfyniad yr Uned Cwynion Gweithredol.

Roedd Ofcom wedi asesu'r rhaglen o dan reolau didueddrwydd dyladwy'r Cod Darlledu. Fe wnaethom asesu fod y rhaglen, ar y cyfan, yn ddigon diduedd. Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf, roedd Ofcom o'r farn bod yr achos hwn yn amlygu materion pwysig ynghylch diffyg tryloywder o ran proses gwyno'r BBC a'r rhesymau dros y penderfyniadau mae'n eu gwneud ynghylch cydymffurfio â'i Ganllawiau Golygyddol sy'n adlewyrchu Cod Darlledu Ofcom. Ni chafodd rhesymeg lawn Uned Cwynion Gweithredol y BBC na rhesymeg y Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol dros wrthdroi canfyddiad yr Uned Cwynion Gweithredol eu cyhoeddi gan y BBC.

Gan hynny, roeddem o'r farn bod yr achos hwn yn dangos yr angen i'r BBC fod yn fwy tryloyw ynghylch y rhesymau dros ei ganfyddiadau ar gydymffurfio â'i ofynion o ran y Cod. Mae tryloywder yn bwysig er mwyn i'r cyhoedd gael hyder yng ngwaith ac yn effeithiolrwydd proses gwynion y BBC, felly rydym yn bwriadu mynd i'r afael â diffyg tryloywder y BBC fel mater o frys.

Y mwyaf arwyddocaol o'r newidiadau i fframwaith cwynion y BBC o ganlyniad i'r canfyddiad hwn yw bod y BBC yn awr yn cyhoeddi esboniadau o'i resymau dros yr holl ganfyddiadau ynghylch cwynion a gadarnhawyd, a gadarnhawyd yn rhannol ac a ddatryswyd, a rhai canfyddiadau heb eu cadarnhau (yn unol â'r meini prawf y cytunwyd arnynt gan Ofcom). Mae Ofcom hefyd wedi adolygu ei benderfyniadau ar ddelio â chwynion er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC wneud hyn. Byddwn yn parhau i fonitro tryloywder proses gwynion y BBC yng ngoleuni pryderon blaenorol.

Cafodd Ofcom 414 o gwynion am gynnwys y BBC yn ystod Etholiad Cyffredinol mis Rhagfyr 2019. Yn ystod etholiadau rydym yn disgwyl i'r BBC gyflymu pob cwyn sy'n ymwneud ag etholiadau. Yn ystod cyfnod etholiad 2019, gan nad oedd bron pob un o'r cwynion ynghylch y BBC a gawsom wedi cwblhau proses gwynion BBC yn Gyntaf, roeddem yn ystyried a oedd unrhyw un ohonynt yn arwydd o amgylchiadau eithriadol a oedd yn cyfiawnhau ein hymyriad cynnar. Yn ystod y cyfnod etholiad hwn, nid oedd unrhyw gŵyn yn bodloni'r maen prawf hwn.

Fodd bynnag, rydym eisiau sicrhau bod y system BBC yn Gyntaf yn parhau i ennyn hyder cynulleidfaoedd yn ystod cyfnodau arwyddocaol fel etholiadau. Gan hynny, rydym yn bwriadu trafod sut mae'r BBC yn delio â phob cwyn sy'n ymwneud ag etholiadau, er mwyn bodloni ein hunain ei fod yn gwneud popeth o fewn ei allu i gyflymu'r materion hyn a gwneud y broses mor dryloyw â phosibl.

Mae cyhoeddi ystadegau cwynion golygyddol yn ffordd arall y gallwn sicrhau bod y BBC yn dryloyw ac yn atebol i'w gynulleidfaoedd. Yn unol â'n penderfyniadau, dros y ddwy flynedd diwethaf mae'r

BBC wedi cyhoeddi gwybodaeth bob pythefnos am y cwynion golygyddol mae'n eu cael, gan gynnwys:

- cyfanswm nifer y cwynion am raglenni, gyda gwybodaeth ychwanegol am y rhaglenni a gafodd nifer uwch o gwynion (dros 100);
- gwybodaeth am gwynion golygyddol sy'n cael eu cyfeirio at Uned Cwynion Gweithredol y BBC a chanlyniadau'r cwynion hynny; a
- chanran y cwynion yr ymatebwyd iddynt o fewn y cyfnod perthnasol.

Mae'r adroddiadau misol mae'r BBC yn eu cyflwyno i Ofcom yn caniatáu i ni asesu a gaiff yr holl gwynion a gyrhaeddodd Cam 2 eu hystyried a'u datrys yn brydlon. Mae yna adegau prin o hyd pan nad yw hyn wedi digwydd, ond nid yw hyn yn annisgwyl mewn system sy'n delio â chynifer o gwynion. Dywedodd y BBC fod 87% o'r cwynion yng Ngham 1 wedi cael eu trin o fewn yr amserlen darged yn 2019/20, sy'n golygu nad oedd ei darged Cam 1 (93%) wedi cael ei gyflawni am y tro cyntaf.[153] O ganlyniad, mae'r BBC wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i reoli'r cwynion sydd wedi ôl-gronni, gan gynnwys cyflogi staff ychwanegol a symleiddio ymatebion i gwynion.

Mae Ofcom yn parhau i roi pwys mawr ar eglurder a symlrwydd y broses ar gyfer cwyno am raglenni'r BBC. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae Ofcom a'r BBC wedi gwneud nifer o newidiadau i'w gwefannau cwynion, gyda'r nod o wneud proses BBC yn Gyntaf yn haws ei deall, a lleihau nifer y bobl sy'n cysylltu ag Ofcom i gwyno heb sylweddoli bod angen iddynt gwyno wrth y BBC yn gyntaf. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys cael gwybodaeth gliriach ar y dechrau am sut mae'r broses gwyno'n gweithio, gwneud y broses o wneud cwyn yn symlach ac yn fwy greddfol, gan ei gwneud yn haws i achwynwyr am y BBC uwchgyfeirio eu cwynion i gam nesaf proses gwynion y BBC, a phwysleisio natur derfynol ymatebion y BBC sy'n ofynnol cyn y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau i Ofcom. Byddwn yn parhau i adolygu a yw'r newidiadau hyn yn arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n cwyno wrth Ofcom heb gwblhau proses gwyno'r BBC yn gyntaf.

[153] Dywedodd y BBC yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fod hyn yn bennaf oherwydd nifer y cwynion a ddaeth i law yn ystod ymgyrch Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig 2019, a oedd yn deirgwaith mwy na'r arfer. Cafodd 85% o gwynion yng Ngham 2 y broses gwyno eu trin o fewn yr amserlen darged.



# Trosolwg o'n dyletswyddau

Mae Siarter y BBC yn mynnu ein bod ni'n cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi sut rydym wedi cyflawni ein prif swyddogaethau o dan Erthygl 46 o'r Siarter. Mae'r rhain yn ymwneud â sicrhau bod perfformiad y BBC yn cael ei reoleiddio'n effeithiol, diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol a sicrhau bod safonau cynnwys yn cael eu dilyn. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad o gydymffurfiad y BBC â'i ofynion rheoleiddio penodol. Roedd yn ofynnol i ni hefyd adrodd o leiaf yn flynyddol ar berfformiad y BBC o ran y mesurau rydym ni wedi eu pennu ochr yn ochr â'r Drwydded Weithredu. Monitro cyflawniad y BBC o'i Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Isod, rydym yn rhoi trosolwg o'r dyletswyddau hyn.

## Sut rydym yn dal y BBC i gyfrif am ei berfformiad

O dan y Siarter, mae'n rhaid i ni osod Fframwaith Gweithredu sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ein galluogi i reoleiddio gweithgareddau'r BBC yn effeithiol, a Thrwydded Weithredu sy'n cynnwys yr amodau rheoleiddio rydym ni'n credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn:

a) cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

b) sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

c) sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu'n dda.

Gallwn roi sancsiynau i'r BBC os nad yw'n llwyddo i fodloni'r amodau rheoleiddio hyn. Gallwn hefyd osod set o fesurau perfformiad er mwyn cael darlun gwell o ba mor dda mae'r BBC yn cyflawni ei gylch gwaith, y tu hwnt i'r amodau rheoleiddio. Mae ein hasesiad o berfformiad y BBC yn defnyddio'r fframwaith mesur a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017.

Yn ogystal â chyhoeddi asesiad blynyddol o gydymffurfiad y BBC â'i ofynion rheoleiddio ac o'i berfformiad yn erbyn ein mesurau perfformiad, mae'n rhaid i ni gynnal o leiaf ddau adolygiad cyfnodol manwl o berfformiad y BBC yn ystod cyfnod y Siarter, a gallwn gynnal adolygiadau ychwanegol lle teimlwn ei bod yn briodol gwneud hynny.

## Sut rydym yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth

Mae gan Ofcom ddyletswydd i reoleiddio'n gadarn, yn deg ac yn annibynnol er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig. O dan y Siarter, mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod pryderon ynghylch cystadleuaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn cael eu hystyried yn briodol. Fel rhan o'r Fframwaith Gweithredu, rydym wedi

llunio fframwaith rheoleiddio i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y meysydd y mae'r BBC yn gweithredu ynddynt:

- Mae dyletswydd arnom i ystyried a yw gwerth cyhoeddus newid sylweddol i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei gynnig gan y BBC yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym yn ystyried hyn drwy Asesiad Cystadleuaeth y BBC (BCA).
- Mae'n bosib i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus parhaus y BBC gael effaith ar gystadleuaeth. Os bydd gennym bryderon bod ei wasanaethau yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, gallwn adolygu ei wasanaethau presennol o dan Adolygiad Cystadleuaeth y BBC (BCR).
- Mae'n bosibl i'r ffordd mae'r BBC yn dosbarthu ei gynnwys gwasanaeth cyhoeddus effeithio ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar sut rydym yn sicrhau bod y BBC yn trafod trefniadau dosbarthu ar sail deg, resymol heb wahaniaethu, gan ystyried ei rwymedigaethau i gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus hefyd.
- Mae'n ofynnol i'r BBC sicrhau bod ei weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu gweithredu ar wahân i'w is-gwmnïau masnachol ac nad yw'r is-gwmnïau yn cael mantais gystadleuol annheg nac yn ystumio'r farchnad oherwydd eu cysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus. Ym mis Chwefror 2019, fe wnaethom gyhoeddi gofynion a chanllawiau wedi eu diweddaru ynghylch gweithredu is-gwmnïau masnachol y BBC a'r berthynas â'i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus.
- Yn ystod cyfnod y Siarter, mae'n rhaid i'r BBC gomisiynu cyfran gynyddol o gynnwys drwy broses gystadleuol. Rhaid iddo sicrhau bod y broses gomisiynu yn deg, yn rhesymol, nad yw'n gwahaniaethu a'i bod yn dryloyw (FRNDT). Rydym yn monitro cydymffurfiad y BBC ac yn gorfodi'r gofynion hynny. Ym mis Chwefror 2019 fe wnaethom gyhoeddi canllawiau yn nodi'r ffactorau y byddem yn eu hystyried wrth asesu a oedd y BBC wedi diwallu ei ddyletswyddau o ran comisiynu mewn ffordd deg, resymol, dryloyw a heb wahaniaethu petai ymchwiliad.

Mae gan Fwrdd y BBC rwymedigaeth hefyd i ystyried effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae'n rhaid iddo ymdrechu'n barhaus i atal ei wasanaeth cyhoeddus a'i weithgareddau masnachol rhag ystumio cystadleuaeth. O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol, yn y lle cyntaf, am ystyried effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth yn y Deyrnas Unedig. Yn benodol, mae'n rhaid iddo ystyried a yw'r newidiadau arfaethedig yn sylweddol ac a ddylai gynnal prawf lles y cyhoedd (PIT).

Mae Prawf Lles y Cyhoedd yn ystyried a fyddai newid sylweddol arfaethedig yn cynhyrchu digon o werth cyhoeddus i gyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. Os caiff Prawf Lles y Cyhoedd ei fodloni, rhaid i'r BBC gyhoeddi'r cynnig a'i gyfeirio at Ofcom ar gyfer asesiad. Pan fydd y BBC yn penderfynu nad yw newid yn sylweddol, caiff fwrw ymlaen â'r newid hwnnw. Fodd bynnag, mae gan Ofcom y pŵer gennym i ymyrryd lle'r ydym o'r farn bod newidiadau i'r gwasanaeth yn sylweddol, a mynnu bod y BBC yn rhewi'r gweithgaredd a/neu yn cynnal Prawf Lles y Cyhoedd.

## Sut rydym yn sicrhau safonau cynnwys y BBC

O Dan y Siarter a'r Cytundeb, rydym yn dal y BBC i gyfrif yn erbyn rheolau'r Cod Darlledu (y Cod) i sicrhau bod cynulleidfaoedd y BBC yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag ddeunyddiau a allai achosi niwed a thramgwydd. Mae'r Cod yn rhoi sylw i feysydd sy'n cynnwys: diogelu'r rhai sydd dan 18 oed; niwed a thramgwydd; trosedd; crefydd; didueddrwydd a chywirdeb; a chyfeiriadau masnachol. Mae'r rheolau tegwch a phreifatrwydd yn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag cael eu trin yn anghyfiawn neu'n annheg mewn rhaglenni, ac nad oes unrhyw darfu ar eu preifatrwydd mewn rhaglenni heb gyfiawnhad. Mae'r Cod yn berthnasol i wasanaethau teledu a radio y BBC a, phan fo'n briodol, i wasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

Rydym yn sicrhau cydymffurfiad â'r Cod drwy ystyried cwynion yn bennaf. Rydym hefyd yn chwilio am achosion posibl o dorri'r rheolau ac yn ymchwilio iddynt pan fydd hynny'n briodol, drwy waith monitro wedi ei dargedu. Mae hyn yn cyd-fynd â sut rydym yn gorfodi safonau cynnwys ar gyfer yr holl ddarlledwyr rydym yn eu rheoleiddio.

Mae cwynion am raglenni'r BBC yn cael eu hystyried o dan fframwaith cwynion 'BBC yn Gyntaf'. Y BBC sy'n delio â chwynion yn y lle cyntaf[154], a gall achwynwyr gyfeirio'u cwynion at Ofcom os byddant yn anfodlon ar ymateb terfynol y BBC neu os na fydd y BBC yn ymateb yn ddigon prydlon. I sicrhau effeithiolrwydd y fframwaith BBC yn Gyntaf ac er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu'n briodol, rydym yn defnyddio peirianweithiau goruchwylio, fel adroddiadau rheoleiddio gan y BBC ar ddelio â chwynion. Mae gennym y pŵer hefyd i gamu i mewn ac ymyrryd mewn achos safonau cynnwys gan y BBC ar gam cynharach, neu i lansio ymchwiliad yn niffyg cwyn, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

Rydym yn cyhoeddi canlyniadau'r holl gwynion am raglenni'r BBC (a darlledwyr eraill) bob pythefnos yn ein Bwletin Broadcast and On Demand. Rydym yn cyhoeddi canlyniad pob cwyn am ddeunyddiau ar-lein y BBC bob dau fis yn ein Bwletin ar gyfer cwynion am ddeunyddiau ar-lein y BBC.



**Gavin & Stacey Christmas Special** (llun drwy garedigrwydd y BBC)

[154] Ac eithrio cwynion tegwch a phreifatrwydd y mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i'w derbyn yn uniongyrchol gan achwynwyr.